Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mawrth 20 Gorffennaf 1999

Tuesday 20 July 1999

Cynnwys
Contents

2 Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

3 Ethol Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor y Tŷ
Election of Chair and Members to the House Committee

4 Penodi Ymddiriedolwyr i'r Cynllun Pensiwn
Appointment of Trustees to the Pension Scheme

4 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary

16 Datganiad Busnes
Business Statement

23 Cynnig Trefniadol i Drafod Adeilad Newydd y Cynulliad
Procedural Motion to Debate the New Assembly Building

25 Adeilad Newydd y Cynulliad
New Assembly Building

55 Datganiad ar Lid yr Ymennydd
Statement on Meningitis

60 Fframwaith Cyffredinol y Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol
General Framework of the National Development Strategy

75 Dadl Fer ar Hela â Chŵn
Short Debate on Hunting with Dogs

89 Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.

Datganiad gan y Llywydd.
Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

The Presiding Officer: I call the National Assembly for Wales to order.

Mae gennyf ddatganiad i'w wneud ar gwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd. Yng ngoleuni'r sylwadau a leisiwyd gan Aelodau o fwy nag un grŵp yn y Cynulliad hwn yn ddiweddar, hoffwn wneud datganiad byr yn egluro pa fath o gwestiynau sydd yn dderbyniol i'w gofyn i'r Prif Ysgrifennydd.

I have a statement to make on questions to the First Secretary. In the light of comments voiced by Members from more than one group in this Assembly recently, I would like to make a short statement explaining the sort of questions that are appropriate to ask the First Secretary.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Prif Ysgrifennydd wedi ateb cwestiynau ar ystod eang o faterion a swyddogaethau ac yr wyf wedi sylwi bod rhai ohonynt yn fanwl iawn. Yn sicr, gellid dadlau bod hynny'n gwbl briodol cyn trosglwyddo'r swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol a dirprwyo cyfrifoldebau ac atebolrwydd i bob un o Ysgrifenyddion y Cynulliad.

During recent weeks, the First Secretary has answered questions on a wide range of issues and functions and I have noticed that some of them are very detailed. One could certainly argue that that was appropriate prior to the transfer of functions to the National Assembly for Wales and the delegation of responsibilities and accountability to each of the Assembly Secretaries.

Yn ystod y Sesiwn Llawn ddiwedd Mehefin, gwnaeth y Prif Ysgrifennydd ddatganiad yn amlinellu cyfrifoldebau a ddirprwywyd i Ysgrifenyddion y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 2.4.

During the Plenary session at the end of June, the First Secretary made a statement outlining the responsibilities delegated to the Assembly Secretaries, in accordance with Standing Order No. 2.4.

Yr wyf wedi dod i'r casgliad, lle ceir swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo'n glir, ei bod yn hollol briodol i gwestiynau ar faterion polisi manwl sy'n berthnasol i'r cyfrifoldebau hyn beidio â chael eu hateb gan y Prif Ysgrifennydd. Dylid eu cyfeirio at yr Ysgrifennydd Cynulliad priodol. Caniateir cwestiynau os oes mater o bolisi, cydlynu neu oblygiadau i rôl y Prif Ysgrifennydd ei hun wrth arwain y Cabinet a'r Cynulliad. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn gweithio o hyn ymlaen yn unol â'r casgliad hwn.

I have concluded that, where functions have been delegated clearly, it is quite appropriate for the First Secretary not to answer questions on detailed policy issues relevant to these responsibilities. They should be referred to the appropriate Assembly Secretary. Questions on issues of policy, co-ordination or implications for the First Secretary's role in leading the Cabinet and the Assembly are permitted. From now on, the Table Office will work in accordance with this conclusion.

Yr wyf wedi gofyn i'r Cabinet ddarparu nodyn drwy'r Swyddfa Gyflwyno yn egluro'r meysydd y mae Ysgrifenyddion y Cynulliad, gan gynnwys y Prif Ysgrifennydd, yn atebol amdanynt.

I have asked the Cabinet to provide a note via the Table Office explaining the areas for which the Assembly Secretaries, including the First Secretary, are accountable.

Gobeithio y bydd hyn yn hwyluso gwaith Aelodau wrth ofyn cwestiynau a gwaith Ysgrifenyddion wrth eu hateb. Gobeithiaf, pan ddychwelwn ym mis Medi, y bydd cwestiynau ac atebion hyd yn oed yn fwy cryno nag y maent wedi bod hyd yn hyn.

I hope that this will facilitate Members' work when asking questions and Secretaries' work in answering them. I hope that, when we return in September, questions and answers will be even more concise than they have been until now.

Ethol Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor y Tŷ
Election of Chair and Members to the House Committee

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose

that in accordance with the resolution passed on 13 July to establish a House Committee the Assembly elects the following Members to form the Committee: Jane Davidson, Deputy Presiding Officer; Janice Gregory; Peter Black; a Member of Plaid Cymru who is nominated for that purpose; a Member of the Conservative Group who is nominated for that purpose;

and elects Jane Davidson, Deputy Presiding Officer, to chair it.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Yr wyf yn cynnig

yn unol â'r penderfyniad a wnaed ar 13 Gorffennaf i sefydlu Pwyllgor y Tŷ, bod y Cynulliad yn ethol yr Aelodau canlynol i'r Pwyllgor: Jane Davidson, Dirprwy Lywydd; Janice Gregory; Peter Black; Aelod o Blaid Cymru a enwebir i'r perwyl hwnnw; Aelod o'r Grŵp Ceidwadol a enwebir i'r perwyl hwnnw;

ac yn ethol Jane Davidson, y Dirprwy Lywydd, i gadeirio'r Pwyllgor.

The Presiding Officer: I have selected the amendment standing in the name of Andrew Davies.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dewis y gwelliant sy'n sefyll yn enw Andrew Davies.

Andrew Davies: I propose the following amendment. In place of

a Member of Plaid Cymru who is nominated for that purpose

insert 'Brian Hancock'.

Andrew Davies: Yr wyf yn cynnig y gwelliant canlynol. Yn lle

Aelod o Blaid Cymru a enwebir i'r perwyl hwnnw

ychwaneger 'Brian Hancock'.

The Presiding Officer: We will vote first on the amendment.

A vote was held by show of hands.
Amendment adopted.

Y Llywydd: Fe bleidleisiwn yn gyntaf ar y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y gwelliant.

We will now vote on the amended motion.

Yn awr fe bleidleisiwn ar y cynnig wedi'i wella.

A vote was held by show of hands.
Amended motion adopted.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig wedi'i wella.

Penodi Ymddiriedolwyr i'r Cynllun Pensiwn
Appointment of Trustees to the Pension Scheme

Andrew Davies: I propose that

the Assembly, acting under rule B2 of the National Assembly for Wales Members Pension Scheme Rules made under the National Assembly for Wales (Assembly Members) (Pension Scheme) Direction 1999 appoints the following members as Trustees of the Pension Scheme subject to executing the necessary deed to give effect to their appointment: Jane Davidson; Alun Cairns; Christine Humphreys; Owen John Thomas; Carwyn Jones;

and instructs officials to put in hand the preparation of such a Deed.

As part of its report on Members' pay and allowances, the Senior Salaries Review Body recommended the establishment of a pension scheme for Assembly Members. The SSRB advised that the scheme should provide the same categories and levels of benefit as are available to MPs and the Parliamentary Contributory Pension Scheme, in proportion to Members' Salary and service. This was implemented by direction prior to the election and now we must elect trustees to oversee the management and investment of the fund. This is a non-party matter, which affects us all as members of the scheme regardless of political allegiance. Therefore, each party has been invited to nominate a trustee for the scheme. These names are listed in the motion. In addition, the Deputy Presiding Officer has been nominated. I commend the motion to the Assembly.

A vote was held by show of hands.
Motion adopted.

Andrew Davies: Yr wyf yn cynnig

bod y Cynulliad, dan reol B2 o Reolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed dan Gyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad) (Cynllun Pensiwn) 1999 yn penodi'r aelodau canlynol fel Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn yn amodol ar y weithred angenrheidiol i roi grym i'w penodiad: Jane Davidson; Alun Cairns; Christine Humphreys; Owen John Thomas; Carwyn Jones;

ac yn cyfarwyddo swyddogion i baratoi Gweithred o'r fath.

Fel rhan o'i adroddiad ar gyflog a lwfansau Aelodau, argymhellodd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch y dylid sefydlu cynllun pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Cynghorodd y CACU y dylai'r cynllun ddarparu'r un categorïau a lefelau o fuddiant ag sydd ar gael i ASau a'r Cynllun Pensiwn Cyfrannol Seneddol, mewn cyfrannedd â Chyflog a gwasanaeth Aelodau. Gweithredwyd hyn drwy gyfarwyddyd cyn yr etholiad ac yn awr rhaid inni ethol ymddiriedolwyr i oruchwylio rheolaeth a buddsoddiad y gronfa. Mater amhleidiol yw hwn, sy'n effeithio ar bawb ohonom fel aelodau o'r cynllun beth bynnag fo'n lliwiau gwleidyddol. Felly, gwahoddwyd pob plaid i enwebu ymddiriedolwr ar gyfer y cynllun. Mae'r enwau hyn wedi'u rhestru yn y cynnig. Yn ogystal, cafodd y Dirprwy Lywydd ei henwebu. Cymeradwyaf y cynnig i'r Cynulliad.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary

Ail-leoli Gweision Sifil
Relocation of Civil Servants

Q1 John Marek: What plans do you have for the relocation of civil servants presently employed by the National Assembly? (OAQ489JS)

C1 John Marek: Pa gynlluniau sydd gennych i ail-leoli gweision sifil a gyflogir ar hyn o bryd gan y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ489JS)

The First Secretary: A new office of the Training and Industry Department will open shortly in Penllergaer. This was previously planned by the Welsh Office. The aim of that new office, which will employ six people, is to provide more local support to industry and commerce in south-west Wales. It will operate in the same way as the Industry and Training Department office in Colwyn Bay.

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd swyddfa newydd o eiddo'r Adran Hyfforddi a Diwydiant yn agor cyn bo hir ym Mhenllergaer. Cynlluniwyd hyn o'r blaen gan y Swyddfa Gymreig. Nod y swyddfa newydd honno, a fydd yn cyflogi chwech o bobl, yw darparu mwy o gefnogaeth leol i ddiwydiant a masnach yn y de-orllewin. Bydd yn gweithredu yn yr un ffordd â swyddfa'r Adran Ddiwydiant a Hyfforddi ym Mae Colwyn.

John Marek: That is a new office. The question was about relocation. Do you have any plans on this? For example, years ago, the Agricultural Division was located in Aberystwyth, but since then everything has gravitated to Cardiff. I have nothing against Cardiff, but to unify Wales, we need a spread of civil servants throughout the principality. As and when the opportunity arises to relocate and establish new offices somewhere other than Cardiff, will you consider such a policy?

John Marek: Swyddfa newydd yw honno. Ail-leoli oedd testun y cwestiwn. A oes gennych chi unrhyw gynlluniau ar hyn? Er enghraifft, flynyddoedd yn ôl, roedd yr Adran Amaeth wedi'i lleoli yn Aberystwyth, ond ers hynny mae popeth wedi symud i lawr i Gaerdydd. Nid oes gennyf ddim yn erbyn Caerdydd, ond er mwyn uno Cymru, mae arnom angen cael gweision sifil wedi'u gwasgaru drwy'r dywysogaeth i gyd. Pan ddaw'r cyfle i ail-leoli a sefydlu swyddfeydd newydd yn rhywle ar wahân i Gaerdydd, a wnewch chi ystyried polisi o'r fath?

The First Secretary: There are important offices in Caernarfon, Colwyn Bay, Llandrindod Wells, Carmarthen and Crickhowell, with small groups of staff in another 23 locations across Wales. We have explained that the Assembly's criteria are to work for the whole of Wales. It has been devolution to Wales not to Cardiff. The question is where can the service be best provided? If new decisions are being made and there is no need for a location in Cardiff, we will have to consider the matter objectively. I have always considered how each part of Wales can best be helped, for example, through economic development. That lies behind the Penllergaer decision.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae yna swyddfeydd pwysig yng Nghaernarfon, Bae Colwyn, Llandrindod, Caerfyrddin a Chrucywel, gyda grwpiau bychain o staff mewn 23 lleoliad arall ledled Cymru. Yr ydym wedi egluro mai meini prawf y Cynulliad yw gweithio dros Gymru gyfan. Datganoli i Gymru a gafwyd, nid i Gaerdydd. Y cwestiwn yw, ym mhle y gellir darparu'r gwasanaeth orau? Os bydd penderfyniadau newydd yn cael eu gwneud, ac nad oes angen lleoliad yng Nghaerdydd, bydd yn rhaid inni ystyried y mater yn wrthrychol. Yr wyf i bob amser wedi ystyried sut y gellir helpu pob rhan o Gymru orau, er enghraifft, drwy ddatblygu economaidd. Dyna sydd y tu cefn i'r penderfyniad ar Benllergaer.

Elin Jones: Dilynaf bwynt John Marek. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn barod i roi ystyriaeth llawn i adleoli Adran Amaeth y Cynulliad Cenedlaethol, neu ran helaeth ohoni, yn Aberystwyth? Mae arbenigedd yn yr ardal ac mae màs critigol y diwydiant amaethyddol a phoblogaeth cefn gwlad wedi'i leoli yn Aberystwyth. Byddai'n

Elin Jones: I am following on from John Marek's point. Is the First Secretary prepared to give full consideration to relocating the National Assembly's Agriculture Department, or a large part of it, to Aberystwyth? There is expertise in the area and the critical mass of the agricultural industry and the rural population is situated in Aberystwyth. It

ymarferol a synhwyrol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu o Aberystwyth.

would be practical and sensible for the service to be provided from Aberystwyth.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n bwysig fod drws ffrynt y Cynulliad yn y lleoedd lle mae'r wybodaeth berthnasol. Dyna paham, gydag amaethyddiaeth, y ceir drws ffrynt yn yr ardaloedd gwledig. Wrth ystyried symud pobl, rhaid inni ofyn a fyddai hynny'n gwella'r math o wasanaeth y mae pobl yn ei gael. Yr ydym yn ceisio defnyddio'r dechnoleg newydd i sicrhau y gall pobl gysylltu â gweision sifil a chael gwybodaeth ym mhobman yng Nghymru.

The First Secretary: It is important that the Assembly's front door is situated in the areas that contain the relevant knowledge. That is why, with agriculture, there is a front door in the rural areas. When considering moving people, we must ask whether it would improve the type of service that people receive. We are trying to use the new technology to ensure that people are able to contact civil servants and get information in every part of Wales.

2:09 p.m.

Fforwm Sifil
Civic Forum

Q2 Sue Essex: Has the First Secretary any plans to establish a civic forum in Wales, similar to that in Scotland, and I think, in Ireland? If so, could he outline what steps will be taken to establish it? (OAQ490JS)

C2 Sue Essex: A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i sefydlu fforwm sifil i Gymru, tebyg i'r hyn a geir yn yr Alban, a, dybiaf i, yn Iwerddon? Os felly, a allai amlinellu pa gamau a gymerir i'w sefydlu? (OAQ490JS)

The First Secretary: That is an interesting question and rather longer than the one tabled. It gives more information. Perhaps Sue was trying to answer her question as well as ask it. The local Government White Paper, 'Local Voices', encourages councils to set up local forums as part of the process of engaging local communities and electorates. The councils determine whether these are appropriate and the forms they should take. On an all-Wales basis, the three partnerships are at the heart of the Assembly's work. Business, the voluntary sector and local government are the golden threads that run through our work and provide the basis for effective networking, along with our plans to involve young people and consult widely. If we build on that pattern, we can carry forward the important principles that Sue mentioned.

Y Prif Ysgrifennydd: Dyna gwestiwn diddorol ac un ychydig yn hirach na'r un a roddwyd gerbron. Mae'n rhoi mwy o wybodaeth. Efallai bod Sue yn ceisio ateb ei chwestiwn yn ogystal â'i ofyn. Mae'r Papur Gwyn ar Lywodraeth leol, 'Lleisiau Lleol', yn annog cynghorau i sefydlu fforymau lleol fel rhan o'r broses o sicrhau cyfranogiad etholaethau a chymunedau lleol. Y cynghorau sy'n penderfynu a yw'r rhain yn briodol a pha ffurfiau y dylent eu cymryd. Ar sail Cymru gyfan, mae'r tair partneriaeth wrth galon gwaith y Cynulliad. Busnes, y sector gwirfoddol a llywodraeth leol yw'r edafedd aur sy'n rhedeg drwy ein gwaith ac yn darparu'r sail ar gyfer rhwydweithio effeithiol, ynghyd â'n cynlluniau i roi rhan i bobl ifanc ac ymgynghori'n helaeth. Os adeiladwn ar y patrwm hwnnw, gallwn ddwyn ymlaen yr egwyddorion pwysig a grybwyllwyd gan Sue.

Sue Essex: That is helpful. However in Scotland, a forum was established to involve a range of organisations including trade unions, churches and the voluntary sector

Sue Essex: Mae hynny'n ddefnyddiol. Fodd bynnag, yn yr Alban, sefydlwyd fforwm i gynnwys amrediad o gyrff yn cynnwys undebau llafur, eglwysi a'r sector gwirfoddol

that advise and participate, to a certain extent, in the Parliament's activities. Could we look beyond the existing forum and consider the Scottish example to see if it is applicable?

sy'n cynghori ac yn cyfranogi, i ryw raddau, yng ngweithgareddau'r Senedd. A allem ni edrych y tu hwnt i'r fforwm presennol ac ystyried esiampl yr Alban i weld a ydyw'n berthnasol?

The First Secretary: I understand Sue's point, but we must provide Welsh solutions to issues that interest Wales. We have invested a great deal in the three partnerships I mentioned, which involve people from all sectors, from churches to the voluntary sector and from trade unions to the business sector. When these partnerships mature we can consider if there should be cross-fertilisation among them. I would like us to go in that direction, because over the last few years, each partner has made an effort to prepare the ground. I am pleased by their response on building that partnership. I agree wholeheartedly with the overall aim of ensuring that there is maximum cross-fertilisation, listening and inclusion, but we must design a Welsh way of doing it.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn deall pwynt Sue, ond mae'n rhaid inni ddarparu atebion Cymreig i faterion sydd o ddiddordeb i Gymru. Yr ydym wedi buddsoddi'n helaeth yn y tair partneriaeth a grybwyllais, sy'n cynnwys pobl o bob sector, o eglwysi i'r sector gwirfoddol ac o undebau llafur i'r sector busnes. Pan aeddfeda'r partneriaethau hyn gallwn ystyried a ddylai fod mwy o groes-ffrwythloni rhyngddynt. Fe hoffwn i petaem yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw, oherwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gwnaeth pob partner ymdrech i fraenaru'r tir. Cefais fy mhlesio gan eu hymateb tuag at adeiladu'r bartneriaeth honno. Yr wyf yn cytuno gant y cant â'r nod cyffredinol o sicrhau y ceir cymaint ag sy'n bosib o groes-ffrwythloni, gwrando a chynnwys, ond rhaid inni lunio ffordd Gymreig o wneud hynny.

Helen Mary Jones: I was pleased to hear your response to Sue's question on the importance of involving young people. I would like the Government to give its firm support to the plan for a youth Assembly pulled together by Children in Wales as an important way of including young people in the Assembly's work.

Helen Mary Jones: Yr oedd yn dda gennyf glywed eich ateb i gwestiwn Sue ynghylch pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc. Hoffwn i'r Llywodraeth roi ei chefnogaeth gadarn i'r cynllun ar gyfer Cynulliad ieuenctid a dynnwyd ynghyd gan Blant yng Nghymru fel ffordd bwysig o gynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad.

The First Secretary: I welcome the work of Children in Wales, which I heard about the other week. We must involve young people in a variety of ways. However, I am not in favour of a youth Parliament that merely replicates the formal Assembly process, because it would be without meaning. I am in favour of the greatest use of the internet and group and local meetings that can feed into the Assembly's process. My office and that of the Presiding Officer are currently thinking of ways to that and I hope you will all support it.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn croesawu gwaith Plant yng Nghymru, a ddaeth i'm sylw yr wythnos o'r blaen. Rhaid inni gynnwys pobl ifanc mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, nid wyf o blaid Senedd ieuenctid sydd ddim ond yn atgynhyrchu proses ffurfiol y Cynulliad, gan y byddai hynny'n ddi-ystyr. Yr wyf o blaid y defnydd mwyaf ar y rhyngrwyd a chyfarfodydd grŵp a lleol a all fwydo i mewn i broses y Cynulliad. Mae fy swyddfa i a swyddfa'r Llywydd ar hyn o bryd yn meddwl am ffyrdd at hynny, a gobeithiaf y gwnewch chi i gyd gefnogi hyn.

Michael German: Following Helen Mary's point, which I support, do you believe that citizenship and understanding of the political

Michael German: Yn dilyn pwynt Helen Mary, sy'n bwynt yr wyf i'n ei gefnogi, a ydych chi'n credu fod dinasyddiaeth a

and decision making processes in Wales is crucial? If you do, your answer on having a young people's Assembly will not help the two organisations in Wales that have tried to create a young people's Assembly. We must give young people insight into the way decisions are made and a real voice in that decision making process. The relationship between a young people's Assembly and the National Assembly would help to provide that interface and allow young people to take part in what is happening in a much more open way. Do you agree that your answer does not help achieve that?

dealltwriaeth o'r broses wleidyddol a phroses gwneud penderfyniadau yng Nghymru yn allweddol? Os ydych, ni fydd eich ateb ynghylch cael Cynulliad pobl ifanc yn helpu'r ddau sefydliad yng Nghymru sydd wedi ceisio creu Cynulliad i bobl ifanc. Rhaid inni roi cyfle i bobl ifanc weld sut y gwneir penderfyniadau a rhoi llais go-iawn iddynt yn y broses benderfynu honno. Byddai'r berthynas rhwng Cynulliad ieuenctid a'r Cynulliad Cenedlaethol yn helpu i ddarparu'r rhyngwyneb hwnnw ac yn caniatáu i bobl ifanc gymryd rhan yn yr hyn sy'n digwydd mewn ffordd lawer mwy agored. A ydych chi'n cytuno nad yw eich ateb chi'n helpu i gyflawni hynny?

The First Secretary: No I do not agree. I want young people to have a real understanding of, and a real influence on our processes and a real opportunity to contribute to their communities and to thinking around Wales. We must do that on their terms, from their starting points. I have seen groups of young people imitating Parliament, and I am sure you agree that Parliament is not the best model to imitate. If you exclude serious points, such as dealing with a piece of legislation or taking a decision, those debates are reminiscent of the public school debating society on which much House of Commons procedure is based. It is not always an attractive sight. There must be an opportunity for young people to participate through working groups, seminars, and the internet so that they can contribute on a day to day basis without coming to Cardiff or going to another location. Some youth organisations have put a lot of effort into that. Those organisations can create a different, positive approach to political involvement and citizenship. We must pursue the reality of what can work for young people so that they can participate on their terms.

Y Prif Ysgrifennydd: Na, nid wyf yn cytuno. Mae arnaf i eisiau i bobl ifanc gael gwir ddealltwriaeth o'n prosesau a gwir ddylanwad arnynt, a gwir gyfle i gyfrannu at eu cymunedau ac at feddwl o gwmpas Cymru. Rhaid inni wneud hynny ar eu telerau nhw, o'u mannau cychwyn nhw. Yr wyf wedi gweld grwpiau o bobl ifanc yn dynwared y Senedd, ac yr wyf yn siwr y cytunwch chi nad y Senedd yw'r model gorau i'w ddynwared. Os tynnwch allan rai pwyntiau difrifol, fel delio â darn o ddeddfwriaeth neu wneud penderfyniad, mae'r dadleuon hynny'n atgoffa dyn o gymdeithas ddadlau'r ysgol fonedd, sy'n sail i lawer o weithdrefn Tŷ'r Cyffredin. Nid yw bob amser yn olygfa braf. Rhaid rhoi cyfle i bobl ifanc gyfranogi drwy weithgorau, seminarau a'r rhyngrwyd fel y gallant gyfrannu o ddydd i ddydd heb ddod i Gaerdydd neu fynd i ryw leoliad arall. Mae rhai sefydliadau ieuenctid wedi rhoi llawer o ymdrech i mewn i hynny. Gall y sefydliadau hynny greu ymagwedd wahanol, bositif tuag at wleidydda a dinasyddiaeth. Rhaid inni fynd ar ôl y realiti o beth all weithio i bobl ifanc fel y gallant gyfranogi ar eu telerau eu hunain.

Ymddiriedolaethau NHS (Taliadau Refeniw)
NHS Trusts (Revenue Payments)

C3 Janet Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i alluogi'r ymddiriedolaethau NHS hynny, sydd heb dir y gellir ei werthu na

Q3 Janet Davies: What plans does the First Secretary have to enable those NHS trusts that do not have saleable land or healthy

gweddillion ariannol digonol, i allu gwarantu taliadau refeniw dros lawer o flynyddoedd ar gyfer ysbytai a adeiladwyd o dan y fenter cyllid preifat? (OAQ481VB)

balances to guarantee revenue payments for private finance initiative hospital buildings over many years? (OAQ481VB)

The First Secretary: The NHS trusts must develop an agreed proposal for capital investment that will be affordable to their commissioning health authorities. Requests for affordability support to the level necessary to match the publicly funded alternative can be considered where a private finance initiative proposal offers better value for money compared to the public sector option. The scope is limited, given the NHS's overall financial position, which is why it is so important to tackle that problem.

Y Prif Ysgrifennydd: Rhaid i'r Ymddiriedolaethau NHS ddatblygu cynnig cytunedig ar gyfer buddsoddiad cyfalaf y bydd yr awdurdodau iechyd sy'n eu comisiynu yn gallu ei fforddio. Gellir ystyried ceisiadau am gefnogaeth i fforddio hyd at y lefel angenrheidiol i gyfateb i'r hyn y gellid ei ddarparu ag arian cyhoeddus, lle bo cynnig dan y fenter cyllid preifat yn cynnig gwell gwerth am arian o gymharu â'r opsiwn sector cyhoeddus. Mae'r hyn sy'n bosib i'w wneud yn gyfyngedig oherwydd sefyllfa ariannol gyffredinol yr NHS, a dyna pam y mae hi mor bwysig mynd i'r afael â'r broblem honno.

Janet Davies: Given that Government Ministers here and in Westminster are wringing their hands over social disadvantage, how do you propose to reduce the effects of poverty on health when financially weak health trusts cannot afford the capital spending?

Janet Davies: Gan fod difreintiad cymdeithasol yn gymaint o loes calon i Weinidogion y Llywodraeth yma ac yn San Steffan, sut yr ydych chi'n bwriadu lleihau effeithiau tlodi ar iechyd pan na all ymddiriedolaethau iechyd sy'n ariannol wan ddim fforddio'r gwariant cyfalaf?

The First Secretary: In the first instance, we must take stock of our situation. We have just done that through the stocktake of the NHS in Wales, which has gone to the roots of NHS problems. We must look across the board to solve them. The stocktake indicated that there is no magic wand that will solve them. We cannot blame a particular group or individual, although central Government must take some responsibility for the NHS system in Wales, established over many years.

Y Prif Ysgrifennydd: Yn y lle cyntaf, rhaid inni gymryd stoc o'n sefyllfa. Yr ydym newydd wneud hynny drwy gyfrif stoc yr NHS yng Nghymru, cyfrifiad a aeth at wreiddiau problemau'r NHS. Rhaid inni edrych ar draws y bwrdd i'w datrys. Ar sail y cyfrif stoc, nid oes hudlath a all eu datrys. Ni allwn feio un grŵp neu unigolyn, er bod yn rhaid i'r Llywodraeth ganolog gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am system yr NHS yng Nghymru, a sefydlwyd dros lawer o flynyddoedd.

We must target the available resources on the real health needs of different areas, but that will take time. We must also do what we can to improve health rather than simply deal with illness as Jane Hutt outlined last week. We are trying to do that in conjunction with other people, for example through the meeting in Dyfed Powys with trusts and health authorities where we were able to hear people's voices through local authorities, community health councils and the trade

Rhaid inni dargedu'r adnoddau sydd ar gael ar wir anghenion iechyd gwahanol ardaloedd, ond bydd hynny'n cymryd amser. Rhaid inni hefyd wneud yr hyn a allwn ni i wella iechyd yn hytrach na dim ond delio â salwch, fel yr amlinellodd Jane Hutt yr wythnos ddiwethaf. Yr ydym yn ceisio gwneud hynny ar y cyd â phobl eraill, er enghraifft drwy'r cyfarfod yn Nyfed Powys gydag ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd lle cawsom glywed llais y bobl drwy'r awdurdodau lleol, cynghorau

unions. We must get under the skin of the problems that have built up over a number of years to turn the NHS around and restore it to health.

iechyd cymuned a'r undebau llafur. Rhaid inni fynd dan groen y problemau sydd wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd i droi'r NHS o gwmpas a'i adfer i lawn iechyd.

Dafydd Wigley: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn derbyn bod llawer o awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd cwbl amhosibl wrth geisio cynllunio ymlaen ar gyfer datblygiadau ysbytai a chyfalaf? Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi torri'r rhaglen gyfalaf eleni yn sylweddol, sydd yn gwthio'r awdurdodau hyn i gyfeiriad y PFI. Maent hefyd yn cael eu gwasgu ar yr arian refeniw sydd ganddynt ac felly nid ydynt yn gallu fforddio oblygiadau'r PFI yn y dyfodol. Dylem sicrhau bod cynllun cyfalaf digonol ar gyfer y sector iechyd fel bod adrannau fel yr ymddiriedolaeth yng ngogledd-orllewin Cymru yn gallu caniatáu i ysbytai megis Porthmadog symud ymlaen heb ddioddef wrth ddisgwyl am PFI yn y lle cyntaf.

Dafydd Wigley: Does the First Secretary accept that many trusts and health authorities are being placed in impossible positions by trying to plan for hospital and capital developments? The First Secretary has cut back substantially on the capital programme for this year, which pushes the authorities and trusts towards PFI. They are also being pressed on the revenue funds and cannot afford the implications of PFI in future. We must ensure that there is an adequate capital investment scheme for the health sector so that departments such as the north-west Wales trusts can allow hospitals like Porthmadog to proceed and not suffer while they wait for the PFI in the first place.

Y Prif Ysgrifennydd: Y mae'r sefyllfa anodd hon wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai ymddiriedolaethau ac awdurdodau mewn dyled am eu bod wedi gwario gormod. Nid yw'r arian yn cael ei fuddsoddi yn y modd yr hoffem ni. Y mae adnabod y problemau ac ystyried y sefyllfa wedi cymryd amser. Rhaid inni sicrhau bod yr arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn cael ei fuddsoddi a'i dargedu tuag at redeg y gwasanaeth ac nid yn cael ei wastraffu ar dalu dyledion. Dyna sut yr ydym yn ceisio symud ymlaen yn sgîl y cymryd stoc y cyfeiriais ato ynghynt.

The First Secretary: This difficult situation, has developed over the last few years. Some trusts and authorities are in debt because they have spent too much. The money is not invested in the way we would like it to be. It has taken time to identify the problems and consider the situation. We must ensure that the additional funding for the NHS is invested and targeted towards running the service and not wasted on debt payments. That is how we are trying to move forward following the stocktake I mentioned earlier.

2:19 p.m.

David Melding: Under this Government is the need for PFI increased because, according to your stocktake, hospital building has been 'reduced drastically'?

David Melding: Dan y Llywodraeth hon a yw'r angen am PFI yn cynyddu oherwydd, yn ôl eich cyfrif stoc, bu 'gostyngiad drastig' mewn adeiladu ysbytai?

The First Secretary: No. The need to find additional finance and use all possible avenues is due to the difficulties identified in the stocktake. One of these was the creation of a structure, under a previous Secretary of State, that did not allow proper financial management and stripped levels of strategic

Y Prif Ysgrifennydd: Na. Mae'r angen i ganfod cyllid ychwanegol a defnyddio pob ffynhonnell bosib yn deillio o'r anawsterau a welwyd wrth gymryd stoc. Un o'r rhain oedd y ffaith fod strwythur wedi'i greu, dan Ysgrifennydd Gwladol yn y gorffennol, nad oedd yn caniatáu rheolaeth ariannol gywir ac

management from the Welsh Office. We pay the price for those decisions. However, I am determined that we will not make excuses or devolve blame but tackle problems in conjunction with the health authorities and trusts.

a dynnodd lefelau o reolaeth strategol oddi wrth y Swyddfa Gymreig. Yr ydym yn talu'r pris am y penderfyniadau hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn benderfynol nad ydym am wneud esgusodion na throsglwyddo'r bai, ond yr awn i'r afael â phroblemau ar y cyd â'r awdurdodau iechyd a'r ymddiriedolaethau.

We are creating partnerships and I am pleased that across party lines Assembly Members with constituencies in the Dyfed Powys region have been prepared to engage seriously with the problems faced there. We try to give the facts and engage in proper discussion about the issues. I hope the trusts and health authorities will do the same. We are serious about these issues and I hope we can involve whole communities in tackling them.

Yr ydym yn creu partneriaethau ac yr wyf yn falch fod Aelodau'r Cynulliad ag etholaethau yn rhanbarth Dyfed Powys ar draws llinellau plaid wedi bod yn barod i fynd ati o ddifri i geisio datrys y problemau a wynebir yn y fan honno. Byddwn yn ceisio rhoi'r ffeithiau a chael trafodaeth briodol ar y materion perthnasol. Yr wyf yn gobeithio y bydd yr ymddiriedolaethau a'r awdurdodau iechyd yn gwneud yr un modd. Yr ydym o ddifri ynglŷn â'r materion hyn a gobeithio y gallwn gael cydweithrediad cymunedau cyfan i'w datrys.

Lynne Neagle: Can the First Secretary give the Assembly an update on the pensions situation as it affects staff involved in PFI bids?

Lynne Neagle: A all y Prif Ysgrifennydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y sefyllfa bensiynau gan ei bod yn effeithio ar staff sy'n ymwneud â bidiau PFI?

The First Secretary: I can help because my colleague, Alan Milburn, made a statement about the protection of staff and staff pensions transferred from Government agencies and departments to the private sector under PFI deals. He made that statement last month and I would be happy to make it available via the vote office—or perhaps rather the Table Office—rather than giving full details now. It offers protection for affected staff.

Y Prif Ysgrifennydd: Gallaf helpu oherwydd gwnaeth fy nghydweithiwr, Alan Milburn, ddatganiad ynghylch gwarchod staff a phensiynau staff a drosglwyddwyd o asiantaethau ac adrannau'r Llywodraeth i'r sector preifat dan gynlluniau PFI. Gwnaeth ef y datganiad hwnnw y mis diwethaf, ac fe fyddwn yn falch o'i ddarparu drwy'r swyddfa bleidleisio—neu efallai yn hytrach y Swyddfa Gyflwyno—yn hytrach na rhoi manylion llawn yn awr. Mae'n cynnig gwarchodaeth i staff yr effeithir arnynt.

Kirsty Williams: How does the First Secretary propose to deal with the cumulative neglect of the NHS given the proposed drop of £13 million in the gross capital expenditure between this and next year? He has given many reasons why the NHS finds itself in its current financial situation but are we in any danger of getting an idea of how he intends to solve the problem?

Kirsty Williams: Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu delio â'r esgeuluso cynyddol a fu ar yr NHS o gofio'r gostyngiad arfaethedig o £13 miliwn yn y gwariant cyfalaf gros rhwng eleni a'r flwyddyn nesaf? Mae wedi rhoi sawl rheswm pam y mae'r NHS yn ei sefyllfa ariannol bresennol, ond a oes unrhyw berygl inni gael rhyw syniad o sut y mae'n bwriadu datrys y broblem?

The First Secretary: I have made it clear that there are several ways to solve the problem. First, setting up an integrated

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf wedi dangos yn glir fod sawl ffordd i ddatrys y broblem. Yn gyntaf, sefydlu strwythur integredig fel

structure so that we have a single health service in Wales rather than small trusts competing with each other. That has been set in place. I took that decision last December and it started to benefit us this April. Secondly, creating a sense of purpose and unity across the health service, beginning with commissioning from the bottom-up rather than the top down. That is why the local health groups, which are now starting their work and setting priorities, are important. Thirdly, the financial systems and the top management of NHS Wales need to be properly structured to ensure accountability and long-term strategic planning. We need to stop pouring money into financing debt and instead, as I indicated in my answer to Dafydd Wigley, use that money for investment and to develop service provision. We have a dire situation, which will take time to turn around. We are tackling it in a variety of ways which will win support from across the political spectrum and Wales.

bod gennym un gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn hytrach nag ymddiriedolaethau bach yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae hynny ar y gweill. Cymerais y penderfyniad hwnnw fis Rhagfyr diwethaf ac erbyn Ebrill eleni roedd wedi dechrau dwyn ffrwyth. Yn ail, creu synnwyr o bwrpas ac undod ar draws y gwasanaeth iechyd, gan ddechrau gyda chomisiynu o'r gwaelod i fyny yn hytrach nag o'r top i lawr. Dyna pam y mae'r grwpiau iechyd lleol, sydd yn awr yn dechrau eu gwaith ac yn pennu blaenoriaethau, yn bwysig. Yn drydydd, mae angen i systemau ariannol a rheolaeth uchaf NHS Cymru fod wedi'u strwythuro'n iawn i sicrhau atebolrwydd a chynllunio strategol hir dymor. Mae angen inni roi'r gorau i arllwys arian i dalu dyled, ac yn lle hynny, fel y nodais yn fy ateb i Dafydd Wigley, defnyddio'r arian hwnnw i fuddsoddi ac i ddatblygu darpariaeth gwasanaethau. Mae gennym sefyllfa echrydus, a gymer amser i'w throi o amgylch. Yr ydym yn mynd i'r afael â hi mewn amrywiaeth o ffyrdd a fydd yn ennill cefnogaeth ar draws y sbectrwm gwleidyddol a Chymru.

Ychwanegoldeb (Diffiniad)
Additionality (Definition)

Q4 Alun Cairns: Will the First Secretary confirm to the Assembly that the definition of additionality previously agreed by the EU is to provide new money over and above cover to match EU funds? (OAQ488VB)

C4 Alun Cairns: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gadarnhau i'r Cynulliad mai'r diffiniad o ychwanegoldeb y cytunwyd arno gan yr UE yw darparu arian newydd sy'n ychwanegol at unrhyw arian sy'n cyfateb punt am bunt ag arian yr UE? (OAQ488VB)

The First Secretary: Under current and future regulations additionality is satisfied when it is demonstrated that structural fund support does not replace public expenditure on structural or comparable expenditure undertaken by the member state. Compliance with this requirement under the revised regulations is verified at member state level by aggregating all Objective 1 areas and similarly at a combined Objective 2 and 3 level.

Y Prif Ysgrifennydd: O dan reoliadau'r presennol a'r dyfodol bodlonir gofynion ychwanegedd pan ellir dangos nad yw cefnogaeth cyllid strwythurol ddim yn cymryd lle gwariant cyhoeddus ar faterion strwythurol neu wariant cymharol gan yr aelod wladwriaeth. Bydd cydymffurfiad â'r gofyniad hwn o dan y rheoliadau diwygiedig yn cael ei gadarnhau ar lefel aelod wladwriaeth drwy nodi cyfanswm yr holl ardaloedd Amcan 1 ac yn yr un modd ar lefel Amcan 2 a 3 gyda'i gilydd.

Alun Cairns: Does the First Secretary agree that for all of Wales to capitalise on Objective 1 moneys, to demonstrate the

Alun Cairns: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno os yw Cymru gyfan i fanteisio ar arian Amcan 1, rhywbeth a fyddai'n

Government's commitment and to show the opportunity available to all sectors, it makes common sense to announce the sums of match funding as early as possible? Does he agree that Government delays may put the project at risk?

arddangos ymroddiad y Llywodraeth ac yn dangos y cyfle sydd ar gael i bob sector, mai synnwyr cyffredin yw cyhoeddi'r symiau cyllid cyfatebol cyn gynted ag y bo modd? A ydyw'n cytuno y gall oedi ar ran y Llywodraeth beryglu'r prosiect?

The First Secretary: There are no Government delays. The need for additional funds for new programmes will not come fully on stream for a year or two in terms of actual expenditure. There are sufficient funds in the Assembly's budget to meet the anticipated level of claims for current and new programmes for 1999 to 2000 and 2001. That fits neatly with the period of the next comprehensive spending review. I am grateful for the opportunity to spell this out once again.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid oes oedi ar ran y Llywodraeth. Ni fydd yr angen am gyllid ychwanegol ar gyfer rhaglenni newydd yn dod i'w lawn dwf am flwyddyn neu ddwy yn nhermau gwir wariant. Mae digon o arian yng nghyllideb y Cynulliad i ateb y lefel o hawliadau a ragwelir ar gyfer rhaglenni cyfredol a newydd am 1999 i 2000 a 2001. Mae hynny'n ffitio'n daclus gyda chyfnod yr adolygiad gwario cynhwysfawr nesaf. Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i danlinellu hyn unwaith eto.

Ieuan Wyn Jones: Hoffwn i Alun egluro un mater sydd wedi achosi dryswch i Aelodau o'r Cynulliad. Cyfeiriodd ato yn ei ateb i Alun Cairns. Hynny yw, bod arian ar gael yn y gyllideb gyfredol ar gyfer 1999 a 2000. Crybwyllwyd tri ffigwr eisoes mewn gwahanol Bwyllgorau. Yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd yr oedd cyfeiriad at gronfa o £19 miliwn ac at £40 miliwn ac, yn y Pwyllgor yr wyf yn ei gadeirio, at £35 miliwn. A all Alun ddweud wrthym pa un yw'r ffigwr cywir?

Ieuan Wyn Jones: I would like Alun to clarify an issue that has caused confusion to Assembly Members. He referred to it in his answer to Alun Cairns. That is, that money is available in the current budget for 1999 and 2000. Three figures have already been mentioned in various Committees. In the Economic Development Committee there was reference to a fund of £19 million and to one of £40 million and, in the Committee I chair, to £35 million. Can Alun tell us which is the correct figure?

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn sicr o ble daeth y cyfeiriadau at dri ffigwr gwahanol. Nid oeddwn yn y Pwyllgor pan gyfeiriwyd atynt. Yr wyf yn barod i edrych ar y ffigurau a ddyfynwyd gan Ieuan a cheisio darganfod lle digwyddodd y camgymeriad. Mae'r ffigurau ar gael yn eglur ac yn yr amserlen y cyfeiriais ati yn yr ateb cyntaf.

The First Secretary: I am not sure where these references to three different figures have come from. I was not in the Committee when they were referred to. I am prepared to look at the figures quoted by Ieuan and try to discover where the error occurred. The figures available are clear and included in the timetable I referred to in my first answer.

Peter Black: Members of Parliament were told by a senior European civil servant last week that the full seven-year strategy for Objective 1, including the match funding, must be in place by October this year. Given that, will the First Secretary make urgent representation to the Chancellor of the Exchequer that Wales cannot wait until the next spending review for this money and that the level of match funds to be provided by the UK Government must be agreed within

Peter Black: Dywedwyd wrth Aelodau Seneddol gan uwch was sifil Ewropeaidd yr wythnos ddiwethaf fod yn rhaid i'r strategaeth saith-blynedd lawn ar gyfer Amcan 1, gan gynnwys y cyllid cyfatebol, fod yn ei lle erbyn mis Hydref eleni. Yng ngoleuni hynny, a wnaiff y Prif Ysgrifennydd bwyso ar fyrder ar Ganghellor y Trysorlys na all Cymru aros tan yr adolygiad gwario nesaf am yr arian hwn a bod yn rhaid i'r lefel o gyllid cyfatebol a ddarperir gan Lywodraeth

the next few months?

y DU gael ei chytuno o fewn yr ychydig fisoedd nesaf?

The First Secretary: It is the UK Government's responsibility to reach agreement with the European Commission on how any proposal is implemented. On structural funds, the Government now sets spending for three years ahead. Previously we dealt with obligations annually but still coped with the requirement to meet European regulations and carry through plans. This is another bugaboo coming out of the woodwork. National and European finance systems have coped with these situations before and there are no massive changes in the regulations. As I have indicated on several occasions, the systems are sufficiently robust to deal with the support necessary so that we can draw down European structural funds.

Y Prif Ysgrifennydd: Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw dod i gytundeb gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar y modd y gweithredir unrhyw gynnig. Ar gyllid strwythurol, mae'r Llywodraeth bellach yn pennu gwariant am y tair blynedd nesaf. Gynt byddem yn delio ag ymrwymiadau'n flynyddol ond yr oeddem yn dal i ymdopi â'r gofyniad i gydymffurfio â rheoliadau Ewrop a chario cynlluniau drwodd. Codi bwganod yw hyn eto. Mae systemau cyllid cenedlaethol ac Ewropeaidd wedi ymdopi â'r sefyllfaoedd hyn o'r blaen ac nid oes dim newidiadau anferth yn y rheoliadau. Fel y nodais ar sawl achlysur, mae'r systemau'n ddigon cryf i ddelio â'r gefnogaeth angenrheidiol fel y gallwn dynnu cyllid strwythurol i lawr o Ewrop.

Now that we have the first outline of proposals from the task force, we should concentrate on ensuring that we have plans in place which will transform the Welsh economy, particularly the Objective 1 areas. All our energy and efforts should go into that.

A ninnau bellach wedi cael yr amlinelliad cyntaf o gynigion gan y tasglu, dylem ganolbwyntio ar sicrhau bod gennym gynlluniau yn eu lle i drawsnewid economi Cymru, yn enwedig yr ardaloedd Amcan 1. Dylai'n holl egni a'n hymdrechion fynd i'r cyfeiriad hwnnw.

Lleoliadau Ysbytai
Locations of Hospitals

C5 David Lloyd: Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu sicrhau mai anghenion iechyd yn hytrach nag ystyriaethau ariannol fydd y ffactor a fydd yn llywio'r penderfyniad ar leoliadau ysbytai a gaiff eu hadeiladu o dan y fenter cyllid preifat? (OAQ482VB)

Q5 David Lloyd: How does the First Secretary propose to overcome affordability rather than health needs being the deciding factor for locations of hospitals built using the private finance initiative? (OAQ482VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Rhaid i unrhyw ymddiriedolaeth ddangos drwy ei chais busnes bod unrhyw PFI yn ateb yr anghenion iechyd yn yr ardal a'i bod yn fforddiadwy.

The First Secretary: Any trust must show through its business application that any PFI answers the health needs in the area and is affordable.

2:29 p.m.

David Lloyd: A fyddai Alun Michael yn cytuno bod ysbytai PFI yn aml yn cael eu hadeiladu gyda llai o welyau nag a oedd yn y cynlluniau gwreiddiol oherwydd cyfyngiadau ariannol ac nid blaenoriaethau clinigol, a bod PFI yn trosglwyddo perchnogaeth a

David Lloyd: Would Alun Michael agree that PFI hospitals are often built with fewer beds than originally planned because of financial constraints and not clinical priorities, and that PFIs transfer ownership and responsibility for providing health

chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau iechyd o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat?

services from the public sector to the private sector?

Yr Prif Ysgrifennydd: Mae pethau wedi newid i raddau. Mae rhywbeth wedi dod gan y Llywodraeth yn ystod y pythefnos diwethaf sy'n cryfhau'r ffordd y mae ysbytai yn dychwelyd i'r sector cyhoeddus yn ôl yr amserlen sydd yn y PFI. Byddaf yn sicr o ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â'r pwynt hwn.

The First Secretary: Things have changed to some extent. Something has come from the Government during the last fortnight that strengthens the way that hospitals return to the public sector according to the timetable that is in the PFI. I will make sure that I write to the Member on this point.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn derbyn cyngor gan yr Adran Iechyd, yn dilyn ymgynghoriad ynglŷn â'r ffordd y cafodd PFI ei gweinyddu ym maes iechyd yn y gorffennol. Gallwn edrych ar y wybodaeth sy'n deillio o'r gwaith hwnnw ac ystyried beth sy'n gweithio orau i ni yng Nghymru.

During the next few weeks, we will receive advice from the Health Authority, following consultation on the way PFI has been administered in the health sector. We can look at the information that derives from that work and consider what works best for us in Wales.

Brian Hancock: Would the First Secretary agree that one of the best ways the NHS and people in Wales can get best value from PFI is through a vigorous evaluation against a public sector comparator? Would he agree that there is a vigorous process of comparison in Wales to ensure that PFI bids represent good value to the taxpayer and that revenue streams are protected?

Brian Hancock: A fyddai'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno mai un o'r ffyrdd gorau y gall yr NHS a phobl yng Nghymru gael y gwerth gorau o'r PFI yw drwy gymhariaeth fanwl â sefyllfa gyfatebol yn y sector cyhoeddus? A fyddai'n cytuno bod proses egnïol o gymharu yng Nghymru i sicrhau fod bidiau PFI yn cynrychioli gwerth da i'r trethdalwr ac y caiff ffrydiau refeniw eu gwarchod?

The First Secretary: I agree that any PFI should stand up against a comparator, give value for money and hit the real health needs of an area. I also agree with Brian about the stringency with which applications are looked at. The Assembly in time will want to consider and strengthen that evaluation. The work undertaken by the Department will lead to new guidance. We should look carefully at that to see whether there are improvements we wish to make and if there are other lessons that can be learnt from wider experience elsewhere.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn cytuno y dylai unrhyw PFI sefyll ar ei draed mewn cymhariaeth, rhoi gwerth am arian a tharo gwir anghenion iechyd ardal. Yr wyf yn cytuno â Brian hefyd ynghylch edrych ar geisiadau yn fanwl. Ymhen amser bydd y Cynulliad eisiau ystyried a chryfhau'r arfarnu hwnnw. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Adran yn arwain at ganllawiau newydd. Dylem edrych ar hynny'n ofalus i weld a oes gwelliannau yr hoffem eu gwneud ac a oes gwersi eraill i'w dysgu o brofiad ehangach mewn mannau eraill.

Mick Bates: I am concerned about the amount of money spent on unsuccessful bids. I have recently heard of a case where a proposal was put forward under PFI and the consultant's bill was £1 million. How much money is spent on these unsuccessful bids?

Mick Bates: Yr wyf yn bryderus ynghylch faint o arian a gaiff ei wario ar fidiau aflwyddiannus. Clywais yn ddiweddar am achos lle cyflwynwyd cynnig dan PFI ac roedd bil yr ymgynghorydd yn £1 filiwn. Faint o arian sydd yn cael ei wario ar y bidiau aflwyddiannus hyn?

The First Secretary: I am not certain of the precise way in which the finance of unsuccessful bids operates. I will write to the Member about this rather than attempting to give him a glib answer.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn sicr o'r union ffordd y mae cyllid bidiau aflwyddiannus yn gweithio. Fe ysgrifennaf at yr Aelod am hyn yn hytrach na cheisio rhoi ateb slic iddo.

Business Statement
Datganiad Busnes

The Business Secretary: I would like to outline the business for the first three weeks of the Assembly's autumn session, which should be on the Chamberweb.

Y Trefnydd: Hoffwn amlinellu'r busnes ar gyfer tair wythnos gyntaf sesiwn hydref y Cynulliad, a ddylai fod ar We'r Siambr.

Jenny Randerson: Point of order. This is the second week running that there has been nothing on the Chamberweb and we need to look at that.

Jenny Randerson: Mater o drefn. Dyma'r ail wythnos yn olynol heb ddim ar We'r Siambr, ac mae angen inni edrych ar hynny.

The Presiding Officer: If there is a difficulty about the timing or the availability of Business Statements, I will investigate. It is important that statements are prepared as soon as possible to ensure that Members have them in front of them on the Chamberweb.

Y Llywydd: Os oes anhawster ynghylch amseriad neu argaeledd Datganiadau Busnes, fe wnaf ymchwilio. Mae'n bwysig fod datganiadau'n cael eu paratoi mor fuan ag y bo modd er mwyn sicrhau bod Aelodau'n eu cael o'u blaenau ar We'r Siambr.

Michael German: Point of order. Can we take the Business Statement later to give us time to read it? It is difficult for us to approve something that is not before us.

Michael German: Mater o drefn. A gawn ni gymryd y Datganiad Busnes yn ddiweddarach er mwyn rhoi amser inni ei ddarllen? Mae'n anodd inni gymeradwyo rhywbeth nad yw o'n blaenau.

The Presiding Officer: I assume that the various party Business secretaries will have seen the Business Statement and consulted with their Members. It would be rather strange if this has not happened.

Y Llywydd: Yr wyf yn cymryd y bydd ysgrifenyddion Busnes y gwahanol bleidiau wedi gweld y Datganiad Busnes ac wedi ymgynghori â'u Haelodau. Byddai braidd yn od petai hyn heb ddigwydd.

William Graham: Point of order. Would we have read this in the newspapers?

William Graham: Mater o drefn. A fyddem ni wedi darllen hyn yn y papurau newydd?

The Presiding Officer: That is not a point of order.

Y Llywydd: Nid mater o drefn yw hynny.

John Marek: Point of order. It is a succinct one. The National Assembly is made up of Members, not of Business Secretaries or parties. It is we as Members and individuals that should have things in front of us for consideration.

John Marek: Mater o drefn: un byr. Aelodau sy'n ffurfio'r Cynulliad Cenedlaethol, nid Ysgrifenyddion Busnes na phleidiau. Ni fel Aelodau ac unigolion ddylai gael pethau o'n blaenau i'w hystyried.

The Presiding Officer: I am well aware, John, that this Assembly consists of Members. It is part of my role to ensure that all Members are able to play a full and equal part in the work of the Assembly.

Y Llywydd: Yr wyf yn ymwybodol iawn, John, mai Aelodau sy'n gwneud y Cynulliad hwn. Rhan o fy swyddogaeth i yw sicrhau y gall pob Aelod chwarae rhan lawn a chyfartal yng ngwaith y Cynulliad.

Andrew Davies: Point of order. Perhaps I can help. I was going to read out some of the points about the business for the first three weeks of the next session. If it would be helpful, I can arrange for the business to be put on the Chamberweb and I could speak later about that.

Andrew Davies: Mater o drefn. Efallai y gallaf i helpu. Yr oeddwn yn mynd i ddarllen allan rai o'r pwyntiau am y busnes ar gyfer tair wythnos gyntaf y sesiwn nesaf. Os byddai o gymorth, gallaf drefnu i'r busnes gael ei roi ar We'r Siambr a gallwn siarad am hynny yn ddiweddarach.

The Presiding Officer: I am anxious that we should not make an issue out of occasional errors in the information and communication technology of these things, but we should if necessary delay our proceedings while those errors are rectified. These errors come into my category of technological points of order.

Y Llywydd: Yr wyf yn awyddus inni beidio â gwneud môr a mynydd allan o wallau achlysurol yn nhechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r materion hyn, ond fe ddylem oedi'n gwaith os oes angen tra caiff y gwallau hynny eu cywiro. Daw'r gwallau hyn i'm categori o faterion o drefn technolegol.

The First Secretary: Point of order. The draft Business Statement is now there. If people log out and log back in again they will find it.

Y Prif Ysgrifennydd: Mater o drefn. Mae'r Datganiad Busnes drafft yno erbyn hyn. Os logiwch allan a logio yn ôl i mewn eto fe ddylech ei gael.

The Presiding Officer: I am grateful for all advice I receive from the First Secretary or from any other quarters on these points. From next September I will also have a touch screen, and will therefore be in touch with whatever is or is not on the web. It is now on the web under supporting papers. We therefore move on to the Business Statement.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar am bob cyngor a gaf oddi wrth y Prif Ysgrifennydd neu o unrhyw gyfeiriad arall ar y pwyntiau hyn. O fis Medi nesaf bydd gennyf sgrîn gyffwrdd hefyd, ac felly byddaf mewn cysylltiad â beth bynnag sydd ar y we neu beidio. Mae ar y we bellach dan bapurau ategol. Symudwn ymlaen felly at y Datganiad Busnes.

Andrew Davies: The business for the first three weeks of the Assembly's autumn session is now on the Chamberweb and the following items have been scheduled for debate. There will be a debate on sustainable development on Tuesday 14 September. On Wednesday 15 September there will be debate on the children's strategy for Wales. Due to the timing of the national party conferences, Plenary sessions for the weeks commencing the 20 and 27 September have been rescheduled.

Andrew Davies: Mae'r busnes ar gyfer tair wythnos gyntaf sesiwn hydref y Cynulliad bellach ar We'r Siambr ac mae'r eitemau canlynol wedi'u rhestru i'w trafod. Bydd dadl ar ddatblygiad cynaladwy ddydd Mawrth 14 Medi. Ddydd Mercher 15 Medi bydd dadl ar y strategaeth blant i Gymru. Oherwydd amseriad cynadleddau cenedlaethol y pleidiau, cafodd sesiynau Llawn ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 20 a 27 Medi eu haildrefnu.

There will be an all day Plenary debate on Thursday 23 September when business will include a debate on the Partnership Council

Bydd dadl Lawn drwy'r dydd ddydd Iau 23 Medi pryd bydd y busnes yn cynnwys dadl ar benodiadau'r Cyngor Partneriaeth, torcyfraith

appointments, crime and disorder and best value, and relations with local government. There will also be an all day Plenary on Thursday 30 September when business will include a debate on the voluntary sector and partnership with business. I have also scheduled an opportunity on 30 September for the Assembly to debate the education legislation that will be made during recess. Arrangements will be made after Plenary today to place a copy of the statement on both the internet and intranet.

ac anhrefn a'r gwerth gorau, a'r berthynas â llywodraeth leol. Bydd sesiwn Lawn drwy'r dydd hefyd ddydd Iau 30 Medi pryd y bydd y busnes yn cynnwys dadl ar y sector gwirfoddol a phartneriaeth â busnes. Yr wyf hefyd wedi trefnu cyfle ar 30 Medi i'r Cynulliad drafod y ddeddfwriaeth addysg a wneir yn ystod y gwyliau. Gwneir trefniadau ar ôl y sesiwn Lawn heddiw i roi copi o'r datganiad ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd.

Finally, I add the Cabinet's support to the Statement of Opinion that has received cross-party support from 46 Assembly Members to endorse the nomination of Blaenavon Town and industrial landscape for inscription on the UNESCO (United Nations Educational, Scientific and Cultural Organisation) list of World Heritage sites. The UK Government nominated two sites to UNESCO for consideration for World Heritage status. These were the Blaenavon site, and from the overseas territory the historic town of St George and related fortifications in Bermuda. The Blaenavon nomination had the full support of the Secretary of State who provided the foreword to the nomination document and he will continue to give his support as First Secretary.

Yn olaf, ychwanegaf gefnogaeth y Cabinet i'r Datganiad o Farn a gafodd gefnogaeth traws-bleidiol gan 46 o Aelodau'r Cynulliad i gefnogi enwebiad Tref a thirwedd diwydiannol Blaenafon i'w harysgrifo ar restr UNESCO o safleoedd Treftadaeth Byd. Enwebodd Llywodraeth y DU ddau safle i UNESCO i'w hystyried ar gyfer statws Treftadaeth Byd, sef safle Blaenafon, ac o'r diriogaeth dramor, tref hanesyddol St George a'r ceyrydd cysylltiedig yn Bermuda. Cafodd enwebiad Blaenafon gefnogaeth lawn yr Ysgrifennydd Gwladol a ddarparodd y rhagymadrodd i'r ddogfen enwebu, a bydd ef yn parhau i roi ei gefnogaeth fel Prif Ysgrifennydd.

Nick Bourne: Point of order. The debate on the education legislation made in the recess confuses me. Is this legislation we are nodding through as an Assembly? Perhaps you could give us more details?

Nick Bourne: Mater o drefn. Mae'r ddadl ar y ddeddfwriaeth addysg sydd i'w gwneud yn y gwyliau'n fy nrysu i. Ai deddfwriaeth yw hyn yr ydym ni'n ei phasio gydag amnaid o gytundeb fel Cynulliad? Hwyrach y gallech chi roi mwy o fanylion inni?

2:39 p.m.

The Presiding Officer: That is not a point of order relevant to this statement. We do not take questions on the Business Statement. However, if you are objecting to the Business Statement, you know the procedure.

Y Llywydd: Nid yw hynny'n fater o drefn perthnasol i'r datganiad hwn. Nid ydym yn derbyn cwestiynau ar y Datganiad Busnes. Fodd bynnag, os ydych chi'n gwrthwynebu'r Datganiad Busnes, fe wyddoch y drefn.

Nick Bourne: I object to the Business Statement.

Nick Bourne: Yr wyf yn gwrthwynebu'r Datganiad Busnes.

The Presiding Officer: Are there 10 objections to the Business Statement?

Y Llywydd: A oes 10 gwrthwynebiad i'r Datganiad Busnes?

I see that there are.

Mi welaf fod.

I shall allow one Member from each group to speak and then I will ask the Business Secretary to respond before calling a vote.

Fe wnaf ganiatáu i un Aelod o bob grŵp siarad ac yna fe ofynnaf i'r Trefnydd ymateb cyn galw pleidlais.

Andrew Davies: I propose that the Assembly adopts the Business Statement.

Andrew Davies: Yr wyf yn cynnig bod y Cynulliad yn derbyn y Datganiad Busnes.

Nick Bourne: This follows on from the Legislation Committee this morning, chaired very ably by the leader of the Liberals, when the issue of legislation being introduced and nodded through by the Assembly when we have not had a chance to debate it was raised. Some legislation that has not found its way to the Legislation Committee will come up tomorrow. However, we were assured by civil servants in a previous meeting that no legislation would come before the Assembly prior to the recess. We were informed in the Legislation Committee this morning that there might be more legislation of this type but the civil servants did not know how much.

Nick Bourne: Mae hyn yn dilyn ymlaen o'r Pwyllgor Deddfwriaeth y bore yma, dan gadeiryddiaeth abl iawn arweinydd y Rhyddfrydwyr, pryd y codwyd y mater o ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno a'i nodio drwodd gan y Cynulliad heb inni gael cyfle i'w thrafod. Bydd rhywfaint o ddeddfwriaeth sydd heb fod gerbron y Pwyllgor Deddfwriaeth yn dod ger ein bron yfory. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd gan weision sifil mewn cyfarfod blaenorol na fyddai unrhyw ddeddfwriaeth yn dod gerbron y Cynulliad cyn y gwyliau. Dywedwyd wrthym yn y Pwyllgor Deddfwriaeth heddiw'r bore y gallai fod mwy o ddeddfwriaeth o'r math yma, ond na wyddai'r gweision sifil faint.

This is an inauspicious start for the Assembly. We are being asked to nod stuff through, indeed, not even nod it through but comment on it in retrospect when we know nothing about it. This is the first time we have seen it on an agenda and even then only at the eleventh hour. This is a serious issue of principle because if the Assembly is to mean anything, it is that in Wales we have a chance to debate these matters before they become law. There is a proper process to go through and it is not the one suggested by the Business Secretary with regard to this legislation. Therefore, I ask him to withdraw that part of the Business Statement, ask us to vote on the rest of it as it stands and come back tomorrow with proposals. Otherwise, I suggest that the Assembly votes against the Business Statement.

Dyma ddechrau gwael i'r Cynulliad. Gofynnir inni nodio pethau drwodd, yn wir, nid hyd yn oed eu nodio drwodd ond rhoi sylwadau arnynt ar ôl eu gweithredu a ninnau'n gwybod dim amdanynt. Dyma'r tro cyntaf inni ei weld ar agenda, a hynny ddim ond ar yr unfed awr ar ddeg. Mae hyn yn fater difrifol o egwyddor oherwydd os yw'r Cynulliad i olygu unrhyw beth, mae'n golygu y cawn ni yng Nghymru gyfle i drafod y materion hyn cyn iddynt fynd yn ddeddf gwlad. Mae proses briodol i'w dilyn, ac nid y broses a awgrymir gan y Trefnydd yw honno yn achos y ddeddfwriaeth yma. Felly, gofynnaf iddo dynnu'r rhan honno o'r Datganiad Busnes yn ôl, gofyn inni bleidleisio ar y gweddill fel y mae'n sefyll, a dod yn ôl yfory gyda chynigion. Fel arall, awgrymaf fod y Cynulliad yn pleidleisio yn erbyn y Datganiad Busnes.

Michael German: It would be helpful if the Assembly knew what we discovered this morning in the Legislation Committee. Two items of business will come before us tomorrow relating to the education governing bodies and the relationship between the new

Michael German: Byddai'n ddefnyddiol petai'r Cynulliad yn gwybod beth a ddarganfuom ni y bore yma yn y Pwyllgor Deddfwriaeth. Bydd dwy eitem o fusnes yn dod ger ein bron yfory ynglŷn â'r cyrff llywodraethu addysg a'r berthynas rhwng yr

local authorities. Two pieces of legislation, for which the primary legislation and the subordinate legislation emanating from them, was absent from the transfer of orders to the Welsh Assembly. We have been bowled a googly. We have been offered two pieces of legislation, the responsibility for which has not, but should have been transferred to the National Assembly for Wales. The lawyers called them oddities in the Committee this morning. Unfortunately, we probably have a large collection of oddities, which need to be put right at some stage. A second Transfer of Orders Act is required to sort them out. The second problem with the two pieces of legislation that are coming before us and the legislation that may come before us in the future is the use of the Standing Order No.22.32, with which all Members are by now very familiar. It requires the item of legislation simply to be put before the Assembly. The Assembly cannot vote upon it—except yes or no—it cannot amend, debate its political content, or scrutinise it.

awdurdodau lleol newydd. Dau ddarn o ddeddfwriaeth, a'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio ohonynt yn absennol o'r trosglwyddiad gorchmynion i'r Cynulliad Cymreig. Bowliwyd gwgli atom. Cynigiwyd dau ddarn o ddeddfwriaeth inni, y dylsai'r cyfrifoldeb amdanynt fod wedi'i drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw hynny wedi digwydd. Dywedodd y cyfreithwyr yn y Pwyllgor y bore yma mai hynodion oeddent. Ysywaeth, mae'n debyg fod gennym gasgliad mawr o hynodion, sydd angen eu cywiro ryw bryd. Mae angen ail Ddeddf Drosglwyddo Gorchmynion i'w cael i drefn. Yr ail broblem gyda'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth sy'n dod ger ein bron a'r ddeddfwriaeth a all ddod ger ein bron yn y dyfodol yw'r defnydd o Reol Sefydlog Rhif 22.32, sy'n gyfarwydd iawn erbyn hyn i'r Aelodau i gyd. Mae'n gofyn am i'r ddeddfwriaeth yn syml gael ei rhoi gerbron y Cynulliad. Ni all y Cynulliad bleidleisio arni—ac eithrio ie neu na—ni all ddiwygio, trafod ei chynnwys gwleidyddol, na'i harchwilio.

The point that I put to the Legislation Committee, which was approved by the manner of the discussion this morning, was that an Executive that wished to get through its business by simply putting before the Assembly legislation which had been passed or was being promoted by a Minister of the Crown in Westminster, could bypass the systems of scrutiny in the National Assembly. In effect, we would only be a rubber stamp. On the one side, the oddities need to be corrected, and on the other, a change to Standing Orders so that this Assembly can properly scrutinise matters, which are in the public domain and of great interest to the people of Wales. The matter of temporary governing bodies is of interest to the people of Wales. It says 'Wales' on top of the legislation. Therefore, it is important that we do not use the Standing Orders to promote a route around scrutiny by this Assembly.

Y pwynt a wneuthum i i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, ac a gymeradwywyd yn ôl modd y drafodaeth y bore yma, oedd y byddai Adran Weithredol a fyddai am fynd drwy ei fusnes yn syml drwy gyflwyno i'r Cynulliad ddeddfwriaeth a basiwyd neu a oedd yn cael ei hyrwyddo gan Weinidog y Goron yn San Steffan, yn gallu mynd heibio'r systemau archwilio yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mewn effaith, dim ond stamp rwber fyddem ni. Ar y naill law, mae angen cywiro'r hynodion, ac ar y llall, mae angen newid y Rheolau Sefydlog fel y gall y Cynulliad hwn archwilio'n iawn faterion sydd yn faterion cyhoeddus ac sydd o ddiddordeb mawr i bobl Cymru. Mae'r cwestiwn o gyrff llywodraethol dros dro o ddiddordeb i bobl Cymru. Mae'n dweud 'Cymru' ar ben y ddeddfwriaeth. Felly, mae'n bwysig nad ydym yn defnyddio'r Rheolau Sefydlog i hyrwyddo llwybr i osgoi archwiliad gan y Cynulliad hwn.

We are not being given all the legislation that we wanted and the route around it is also being circumscribed. In the interim period, we want to ensure that, while the Standing

Nid ydym yn cael pob deddfwriaeth yr oeddem ei heisiau, ac mae'r llwybr o'i chwmpas yn cael ei chyfyngu hefyd. Yn y cyfamser, mae arnom eisiau sicrhau, tra bod

Orders are being put right, we will have an opportunity to scrutinise all the legislation coming before us, particularly matters of such great concern. This is a major issue, which I am sure Andrew Davies will want to address. I shall speak about it again tomorrow but at the moment we need some security that this Assembly will be able to debate the issues, which are of concern to us, and to examine and scrutinise them ourselves.

y Rheolau Sefydlog yn cael eu cywiro, y byddwn yn cael cyfle i archwilio pob deddfwriaeth a ddaw ger ein bron, yn enwedig faterion o ddiddordeb mawr. Mae hwn yn gwestiwn pwysig, ac yr wyf yn siwr y bydd Andrew Davies eisiau edrych arno. Fe siaradaf ar y mater eto yfory ond ar hyn o bryd mae arnom angen rhyw sicrwydd y caiff y Cynulliad hwn fodd i drafod y cwestiynau sydd o bwys inni, ac i'w harchwilio ein hunain.

Gareth Jones: Mae nifer o gam-negeseuon yn dod trwodd ynglŷn â hyn a hoffwn wybod yn union beth sydd ar y gweill. Ar y naill law, yr ydym yn cael y neges fod y ddeddfwriaeth yn dod gerbron ac ni allwn ei thrafod, dim ond ei derbyn neu ei wrthod. Yr ydym yn deall fod yna sefyllfa arall yn bodoli lle mae'r Aelod yn gofyn am drafodaeth i hysbysu pawb yng Nghymru o'r hyn sydd yn digwydd. Gawn ni eglurhad o beth yn union sydd yn digwydd?

Gareth Jones: There are many wrong messages coming through on this and I would like to know exactly what is in the pipeline. On the one hand, we get the message that legislation will come before us, that we cannot discuss it, only accept or reject. We understand that another situation arises where the Member asks for a discussion to inform everyone in Wales of what is going on. Can we have an explanation of what exactly is happening?

John Marek: I support what Nick Bourne has said. His suggestion is sensible. I also support what Mike and Gareth said but I would like to add a further point. The wording of the Business Statement implies that education legislation will be made in the recess. If we have an inclusive Assembly, which is not going to be a rubber stamp, it is incumbent upon the Government to give us an indication of what this education legislation is likely to be. We should not be put in a position where, when we come back in September, all we can do is to vote legislation down and cause a lot of trouble because it has been made and we have no chance to amend it. We should be told what is likely to be done in the Assembly. I do not object to the fact that there could be legislation that has to be made during the recess because of other considerations. However, I make a plea to Andrew: take back the legislation part of the Business Statement, be inclusive, tell us what you have in mind and let us pass it tomorrow.

John Marek: Yr wyf yn cefnogi'r hyn a ddywedodd Nick Bourne. Mae ei awgrym yn un call. Yr wyf hefyd yn cefnogi'r hyn a ddywedodd Mike a Gareth, ond hoffwn ychwanegu pwynt arall. Mae geiriad y Datganiad Busnes yn awgrymu y gwneir deddfwriaeth addysg yn ystod y gwyliau. Os oes gennym Gynulliad cynhwysol, nad yw'n mynd i fod yn stamp rwber, rhaid i'r Llywodraeth roi syniad inni beth fydd y ddeddfwriaeth addysg yma yn ôl pob tebyg. Ni ddylid ein rhoi mewn sefyllfa lle na allwn wneud dim pan ddown yn ôl ym mis Medi ond pleidleisio i wrthod deddfwriaeth ac achosi llawer o drafferth am iddi gael ei llunio heb i ni gael unrhyw gyfle i'w diwygio. Dylid dweud wrthym beth sy'n debygol o gael ei wneud yn y Cynulliad. Nid wyf yn gwrthwynebu'r ffaith y gall fod deddfwriaeth y mae'n rhaid ei gwneud yn ystod y gwyliau oherwydd ystyriaethau eraill. Fodd bynnag, erfyniaf ar Andrew: tynnwch yn ôl y rhan o'r Datganiad Busnes sy'n ymwneud â deddfwriaeth, byddwch yn gynhwysol, dywedwch wrthym beth sydd gennych mewn golwg a gadewch inni ei basio yfory.

Andrew Davies: I am conscious of the

Andrew Davies: Yr wyf yn ymwybodol o

Members' concerns particularly about handling secondary legislation. The legislation we are dealing with was caught as the transfer of powers to the Assembly happened on 1 July. I have explained to the Business Committee, but as the Conservative business manager is now present, I will repeat that we discussed how this was to be handled on several occasions in the Business Committee and I have had discussions with the other party managers on this. It is quite a complex issue.

The two regulations presented tomorrow will be debated in Plenary because they are being passed jointly by Westminster and the Assembly. Therefore, under our Standing Orders they will have to be dealt with in Plenary and the Assembly will then vote yes or no. I shall not go into detail because the regulations will be debated tomorrow. They are being tabled now because we need to pass them so that the governing bodies, which will operate after 1 September, are acting within the law and not ultra vires. On the other legislation, I have given a commitment to business managers in the Business Committee. As Ieuan Wyn Jones knows, I have tabled these items for the autumn. They will go through on the emergency procedure laid down in our Standing Orders. However, in Plenary there will be an opportunity to discuss and debate that legislation. In addition, Members can revoke those items of legislation. Therefore, I must take issue with Nick Bourne on this. We are not trying to nod through legislation on the side. These are parts of legislation that were caught up during the transfer of powers. I accept the concerns that were raised in the Business Committee about the handling of legislation. We are well aware of concerns raised in the Legislation Committee. There may well be a need to amend our Standing Orders to take these issues into account. I give an assurance—as I have on many occasions—that I will bring back proposals on this as will the other party managers. I also give an assurance that we are trying to deal with the particular raft of legislation that was caught up during the transfer. In future, legislation will be dealt with differently.

bryderon yr Aelodau yn enwedig ar fater trafod deddfwriaeth eilaidd. Cafodd y ddeddfwriaeth yr ydym ni'n ei thrafod ei dal pan ddigwyddodd y trosglwyddo grym i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf. Yr wyf wedi esbonio i'r Pwyllgor Busnes, ond gan fod rheolwr busnes y Ceidwadwyr yn bresennol yn awr, fe ailadroddaf ein bod wedi trafod sut y câi hyn ei drin ar sawl achlysur yn y Pwyllgor Busnes ac rwyf wedi cael trafodaethau gyda rheolwyr y pleidiau eraill ar hyn. Mae'n fater eithaf cymhleth.

Bydd y ddau reoliad a gyflwynir yfory yn cael eu trafod yn y sesiwn Lawn am eu bod yn cael eu pasio ar y cyd gan San Steffan a'r Cynulliad. Felly, dan ein Rheolau Sefydlog, bydd yn rhaid delio â nhw mewn cyfarfod Llawn ac wedyn bydd y Cynulliad yn pleidleisio o blaid neu yn erbyn. Nid af i fanylder oherwydd bydd y rheoliadau'n cael eu trafod yfory. Maent yn cael eu cyflwyno yn awr oherwydd bod angen inni eu pasio fel bod y cyrff llywodraethol, fydd yn gweithredu ar ôl 1 Medi, yn gweithredu o fewn y gyfraith ac nid yn *ultra vires*. Ar y ddeddfwriaeth arall, yr wyf wedi rhoi ymrwymiad i'r rheolwyr busnes yn y Pwyllgor Busnes. Fel y gŵyr Ieuan Wyn Jones, yr wyf wedi gosod yr eitemau hyn ar gyfer yr hydref. Fe ânt drwodd ar y drefn frys a amlinellir yn ein Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, yn y sesiwn Lawn bydd cyfle i drafod a dadlau'r ddeddfwriaeth honno. Yn ogystal, bydd Aelodau'n gallu diddymu'r eitemau deddfwriaeth hynny. Felly, rhaid imi fynd i ddadl â Nick Bourne am hyn. Nid ydym yn ceisio nodio deddfwriaeth drwodd yn ddistaw bach. Rhannau o ddeddfwriaeth yw'r rhain a gafodd eu dal yn ystod y trosglwyddiad grym. Yr wyf yn derbyn y pryderon a godwyd yn y Pwyllgor Busnes ynghylch ymdrin â deddfwriaeth. Yr ydym yn llwyr ymwybodol o bryderon a godwyd yn y Pwyllgor Deddfwriaeth. Fe all yn wir fod angen i ddiwygio'n Rheolau Sefydlog i gymryd y materion hyn i ystyriaeth. Yr wyf yn rhoi sicrwydd—fel y gwneuthum ar sawl achlysur—y dof fi, a rheolwyr y pleidiau eraill, â chynigion yn ôl ar hyn. Yr wyf hefyd yn rhoi sicrwydd ein bod yn ceisio delio â'r dafell arbennig o ddeddfwriaeth a gafodd ei dal yn ystod y trosglwyddiad. Yn y dyfodol,

ymdrinnir â deddfwriaeth mewn modd gwahanol.

2:49 p.m.

Jocelyn Davies: I think you are wrong. As the Chair of the Legislation Committee said earlier, this piece of legislation is not caught up by the transfer of functions order. If there is ever an amendment to this statutory instrument, it will have to go through the same route.

Jocelyn Davies: Yr wyf fi'n meddwl eich bod yn cyfeiliorni. Fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth gynnau, nid yw'r darn deddfwriaeth hwn wedi'i ddal gan y gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau. Os bydd gwelliant unrhyw bryd i'r offeryn statudol hwn, bydd yn rhaid iddo fynd drwy'r un llwybr.

Andrew Davies: I can only go on the advice I have from officials. I give the Assembly an assurance that we are not attempting to nod through legislation. We have taken on board Members' concerns about the handling of secondary legislation. This is a crucial issue that we will need to look at in future and if necessary, amend our Standing Orders, as discussed in this morning's Business Committee.

Andrew Davies: Ni allaf i ond dilyn y cyngor a gaf oddi wrth swyddogion. Rhoddaf sicrwydd i'r Cynulliad nad ydym yn ceisio nodio deddfwriaeth drwodd. Yr ydym wedi nodi pryderon Aelodau ynghylch ymdrin â deddfwriaeth eilaidd. Mae hwn yn gwestiwn allweddol y bydd angen inni edrych arno yn y dyfodol ac, os bydd angen, diwygio'n Rheolau Sefydlog, fel a drafodwyd yn y Pwyllgor Busnes y bore yma.

A vote was held by show of hands.
Business Statement adopted.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y Datganiad Busnes.

Cynnig Trefniadol i Drafod Adeilad Newydd y Cynulliad
Procedural Motion to Debate the New Assembly Building

The Presiding Officer: The Business Secretary will propose a procedural motion under Standing Orders Nos. 6.15 and 6.16. Under the Standing Orders, I can permit one person to speak for it and one to speak against before a vote is held. If the Assembly agrees, there will be a debate on the substantive motion.

Y Llywydd: Bydd y Trefnydd yn cynnig cynnig trefniadol dan Reolau Sefydlog Rhifau 6.15 a 6.16. Dan y Rheolau Sefydlog, gallaf ganiatáu i un person siarad o blaid ac un i siarad yn erbyn y cynnig cyn cynnal pleidlais. Os cytuna'r Cynulliad, ceir dadl ar y cynnig gwreiddiol.

Andrew Davies: I propose:

Andrew Davies: Yr wyf yn cynnig:

that the motion to debate the new Assembly building, reference M71V, is moved today under Standing Order No. 6.16.

y caiff y cynnig i drafod adeilad newydd y Cynulliad, cyfeirnod M71V, ei gynnig heddiw dan Reol Sefydlog Rhif 6.16.

I would like to explain why we need this procedural motion. The substantive motion was tabled without any day being named, so we had to table this procedural motion to deal with the matter today.

Hoffwn egluro pam y mae angen y cynnig trefniadol hwn arnom. Cafodd y cynnig gwreiddiol ei gyflwyno heb enwi dydd, felly bu'n rhaid inni roi'r cynnig trefniadol hwn gerbron i ddelio â'r mater heddiw.

Nick Bourne: My main complaint is that these things are always sprung on us at the

Nick Bourne: Fy mhrif gwyn yw bod y pethau hyn bob amser yn cael eu taflu atom

last moment. To individual Assembly Members, it seems as if the Executive is trammelling their rights, pushing things through at the last minute without proper notice. We are not getting notification of business on the internet or the intranet. This view is also held outside. I accept that it is not a conspiracy, but Members are only discovering things at the last minute. We must do proper research to enable us to speak in these debates. We do not know what business is being brought forward from day to day, and we have not heard the details of tomorrow's agenda. There is a general malaise. This is not working as it should. I would welcome a statement from the Business Secretary about how we can get this right as all Members are suffering from the way business is being conducted.

ar y funud olaf. I Aelodau unigol y Cynulliad, mae'n ymddangos fel pe bai'r Adran Weithredol yn llesteirio'u hawliau, yn gwthio pethau drwodd ar y funud olaf heb rybudd priodol. Nid ydym yn cael hysbysiadau am fusnes ar y rhyngrwyd na'r fewnrwyd. Ceir y farn yma y tu allan hefyd. Yr wyf yn derbyn nad oes cynllwyn yma, ond dim ond ar y funud olaf y mae Aelodau'n darganfod pethau. Mae'n rhaid inni wneud ymchwil iawn i allu siarad yn y dadleuon hyn. Ni wyddom pa fusnes a ddygir ymlaen o ddydd i ddydd, ac nid ydym wedi clywed y manylion am agenda yfory. Mae yma chwithdod cyffredinol. Nid yw hyn yn gweithio fel y dylai. Byddwn yn croesawu datganiad gan y Trefnydd ynghylch sut y gallwn gael hyn yn iawn gan fod pob Aelod yn dioddef oherwydd y modd y cynhelir busnes.

The Presiding Officer: I do not encourage the Business Secretary to make such a statement now. We shall vote on the procedural motion.

Y Llywydd: Nid wyf yn annog y Trefnydd i wneud datganiad o'r fath yn awr. Fe gymerwn bleidlais ar y cynnig trefniadol.

A vote was held by show of hands.
Motion adopted.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.

Adeilad Newydd y Cynulliad
New Assembly Building

The First Secretary: I propose that

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn cynnig bod

the Assembly agrees that the Richard Rogers Partnership, whose concept design was selected by the Design Competition Assessment Panel, should be instructed to continue with the development of the New Assembly Building Project within the cost parameters that have been established and that the First Secretary as Chair of the Policy Steering Group, which will comprise the Presiding Officer, the Permanent Secretary and party Leaders, reports back regularly to the Assembly on the project's progress.

y Cynulliad yn cytuno y dylid cyfarwyddo Partneriaeth Richard Rogers, y dewiswyd ei gynllun gan Banel Asesu'r Gystadleuaeth Gynllunio, i barhau â datblygiad Prosiect Adeilad Newydd y Cynulliad o fewn y paramedrau cost a sefydlwyd a bod y Prif Ysgrifennydd fel Cadeirydd y Grŵp Llywio Polisi, a fydd yn cynnwys y Llywydd, yr Ysgrifennydd Parhaol ac Arweinwyr y Pleidiau, yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn rheolaidd ar gynnydd y prosiect.

I was pleased that so many Assembly Members took the opportunity to listen to the Richard Rogers Partnership presentation last week about the new Assembly building. Party leaders heard the presentation earlier that day. Lord Rogers is a world-renowned architect and has taken a personal interest in this scheme. I was glad he was able to be here on Tuesday, though his talk to Members was delayed by the university degree ceremony in the afternoon, on which I am sure we all congratulate him.

Yr oeddwn yn falch fod cynifer o Aelodau'r Cynulliad wedi cymryd y cyfle i wrando ar gyflwyniad Partneriaeth Richard Rogers yr wythnos ddiwethaf ynglŷn ag adeilad newydd y Cynulliad. Clywodd arweinwyr y pleidiau y cyflwyniad yn gynharach y diwrnod hwnnw. Mae'r Arglwydd Rogers yn bensaer byd-enwog ac mae wedi cymryd diddordeb personol yn y cynllun hwn. Yr oeddwn yn falch y gallodd ddod yma ddydd Mawrth, er y cafodd ei sgwrs â'r Aelodau ei dal yn ôl gan seremoni graddau'r brifysgol yn y prynhawn, rhywbeth yr wyf yn siwr y byddwn oll am ei longyfarch arno.

It is time for the Assembly to decide whether to proceed with the construction of a new, modern and forward-looking Assembly building adjacent to this building. For the benefit of those who were unable to attend the presentation and members of the public who visit the Assembly, the model of the proposed design is in the *Neuadd*.

Mae'n bryd i'r Cynulliad benderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynllun i godi adeilad newydd, modern ar gyfer y Cynulliad, un a fydd yn edrych i'r dyfodol, a hynny nesaf at yr adeilad hwn. Er mwyn y rhai na allodd ddod i'r cyflwyniad ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r Cynulliad, mae model o'r cynllun arfaethedig yn y Neuadd.

We must consider three buildings together for the Assembly to function effectively. This building is one of them and will continue to be an important part of the Assembly, though the meeting place for Plenary sessions will relocate to the new building. The others are the new Assembly building with the facilities we discussed last week, and the Pierhead building. I do not understand why there is doubt about the previous intention—widely welcomed on all sides—that the Pierhead building should be used for meetings, small conferences and exhibitions for visitors to the Assembly, particularly school groups.

Rhaid inni ystyried tri adeilad gyda'i gilydd i'r Cynulliad weithio'n effeithiol. Mae'r adeilad hwn yn un ohonynt, a bydd yn dal i fod yn rhan bwysig o'r Cynulliad, er y bydd man cyfarfod y sesiynau Llawn yn symud i'r adeilad newydd. Y lleill yw adeilad newydd y Cynulliad, gyda'r cyfleusterau a drafodwyd yr wythnos ddiwethaf, ac adeilad Pierhead. Nid wyf yn deall pam y mae amheuaeth ynglŷn â'r bwriad blaenorol—a groesawyd yn gyffredinol o bob ochr—y dylid defnyddio adeilad Pierhead ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau bychain ac arddangosfeydd i ymwelwyr â'r Cynulliad, yn enwedig grwpiau ysgol.

Those of us who have served at Westminster will know that there is a major gap in provision for school groups' visits. If they are fortunate enough, they can go into a Committee room or into the Chamber when debates are taking place, but there is nowhere for them to learn more about Parliament or feel fully engaged. This goes back to the earlier debate about the importance of engaging young people and giving them an opportunity. It was always intended that the Pierhead building would fulfil that function,

Bydd y rheini ohonom sydd wedi gwasanaethu yn San Steffan yn gwybod fod bwlch mawr yn y ddarpariaeth ar gyfer ymweliadau grwpiau ysgol. Os ydynt yn ddigon ffodus, gallant fynd i mewn i ystafell Bwyllgor neu i'r Siambr pan fydd dadl yn digwydd, ond nid oes unlle iddynt ddysgu mwy am y Senedd na theimlo'u bod wedi'u cynnwys yn llawn. Mae hyn yn mynd yn ôl at y ddadl gynharach am bwysigrwydd cynnwys pobl ifanc a rhoi cyfle iddynt. Bwriadwyd o'r cychwyn cyntaf i adeilad Pierhead gyflawni'r

since I decided that it would be wrong for the Executive to use the Pierhead building. The Executive should be in this building so that we and our offices, as an Assembly family, are in the same building.

swyddogaeth honno, gan y penderfynais na ddylai'r Adran Weithredol ddefnyddio adeilad Pierhead. Dylai'r Adran Weithredol fod yn yr adeilad hwn fel ein bod ni a'n swyddfeydd, fel rhan o deulu'r Cynulliad, yn yr un adeilad.

It is widely accepted that from day one, we have been provided with good quality accommodation here at Crickhowell House. It has enabled us to proceed with business immediately. The facilities in this Chamber were never intended to be anything other than temporary. It will not meet the Assembly's long-term needs. After a few weeks, Assembly Members recognised the worth of this building and this Chamber as a temporary measure. It has its disadvantages, for example the pillars are an obstruction, there is no scope for expansion and the number of members of the public able to attend Plenary sessions is limited.

Derbynnir yn gyffredinol ein bod wedi cael lle o ansawdd da o'r diwrnod cyntaf yma yn Nhŷ Crucywel. Mae hyn wedi'n galluogi i fynd ati'n syth i ddelio â'n busnes. Ni fwriadwyd erioed i'r cyfleusterau yn y Siambr hon fod yn ddim mwy na rhai dros-dro. Ni fydd yn ateb anghenion tymor-hir y Cynulliad. Ar ôl ychydig o wythnosau, sylweddolodd Aelodau'r Cynulliad werth yr adeilad hwn a'r Siambr hon fel cam dros-dro. Mae yma anfanteision, er enghraifft mae'r pileri'n rhwystr, nid oes lle i ehangu ac mae cyfyngiad ar y nifer o aelodau'r cyhoedd a all ddod i mewn i sesiynau Llawn.

Dafydd Wigley: Yr ydym i gyd yn ymwybodol iawn o'r amgylchiadau gwaith anodd y mae ein staff wedi bod yn gweithio ynddynt. Yr wyf yn gwybod fod cynlluniau i'w gwella, ac i osod rhyw system dymheru dderbyniol. A all Alun roi sicrwydd y bydd hynny wedi'i wneud cyn yr haf nesaf fel nad oes rhaid i ni, ac yn arbennig ein staff, ddioddef fel yr ydym wedi gwneud hyd yn hyn?

Dafydd Wigley: We are all aware of the difficult working environment in which our staff have been working. I know that there are plans to improve this, and to bring in some sort of acceptable air conditioning system. Can Alun give an assurance that this will be in place before next summer, so that we and especially our staff do not have to suffer as we have done until now?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hynny'n bwynt hollol deg. Yr wyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ystyried y sefyllfa a'r gwaith ar gyfer rhoi gwell cyfleusterau yn yr adeilad. Yr wyf hefyd wedi gofyn am yr amserlen er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed y gofynna Dafydd amdano. Ysgrifennaf at Dafydd i gadarnhau'r wybodaeth hon ac fe roddaf gopi yn y Llyfrgell. Gobeithiwn allu cyrraedd y targed hwnnw.

The First Secretary: That is a fair point. I have asked the Permanent Secretary to consider the situation and the work to put better facilities in place in the building. I have also asked for the timetable to ensure that we reach the target that Dafydd is asking for. I will write to Dafydd to confirm this information and I will place a copy in the Library. I hope that we will be able to meet that deadline.

2:59 p.m.

David Davies: The First Secretary mentioned that there was a problem with the number of people who could sit in the public gallery. Is he stating that if the new building goes ahead, the public gallery there will be

David Davies: Soniodd y Prif Ysgrifennydd fod yna broblem gyda'r nifer o bobl a allai eistedd yn yr oriel gyhoeddus. A ydyw'n dweud os aiff yr adeilad newydd yn ei flaen, y bydd yr oriel gyhoeddus yn hwnnw'n fwy

larger than the one we currently have? That is not the impression I had.

The First Secretary: Yes, it will be larger. The number of people who can sit in the public gallery at the moment is about 50 and the original intention, looking at the design, was around 100, double the number. It was one of the topics discussed in the helpful session last week, where Members across the parties generally felt that that would be insufficient. This is being considered by the architects. There is sufficient flexibility for them to be able to aim at a higher number, which I believe is what everyone wants to see.

As I have indicated, there are drawbacks in the present temporary Chamber. We now have the opportunity to develop and deliver a prestigious Chamber with public facilities befitting the twenty-first century, which meets the aspirations of the people of Wales. It will be a Chamber of which we can be proud and one that is recognisable around the world. I think everybody recognises that identity, of a capital city and a country, is important. This is an opportunity for us to make sure that we develop that identity. In particular we need a Chamber the design of which lends itself to proper democratic debate, has more open space and unrestricted views and has flexibility for the future. I am keen to ensure that we provide better public facilities, which Members generally aspire to see. I am also committed to the building being delivered for the estimated cost of £12.5 million, which I believe is reasonable and represents value for money. If we decide today to proceed with the construction of this landmark building, and I hope we will, it is my intention to establish and chair a new Assembly building steering group with the three other party leaders, the Presiding Officer and the Permanent Secretary as members.

Helen Mary Jones: I think your inability to see me while I was trying to intervene reinforces the points you made about the nature of the Chamber. Due to the timing of the presentation about public facilities I was unable, as were some other Members, to be

na'r un sydd gennym ar hyn o bryd? Nid dyna'r argraff a gefais i.

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd, fe fydd yn fwy. Tua 50 o bobl sy'n gallu eistedd yn yr oriel gyhoeddus ar hyn o bryd, a'r bwriad gwreiddiol, o edrych ar y dyluniad, oedd tua 100, sef dwbl y nifer. Yr oedd hwn yn un o'r pynciau a drafodwyd yn y sesiwn ddefnyddiol yr wythnos ddiwethaf, lle mynegwyd teimlad gan Aelodau ar draws y pleidiau yn gyffredinol na fyddai hynny'n ddigonol. Mae'r penseiri'n ystyried hyn. Mae digon o hyblygrwydd iddynt allu anelu at nifer uwch, sef yr hyn, gredaf i, y mae pawb am ei weld.

Fel y dywedais, y mae anfanteision yn y Siambr dros-dro bresennol. Yn awr mae gennym y cyfle i ddatblygu a chyflwyno Siambr urddasol gyda chyfleusterau cyhoeddus sy'n gweddu i'r unfed ganrif ar hugain, sy'n cwrdd â dyheadau pobl Cymru. Bydd yn Siambr y gallwn fod yn falch ohoni ac yn un a adnabyddir dros y byd. Yr wyf yn credu fod pawb yn cydnabod fod hunaniaeth, i brifddinas ac i wlad, yn bwysig. Dyma gyfle i ni wneud yn siwr ein bod yn datblygu'r hunaniaeth honno. Yn arbennig, mae arnom angen Siambr sydd â'i chynllun yn hyrwyddo dadl ddemocrataidd go iawn, sydd â mwy o le agored a gweledfannau di-rwystr ac sy'n meddu ar hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol. Yr wyf yn awyddus i sicrhau ein bod yn darparu gwell cyfleusterau i'r cyhoedd, sy'n ddyhead cyffredinol gan Aelodau. Yr wyf hefyd wedi ymrwymo i'r adeilad gael ei gyflwyno am gost o oddeutu £12.5 miliwn sydd, mi gredaf, yn rhesymol ac yn cynrychioli gwerth am arian. Os penderfynwn heddiw fynd ymlaen i godi'r adeilad pwysig hwn, a gobeithio y gwnawn, fy mwriad i yw sefydlu a chadeirio grŵp llywio newydd i drafod adeilad newydd y Cynulliad gydag arweinwyr y tair plaid arall, y Llywydd a'r Ysgrifennydd Parhaol yn aelodau.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn meddwl bod eich anallu i'm gweld i tra'r oeddwn yn ceisio torri i mewn yn atgyfnerthu'r pwyntiau a wnaethoch am natur y Siambr. Oherwydd amseriad y cyflwyniad ar gyfleusterau i'r cyhoedd, yr oeddwn i, fel rhai Aelodau eraill,

present. Can you tell us what proposals there are to make it possible for members of the public to bring their children with them and leave them somewhere in the Assembly? What proposals are there for possible facilities for Members' children and, more importantly, will there be facilities for staff members' children?

yn methu bod yn bresennol. A allwch chi ddweud wrthym pa gynigion sydd yna i'w gwneud yn bosib i aelodau'r cyhoedd ddod â'u plant gyda nhw a'u gadael yn rhywle yn y Cynulliad? Pa gynigion sydd yna ar gyfer cyfleusterau posib i blant Aelodau ac, yn bwysicach, a fydd cyfleusterau ar gyfer plant aelodau staff?

The First Secretary: It is a knock-on issue. In this building we have facilities that are fully occupied. The new building will be a small and efficient building. We need to look at the facilities across the three buildings. In these, or in facilities shared with other users in this area, we need to provide the sort of facilities that Helen Mary is talking about and which are outside our scope at present. Today I am concentrating on the provision in the new Assembly building. That has a knock-on effect in releasing facilities here. Facilities like a crèche, which Members want to see, could be provided one way or another in that combined area.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n fater lle bydd un peth yn effeithio ar y llall. Yn yr adeilad hwn mae gennym gyfleusterau sydd wedi'u defnyddio'n llawn. Bydd yr adeilad newydd yn un bach ac effeithlon. Mae angen inni edrych ar y cyfleusterau ar draws y tri adeilad. Yn y rhain, neu mewn cyfleusterau a rennir gyda defnyddwyr eraill yn yr ardal hon, mae angen inni ddarparu'r math o gyfleusterau y mae Helen Mary'n sôn amdanynt ac sydd y tu allan i'n gallu ar hyn o bryd. Heddiw yr wyf yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth yn adeilad newydd y Cynulliad. Mae hynny'n cael effaith yn ei dro drwy ryddhau cyfleusterau yma. Gallai cyfleusterau fel meithrinfa, y mae Aelodau eisiau eu gweld, gael eu darparu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn y cyfuniad yma o lefydd.

Helen Mary Jones: Could I ask for a timescale on when those might be debated? I am being pressed hard, as some other Members are, by women's voluntary organisations in Wales concerned about the present situation. I am sure they are not alone. It would be helpful for me to be able to tell people when we will have some idea of what the proposals are and how they will be consulted upon.

Helen Mary Jones: A gaf i ofyn am ryw syniad o ba bryd y gallai'r rhain gael eu trafod? Yr wyf fi, fel rhai Aelodau eraill, yn cael fy mhwyso'n galed gan gyrff menywod gwirfoddol yng Nghymru sy'n bryderus am y sefyllfa bresennol. Yr wyf yn siwr nad nhw yw'r unig rai. Byddai'n ddefnyddiol imi allu dweud wrth bobl pa bryd y bydd gennym ryw syniad o beth yw'r cynlluniau a sut y bwriedir ymgynghori â nhw.

The First Secretary: We have to debate and develop the plans for the new building itself and then look at the areas released as a result and debate the use of those spaces. That is the process of design development that needs to go on during the rest of this year. We are talking about roughly a two year period for the provision of the buildings. Therefore the actual provision is that much further down the line. As you will be aware, the plans we have here are ones that I inherited. I understand why they are as they are because officials have done their best to make the

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n rhaid inni drafod a datblygu'r cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd ei hun ac wedyn edrych ar y mannau a ryddhawyd o ganlyniad a thrafod y defnydd o'r mannau hynny. Dyna'r broses ddatblygu dyluniad sydd angen digwydd yn ystod gweddill y flwyddyn yma. Yr ydym yn sôn yn fras am gyfnod o ryw ddwy flynedd ar gyfer darparu'r adeiladau. Felly mae'r ddarpariaeth ei hun gymaint â hynny ymhellach i lawr y lein. Fel y byddwch yn gwybod, cynlluniau a etifeddais yw'r rhai sydd gennym yma. Yr wyf yn deall pam y

best, most immediate use of facilities available in this building.

maent fel y maent oherwydd mae swyddogion wedi gwneud eu gorau i wneud y defnydd gorau, mwyaf di-oed o'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr adeilad hwn.

Your point indicates that you cannot do everything in the facilities we have at the moment. In pursuing the design of the new building, we should arrange regular briefings so that all Assembly Members are well informed and able to contribute and comment. Questions and suggestions like yours can become part of an iterative process of developing the new building and refining the use of this building and the opportunities that arise as a result of that development. The discussion proved very helpful. One or two Members made the point during last week's discussion about providing full facilities for the Assembly, its Members and the general public. That is certainly an issue that we all accept has to be dealt with as we develop plans for this integrated new building plus two older buildings.

Yr ydych wedi nodi na allwch wneud popeth yn y cyfleusterau sydd gennym ar hyn o bryd. Wrth edrych ar gynllun yr adeilad newydd, dylem drefnu cyfarfodydd briffio rheolaidd fel bod holl Aelodau'r Cynulliad yn cael gwybodaeth lawn ac yn gallu cyfrannu a rhoi sylwadau. Gall cwestiynau ac awgrymiadau fel eich rhai chi ddod yn rhan o broses ailadroddol o ddatblygu'r adeilad newydd a mireinio defnydd yr adeilad hwn a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgîl y datblygiad hwnnw. Profodd y drafodaeth yn ddefnyddiol iawn. Codwyd y pwynt gan un neu ddau o Aelodau ynglŷn â darparu cyfleusterau llawn i'r Cynulliad, ei Aelodau a'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn sicr mae hyn yn fater y mae pawb ohonom yn derbyn sydd angen sylw wrth inni ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd integredig hwn ynghyd â dau adeilad hŷn.

Rod Richards: What options are being considered by the Government for the disposal of Crickhowell House? If the Government had opted to take City Hall and not build a new building at all, how was Crickhowell House to be disposed of?

Rod Richards: Pa opsiynau sy'n cael eu hystyried gan y Llywodraeth ar gyfer gwerthu Tŷ Crucywel? Petai'r Llywodraeth wedi dewis cymryd Neuadd y Ddinas a pheidio ag adeiladu adeilad newydd o gwbl, sut y bwriedid gwerthu Tŷ Crucywel?

The First Secretary: Looking back to the point where Crickhowell House became surplus to previous use, I might look to Rod to delve into his previous ministerial files to answer that. The decision to come to Crickhowell House was taken before I became Secretary of State so I do not know the answer and I am not sure whether it is very relevant to today's debate.

Y Prif Ysgrifennydd: I edrych yn ôl at y pwynt lle daeth Tŷ Crucywel yn weddill i ofynion o'r blaen, gallwn ddisgwyl i Rod chwilio drwy ei hen ffeiliau gweinidogaethol am yr ateb i hynny. Yr oedd y penderfyniad i ddod i Dŷ Crucywel wedi'i wneud cyn i mi ddod yn Ysgrifennydd Gwladol, felly nid wyf yn gwybod yr ateb, ac nid wyf yn siwr a yw'n berthnasol iawn i'n trafodaeth heddiw.

The central point I was making is that, if we decide to proceed with the construction of this landmark building, and I hope we will, the intention is to have the new Assembly building steering group with the three other party leaders, the Presiding Officer and the Permanent Secretary as members. Also we would have a new Assembly Building—
[*Interruption*.]

Y pwynt canolog yr oeddwn yn ei wneud oedd, os penderfynwn y dylid mynd ati i godi'r adeilad pwysig hwn, a gobeithio y gwnawn ni, y bwriad yw cael grŵp llywio adeilad newydd y Cynulliad gydag arweinwyr y tair plaid arall, y Llywydd a'r Ysgrifennydd Parhaol yn aelodau. Hefyd byddai gennym Adeilad Cynulliad newydd—
[*Torri ar draws.*]

Owen John Thomas: Will you confirm that

Owen John Thomas: A wnewch chi

in assessing your costs of City Hall, a figure of over £13 million was included for new radiators, pipes, heating, generators and pumps? How on earth was this figure computed and will he agree that if a figure of only £10 million would be more suitable for this, would it be a lot cheaper than the Bay option?

gadarnhau, pan aseswyd eich costau am Neuadd y Ddinas, y cynhwyswyd ffigwr o dros £13 miliwn ar gyfer rheiddiaduron, pibelli, generaduron a phympiau newydd? Sut ar y ddaear y cyfrifwyd y ffigwr hwn, ac a wnaiff gytuno pe byddai ffigwr o ddim ond £10 miliwn yn fwy addas ar gyfer hyn, y byddai'n llawer rhatach nag opsiwn y Bae?

The First Secretary: That is a misapprehension as that figure included roof costs and windows. It is an issue that has been raised with me by another Member. I am happy to clarify any of those historic pieces of information, which predate my occupation of either the office of Secretary of State or of First Secretary. The comparison of costs, and it is really delving into history, shows that the Cardiff Bay option is not as expensive as the City Hall option. I understand that some Members want to crawl over those figures, and it is right that they should be able to do so. I would be happy to answer specific questions but I am not happy to pretend that I am a qualified architect or quantity surveyor and give instant answers to the details about specific lines. I indicated the arrangements we would put in place to keep the steering group fully informed about proposals for the details of the development of the building. I underlined a few moments ago the arrangements that would be made for detailed briefing of all Members. As was obvious last week, it is of value to involve all Members because all Members will use those facilities and it is sensible to have an iterative process of discussion about the design.

Y Prif Ysgrifennydd: Camargraff yw hynny gan fod y ffigwr hwnnw'n cynnwys costau'r to a'r ffenestri. Mae'n fater a godwyd gyda mi gan Aelod arall. Yr wyf yn hapus i egluro unrhyw un o'r darnau gwybodaeth hanesyddol hynny, sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn imi lenwi swydd Ysgrifennydd Gwladol na Phrif Ysgrifennydd. Mae cymhariaeth o'r costau, a thurio'n ôl i hanes yw hyn mewn gwirionedd, yn dangos nad yw opsiwn Bae Caerdydd cyn ddruted ag opsiwn Neuadd y Ddinas. Yr wyf yn deall fod rhai Aelodau eisiau pori dros y ffigyrau hynny, ac mae'n iawn iddynt allu gwneud hynny. Byddwn yn hapus i ateb cwestiynau penodol ond nid wyf yn hapus i gymryd arnaf fy mod yn bensaer neu faintfesurwr cymwysedig a rhoi atebion yn syth i'r manylion am linellau penodol. Fe nodais y trefniadau y byddem yn eu sefydlu i roi gwybodaeth lawn i'r grŵp llywio am gynigion ar gyfer manylion datblygiad yr adeilad. Fe danlinellais ychydig funudau yn ôl pa drefniadau a wneid i roi gwybodaeth fanwl i'r holl Aelodau. Fel oedd yn amlwg yr wythnos ddiwethaf, mae'n werthfawr rhoi llais i'r Aelodau i gyd oherwydd bydd pob un ohonynt yn defnyddio'r cyfleusterau hynny ac mae'n beth call cael proses ailadroddus o drafodaethau ar y dyluniad.

Peter Black: I welcome the commitment to including as many Members as possible in the building's design. In the spirit of inclusiveness, can I see addresses when we come to look at the design and the access to this building for people with disabilities? I am sure that you will come to that in due course. As the present proposals stand, there is in effect a 70-foot ramp to the entrance on the first floor of this building. It would be more acceptable if the entrance were on the ground floor because whereas a wheelchair may be able to negotiate the ramp, someone using a stick or other walking aids would

Peter Black: Yr wyf yn croesawu'r ymrwymiad i gynnwys cynifer o Aelodau ag sy'n bosib yn nyluniad yr adeilad. Yn yr ysbryd o fod yn gynhwysol, a gaf i weld anerchiadau pan ddeuwn i edrych ar y dyluniad a'r mynediad i'r adeilad i bobl ag anableddau? Yr wyf yn siwr y deuwch at hynny maes o law. Fel y saif y cynigion presennol, y mae, mewn effaith, ramp 70-troedfedd at y fynedfa ar lawr cyntaf yr adeilad. Byddai'n fwy derbyniol petai'r fynedfa ar y llawr gwaelod oherwydd er y gall cadair olwyn fynd i fyny ac i lawr y ramp, byddai rhywun sy'n defnyddio ffon

find it very difficult indeed.

neu gymorth arall i gerdded yn ei chael hi'n anodd dros ben.

3:09 p.m.

The First Secretary: I have a deep suspicion that Peter has a mirror over my shoulder so that he knows what my next sentence is. If I had continued instead of allowing him to intervene, I would have answered his question before he asked it.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn amau'n gryf fod gan Peter ddrych dros fy ysgwydd fel ei fod yn gwybod beth yw fy mrawddeg nesaf. Petawn i wedi mynd ymlaen yn lle gadael iddo ymyrryd, byddwn wedi ateb ei gwestiwn cyn iddo ei ofyn.

There is a need to discuss issues about the building with a number of interested groups. I have made it clear—as I did with several building projects in the past—that the interests of disabled people must be considered from the beginning and not as an afterthought. That applies to the interests of people with visual impairment and other disabilities. I take Peter's point about the different interests of people who use wheelchairs or are infirm and need to depend on sticks and other aids. That has to be considered early in the project.

Mae angen trafod materion ynglŷn â'r adeilad gyda nifer o grwpiau sydd â diddordeb. Yr wyf wedi ei gwneud yn glir—fel y gwneuthum gydag amryw o brosiectau adeiladu yn y gorffennol—fod yn rhaid ystyried buddiannau pobl anabl o'r cychwyn ac nid fel ôl-ystyriaeth. Mae hynny'n wir am fuddiannau pobl â nam ar eu golwg ac anableddau eraill. Yr wyf yn derbyn pwynt Peter am wahanol fuddiannau pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu sy'n fusgrell ac yn gorfod dibynnu ar ffyn a chymhorthion eraill. Rhaid ystyried hynny yn gynnar yn y prosiect.

When one normally goes through a building process, one gets a completed design, which the public sees in its completed form. The result of a competition of this sort is a building design process that happens in the open. It is similar to a goldfish bowl. After a few weeks, we all know what that feels like.

Pan eir drwy broses adeiladu fel arfer, ceir dyluniad terfynol, a bydd y cyhoedd yn ei weld yn ei ffurf orffenedig. Canlyniad cystadleuaeth o'r math yma yw proses ddylunio adeilad sy'n digwydd yn yr agored. Mae'n debyg i fowlen pysgodyn aur. Ar ôl ychydig wythnosau, yr ydym i gyd yn gwybod sut deimlad yw hwnnw.

I assure Members that the architects have spent time looking at the way in which access to the building can be achieved, in order to discuss issues with Disability Wales and other groups before the design is finalised. The architects got a clear message from last week's meeting that this is not merely my priority but one that is shared by the entire Assembly.

Hoffwn sicrhau'r Aelodau fod y penseiri wedi treulio amser yn edrych ar sut y gellir sicrhau mynediad i'r adeilad, er mwyn trafod materion gyda grŵp Anabledd Cymru a grwpiau eraill cyn setlo ar y cynllun terfynol. Cafodd y penseiri neges glir o'n cyfarfod yr wythnos ddiwethaf nad fy mlaenoriaeth i yn unig yw hyn, ond un a rennir gan y Cynulliad cyfan.

Jenny Randerson: The issue is about disability and design. As Members may know, I am partially deaf and have a great deal of trouble with this Chamber's design because Members sit across from each other. I am probably not alone in that. I manage to understand the First Secretary as he always

Jenny Randerson: Cwestiwn o anabledd a chynllun yw hwn. Fel y gŵyr yr Aelodau efallai, yr wyf yn drwm fy nghlyw ac yn cael cryn drafferth gyda chynllun y Siambr hon am fod Aelodau'n eistedd ar draws yr ystafell i'w gilydd. Mae'n debyg nad fi yw'r unig un yn hyn o beth. Yr wyf yn llwyddo i

speaks from the front and I can read his lips; the same is true of the Presiding Officer. However, because she is behind a pillar, I have trouble with Helen Mary.

ddeall y Prif Ysgrifennydd am ei fod ef bob amser yn siarad o'r blaen a gallaf ddarllen ei wefusau; mae'r un peth yn wir am y Llywydd. Fodd bynnag, am ei bod hi'r tu ôl i biler, yr wyf yn cael trafferth gyda Helen Mary.

Dafydd Wigley: Don't we all.

Dafydd Wigley: Nid chi yw'r unig un.

Jenny Randerson: It is politically desirable to have a circular or almost circular Chamber. It seemed to me that that was planned in the presentation last week. I would not like us to lose sight of the arrangement that makes life easier for people with hearing disabilities.

Jenny Randerson: Mae'n wleidyddol ddymunol cael Siambr sy'n gylch neu bron yn gylch. Yr oedd yn ymddangos i mi mai dyna oedd y cynllun yn y cyflwyniad yr wythnos ddiwethaf. Ni hoffwn inni golli golwg ar y trefniant sy'n gwneud bywyd yn haws i bobl ag anableddau clywed.

The First Secretary: It is not appropriate for me to put Dafydd Wigley's comment on the record because both of us will be in trouble with Helen Mary.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid yw'n briodol imi gofnodi sylw Dafydd Wigley oherwydd fe fyddwn ni'n dau mewn helynt gyda Helen Mary.

After a short period, I am glad that we turned the *sêt fawr*—the elders' pew—around from facing inwards, as it would have been confrontational. This is not a comfortable Chamber to be in. It does the job but it is not perfect. The atmosphere of a debate is important, not only for someone who has a hearing disability but in terms of eye contact. We are people who debate with other people. The eye contact in the House of Commons unfortunately is confrontational but it is possible to design a Chamber that has different characteristics.

Ar ôl cyfnod byr, yr wyf yn falch inni droi'r 'sêt fawr' o amgylch o fod yn wynebu tuag i mewn, gan y byddai wedi creu teimlad o wrthdaro. Nid yw hon yn Siambr gyfforddus i fod ynddi. Mae'n cyflawni'r diben ond nid yw'n berffaith. Mae awyrgylch dadl yn bwysig, nid yn unig i rywun sy'n drwm ei glyw ond o safbwynt cyswllt llygaid. Pobl ydym sy'n dadlau â phobl eraill. Mae'r cyswllt llygaid yn Nhŷ'r Cyffredin yn wrthdrawiadol, gwaetha'r modd, ond mae modd dylunio Siambr sydd â nodweddion gwahanol.

I find the indicative design of the new building to be positive. One of the architects said to me that he would like to lay out a mock-up of the detailed design so that Assembly Members can sit in it and discuss whether it is what they want in terms of space and distance. It would make a difference. Those of us who have seen debating Chambers around the world have seen the House of Commons Chamber replicated within something covering six times the area, which loses advantages and gains disadvantages.

I mi mae dyluniad mynegol yr adeilad newydd yn gadarnhaol. Dywedodd un o'r penseiri wrthyf yr hoffai greu model maint llawn o'r cynllun manwl fel y gall Aelodau'r Cynulliad eistedd ynddo a thrafod ai dyna sydd arnynt ei eisiau yn nhermau lle a phellter. Byddai'n gwneud gwahaniaeth. Mae'r rheini ohonom a welodd Siambrau dadlau ledled y byd wedi gweld copïau o Siambr Tŷ'r Cyffredin wedi'u hymestyn dros arwynebedd sydd chwe gwaith yn fwy, gan golli manteision ac ennill anfanteision.

It is right to have a circular Chamber as a starting point but it will need care. That is something that Members will want to engage

Mae'n iawn cael Siambr ar ffurf cylch fel man cychwyn, ond bydd angen gofal. Dyna rywbeth y bydd Aelodau am roi sylw iddo.

with. There were other issues raised last week such as the public gallery, energy efficiency and the efficiency of the entire building. The period of being involved in the design of the new building will be interesting as long as we do not spend all of our time on it.

Fe godwyd materion eraill yr wythnos ddiwethaf fel yr oriel gyhoeddus, effeithlonrwydd ynni ac effeithlonrwydd yr adeilad yn ei gyfanrwydd. Bydd y cyfnod o ymwneud â dyluniad yr adeilad newydd yn ddiddorol dim ond inni beidio â threulio'n holl amser arno.

Val Feld: I want to ask a question in relation to the way the building will be constructed. Will you give an assurance that the architects will use materials developed in Wales? It would ensure that the building would be a showcase, not just for traditional Welsh architecture and using slate and stone, but for Wales' modern, creative designers. Swansea Institute of Higher Education is a world authority on stained glass and the development of new glass. We could ask them to look at ways to use resources. This would demonstrate what could be produced to our own people and the visitors who will come here in the future.

Val Feld: Hoffwn ofyn cwestiwn ynglŷn â'r ffordd yr adeiledir yr adeilad newydd. A wnewch chi roi sicrwydd y bydd y penseiri'n defnyddio defnyddiau a ddatblygwyd yng Nghymru? Byddai'n sicrhau y byddai'r adeilad yn esiampl, nid yn unig o bensaernïaeth draddodiadol Cymru a'r defnydd o lechi a charreg, ond o ddylunwyr creadigol cyfoes Cymru. Mae Athrofa Addysg Uwch Abertawe yn awdurdod drwy'r byd ar wydr lliw a datblygiad gwydr newydd. Gallem ofyn iddynt hwy edrych ar ffyrdd o ddefnyddio adnoddau. Byddai hyn yn arddangos beth ellid ei gynhyrchu i'n pobl ni'n hunain ac i'r ymwelwyr a ddaw yma yn y dyfodol.

The First Secretary: The institute referred to does not happen to be in your constituency by any chance? The architects have tried to look at materials that are indigenous and project an image of Wales. Several Members raised the point that the crafts people and the artists of Wales should be able to make a contribution. That is a positive approach. In some cases, it does not add to the cost if you think about it well in advance. The architects have taken that on board.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid yw'r athrofa y cyfeiriwyd ati yn digwydd bod yn eich etholaeth chi drwy ryw ddigwyddiad? Mae'r penseiri wedi ceisio edrych ar ddefnyddiau sy'n gynhenid ac yn cyflwyno delwedd o Gymru. Cododd sawl Aelod y pwynt y dylai crefftwyr ac artistiaid Cymru allu gwneud cyfraniad. Dyna ffordd gadarnhaol o fynd ati. Mewn rhai achosion, nid yw'n ychwanegu at y gost os caiff ei ystyried yn ddigon pell ymlaen llaw. Mae'r penseiri wedi ymgymryd â hyn.

If the Assembly agrees to the proposal, we will arrange for the design to be explained in public meetings around Wales. I want the model to remain on display and for the architects to explain their proposals at agreed venues so that they can be fully understood. I seek the Assembly's wholehearted support for the motion and the agreement that the Richard Rogers Partnership should continue to work on the development of the design of the new building. Business leaders and those who want to promote the economy and image of Wales will be stunned if we fail to do so today.

Os cytuna'r Cynulliad â'r cynnig, fe drefnwn i'r dyluniad gael ei egluro mewn cyfarfodydd cyhoeddus o gwmpas Cymru. Mae arnaf eisiau i'r model presennol ddal i gael ei arddangos ac i'r penseiri egluro'u cynlluniau mewn canolfannau y cytunir arnynt fel y gellir eu deall yn llawn. Gofynnaf am gefnogaeth lawn y Cynulliad i'r cynnig a'r cytundeb y dylai Partneriaeth Richard Rogers barhau i weithio ar ddatblygu cynllun yr adeilad newydd. Bydd arweinwyr busnes a'r rheini sy'n ceisio hybu economi a delwedd Cymru wedi'u syfrdanu os methwn wneud hyn heddiw.

As far as the amendment is concerned, it may seem clever to propose a children's hospital as an alternative to a proposal you want to defeat but it is not. Work is being done on proposals for a children's hospital. Jane Hutt and I discussed the matter with the University Hospital of Wales and Llandough NHS trusts last week. The NHS directorate is assessing their proposals. A measure of their seriousness is the fact that the planning application for phase one is under consideration. To say no to a modern, world-class, cost-effective, landmark Assembly building here in Cardiff Bay would be to break faith with those who want to see the Assembly and Wales succeed.

O ran y gwelliant, efallai ei bod yn ymddangos yn glyfar cynnig ysbyty plant yn lle rhywbeth yr ydych eisiau ei drechu, ond nid ydyw. Mae gwaith ar y gweill ar gynigion ar gyfer ysbyty plant. Trafododd Jane Hutt a mi y mater gydag Ysbyty Prifysgol Cymru ac ymddiriedolaethau NHS Llandochau yr wythnos ddiwethaf. Mae cyfarwyddiaeth yr NHS yn asesu eu cynigion. Mesur o'u difrifoldeb yw'r ffaith fod y cais cynllunio ar gyfer cam un dan ystyriaeth. Byddai dweud na i adeilad cyfoes, safonol, cost-effeithiol, arloesol i'r Cynulliad yma ym Mae Caerdydd yn golygu torri ffydd â'r rheini sydd eisiau gweld y Cynulliad a Chymru yn llwyddo.

The Presiding Officer: I have made inquiries about the availability of the Business Statement on the Chamberweb. It was on the intranet at 1 p.m. The Chamberweb suffered a brief glitch and then corrected itself. We will make further enquiries to ensure that our system works as effectively as possible.

Y Llywydd: Yr wyf wedi gwneud ymholiadau ynghylch presenoldeb y Datganiad Busnes ar We'r Siambr. Yr oedd ar y fewnrwyd am 1 p.m. Dioddefodd Gwe'r Siambr broblem fach ac yna cywirodd ei hun. Fe wnawn ymholiadau pellach i sicrhau fod ein system yn gweithio mor effeithiol ag sy'n bosib.

I have selected the amendment standing in the name of David Davies.

Yr wyf wedi dewis y gwelliant sy'n sefyll yn enw David Davies.

Nick Bourne: I propose the following amendment:

Nick Bourne: Yr wyf yn cynnig y gwelliant canlynol:

Between the words 'instructed' and 'to' insert the word 'not';

Ar ôl y gair 'i' ychwaneger y geiriau 'beidio â' a chyfnewid y gair 'barhau' am 'pharhau'.

after the word 'project' delete the remainder of the paragraph and insert:

ar ôl y geiriau 'Adeilad Newydd y Cynulliad' dilëer gweddill y paragraff ac ychwaneger:

'and that instead the Government of Wales divert the money set aside for building a new Assembly Chamber towards the construction of a new children's hospital'.

'ac yn lle hynny, dylai Llywodraeth Cymru ailgyfeirio'r arian a glustnodwyd ar gyfer adeiladu Siambr newydd i'r Cynulliad i adeiladu ysbyty plant newydd'.

This debate is about the language of priorities. Unless the First Secretary is prepared to give a copper-bottomed guarantee over his pledge that plans for the children's hospital are to start immediately, the amendment will stand. This is truly important. It is not a principled opposition to a new Assembly building, but there are things that we should rather be doing when finance is scarce. Our first substantive

Dadl am iaith blaenoriaethau yw hon. Os nad yw'r Prif Ysgrifennydd yn barod i roi gwarant sicr dros ei addewid y bydd cynlluniau ar gyfer yr ysbyty plant yn cychwyn yn syth, bydd y gwelliant yn sefyll. Mae hyn yn wirioneddol bwysig. Nid gwrthwynebiad ar egwyddor i adeilad newydd i'r Cynulliad ydyw, ond y mae yna bethau amgenach y dylem fod yn eu gwneud pan fo cyllid yn brin. Ar gost a lwfansau y

decision was on cost and allowances and it would be sad if our second was on a new Assembly building. That would again reflect our self-interest and personal motivation.

gwnaethom ein penderfyniad cyntaf o sylwedd a byddai'n drist petai'n hail benderfyniad ar adeilad newydd i'r Cynulliad. Byddai hynny eto'n adlewyrchu'n hunan-les a'n symbyliad personol.

3:19 p.m.

The wording of the motion refers to cost parameters. Each time this is debated we talk of different figures—£12.5 million was mentioned today. If that is the figure, why was it not placed in the motion? The First Secretary and the Finance Secretary have been frequently questioned about a capped figure and I raise that question again. Should this motion be passed, we would like to know when a contract would be signed because we will then take part in any discussion about a new Assembly building.

Mae geiriad y cynnig yn sôn am baramedrau cost. Bob tro y trafodir hyn fe sonnir am ffigyrau gwahanol—crybwyllwyd £12.5 miliwn heddiw. Os mai dyna'r ffigwr, pam na roddwyd ef yn y cynnig? Mae'r Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Cyllid wedi cael eu holi droeon am ffigwr â chap arno, a hoffwn godi'r cwestiwn hwnnw eto. Petai'r cynnig hwn yn cael ei basio, hoffem wybod pa bryd y byddid yn arwyddo contract oherwydd wedyn fe wnawn gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn ag adeilad newydd i'r Cynulliad.

However, we would like to discuss how it would be better for the people of Wales if this money was spent on a children's hospital. Would not it be a more appropriate monument for the millennium?

Fodd bynnag, hoffem drafod sut y byddai'n well i bobl Cymru pe câi'r arian hwn ei wario ar ysbyty plant. Oni fyddai hynny'n gofgolofn fwy priodol i'r mileniwm?

Janet Davies: How many children's hospitals were built in Wales between 1979 and 1997?

Janet Davies: Sawl ysbyty plant a godwyd yng Nghymru rhwng 1979 ac 1997?

Nick Bourne: I am coming on to the NHS stocktake, which perhaps you are thinking about. Anyone who has read that would see that it speaks highly of the NHS over the last few years and says that we are facing a serious position—a £25 million recurrent deficit—regardless of a children's hospital. We are faced with the prospect of hospital closures unless we garner our resources sensibly. I welcome your intervention because it illustrates my point about the language of priorities and that is the case whichever Government is in office.

Nick Bourne: Yr wyf yn dod ymlaen at gyfrifiad stoc yr NHS, sef yr hyn sydd gennych dan sylw o bosib. Byddai unrhyw un a ddarllenodd hwnnw'n gweld ei fod yn canmol yr NHS dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac yn datgan ein bod yn wynebu sefyllfa ddifrifol—diffyg rheolaidd o £25 miliwn—ysbyty plant ai peidio. Wynebwn y posibilrwydd o orfod cau ysbytai oni fugeiliwn ein hadnoddau'n ddoeth. Yr wyf yn croesawu'ch ymyriad gan ei fod yn tanlinellu fy mhwynt ynghylch iaith blaenoriaethau, ac mae hynny'n wir pa bynnag Lywodraeth sydd mewn grym.

Alun Pugh: Why the sudden Conservative concern about children's hospitals? Your party was in power for almost two decades and it sent nearly £100 million of Welsh money back to the Treasury as a virility gesture. If you were seriously concerned

Alun Pugh: Pam y consyrn sydyn gan y Ceidwadwyr am ysbytai plant? Yr oedd eich plaid chi mewn grym am bron ddau ddegawd ac anfonodd bron £100 miliwn o arian Cymru yn ôl i'r Trysorlys fel gorchest. Petai gennych chi gonsyrn gwirioneddol dros godi

about building children's hospitals rather than making political gestures, we would have John Redwood Memorial Hospitals the length and breadth of Wales.

ysbytai plant yn hytrach na thynnu ystumiau gwleidyddol, byddai gennym Ysbytai Coffa John Redwood ar hyd a lled Cymru.

Nick Bourne: I welcome the intervention but Edwina Hart's reaction just now demonstrates that that money was not sent back to the Treasury. I am not sure whether Alun Pugh is speaking for or against a children's hospital. If he is for it, I welcome his support; if he is not, clearly he will vote against the amendment. That is a matter for him.

Nick Bourne: Yr wyf yn croesawu'r ymyriad, ond mae adwaith Edwina Hart gynnau fach yn dangos na chafodd yr arian hwnnw ei anfon yn ôl i'r Trysorlys. Nid wyf yn siwr a yw Alun Pugh yn siarad o blaid neu yn erbyn ysbyty plant. Os ydyw o'i blaid, yr wyf yn croesawu ei gefnogaeth; os nad ydyw, yn amlwg fe wnaiff bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Mater iddo ef yw hynny.

David Melding: Is my friend aware that in the 1980s, the average expenditure on new hospitals under the Conservative Government was £100 million in Wales? Now that the Labour party has drastically reduced capital expenditure on hospitals in Wales, it is set to fall from £18 million to £5 million—£5 million compared with the Conservative Government's £100 million.

David Melding: A ydyw fy nghyfaill yn ymwybodol fod y cyfartaledd gwariant yn y 1980au ar ysbytai newydd dan y Llywodraeth Geidwadol yn £100 miliwn yng Nghymru? Yn awr bod y blaid Lafur wedi cwtogi'n ddybryd ar wariant cyfalaf ar ysbytai yng Nghymru, mae'r gwariant ar fin cwympo o £18 miliwn i £5 miliwn—£5 miliwn, o gymharu â'r £100 miliwn a wariodd y Llywodraeth Geidwadol.

Nick Bourne: Thank you for refreshing my memory. We both attended the Health and Social Services Committee where you made that point. Jane Hutt was somewhat surprised and the civil servants were unable to explain why spending has been cut on the capital programme in the budget. This again illustrates the point that if people recognise our lack of resources, it does not make sense to be spending them on a new Assembly building.

Nick Bourne: Diolch am fy atgoffa. Yr oeddem ein dau yn bresennol yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol lle gwnaethoch y pwynt hwnnw. Cafodd Jane Hutt ei synnu braidd, ac nid oedd y gweision sifil yn gallu esbonio pam y cwtogwyd ar wariant ar y rhaglen gyfalaf yn y gyllideb. Mae hyn eto'n tanlinellu'r pwynt, os yw pobl yn gallu gweld ein diffyg adnoddau, nad yw'n gwneud synnwyr eu gwario ar adeilad newydd i'r Cynulliad.

Jenny Randerson: Are you aware that about 10 years ago, firm plans for a children's hospital in Cardiff were deleted from the programme under your Government?

Jenny Randerson: Ydych chi'n ymwybodol y cafodd cynlluniau pendant ar gyfer ysbyty plant yng Nghaerdydd eu dileu oddi ar y rhaglen dan eich Llywodraeth chi oddeutu deng mlynedd yn ôl?

Nick Bourne: If you are speaking in favour of a children's hospital and are trying to hold me to account for what happened under the last Government, I will accept my share of responsibilities even though I was not an MP. If you are saying that it is now important to flag up a children's hospital, I welcome your support. This issue is not just about whether a children's hospital should have been built

Nick Bourne: Os ydych chi'n siarad o blaid ysbyty plant ac yn ceisio fy nal i'n gyfrifol am yr hyn a ddigwyddodd o dan y Llywodraeth ddiwethaf, fe dderbyniaf fy nghyfran o'r cyfrifoldeb er nad oeddwn i'n AS. Os ydych chi'n dweud ei bod yn bwysig yn awr inni gefnogi ysbyty plant, croesawaf eich cefnogaeth. Mater yw hwn nid yn unig ynghylch a ddylid bod wedi adeiladu ysbyty

previously but whether it should be built now. We should focus our attention on the issue. The First Secretary seems anxious to intervene but if I could develop these points he will have plenty of opportunity.

plant o'r blaen ond a ddylid ei adeiladu yn awr. Dylem ganolbwyntio'n sylw ar y cwestiwn. Mae'r Prif Ysgrifennydd i'w weld yn awyddus i dorri i mewn, ond os caf i ddatblygu'r pwyntiau hyn fe gaiff ddigon o gyfle.

The First Secretary: You are doing very well on your own.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydych yn gwneud yn dda iawn ar eich pen eich hun.

Nick Bourne: Thank you. I take it, therefore, that you do not want to intervene. There are some substantive issues about the new Assembly building. Along with many people here, I went to the meeting about it and I am open minded to a fault about its merits. However, there are some issues that give me pause.

Nick Bourne: Diolch. Yr wyf yn cymryd, felly, nad oes arnoch eisiau torri i mewn. Y mae rhai materion gwirioneddol ynglŷn ag adeilad newydd y Cynulliad. Ynghyd â llawer o bobl yma, euthum i'r cyfarfod amdano ac yr wyf yn cadw meddwl hollol agored ynglŷn â'i rinweddau. Fodd bynnag, y mae ambell gwestiwn sy'n peri imi oedi.

The First Secretary said that the auditorium would have capacity for 100 people. We have all been told that our current building is singularly deficient in that respect. I understand that point to a degree because this auditorium, which holds 60 people, is always crowded. The auditorium of the new building is to hold 50 members of the public and 50 members of the press—fewer people than the current Chamber. This issue was raised by all the parties in the meeting and those present can confirm those figures.

Dywedodd y Prif Ysgrifennydd y byddai lle yn yr awditoriwm i 100 o bobl. Dywedwyd wrthym i gyd fod ein hadeilad presennol yn arbennig o ddiffygiol yn hynny o beth. Yr wyf yn deall y pwynt hwnnw i raddau, gan fod yr awditoriwm hwn, sy'n dal 60 o bobl, bob amser yn orlawn. Bwriedir i awditoriwm yr adeilad newydd ddal 50 aelod o'r cyhoedd a 50 aelod o'r wasg—llai o bobl na'r Siambr bresennol. Codwyd y cwestiwn hwn gan y pleidiau i gyd yn y cyfarfod a gall y rhai oedd yn bresennol gadarnhau'r ffigyrau hynny.

The First Secretary: I am sure that you simply want to provide information rather than mislead the Assembly. The figures include the numbers for the press and public galleries but because the public gallery number is clearly lower than that which Members require I spoke to the architect to ensure a degree of flexibility for greater capacity in that gallery should it be the Assembly's desire. I gave that assurance in my contribution this afternoon.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn siwr mai dim ond eisiau darparu gwybodaeth yr ydych yn hytrach na chamarwain y Cynulliad. Mae'r ffigyrau'n cynnwys y niferoedd ar gyfer orielau'r wasg a'r cyhoedd ond gan fod y nifer ar gyfer yr oriel gyhoeddus yn amlwg yn is na'r hyn yr hoffai'r Aelodau ei weld fe siaradais â'r pensaer i sicrhau rhyw radd o hyblygrwydd i gael mwy o le yn yr oriel honno petai'r Cynulliad yn dymuno hynny. Rhoddais y sicrwydd hwnnw yn fy nghyfraniad y prynhawn yma.

Nick Bourne: I was not privy to those private discussions but I think the First Secretary would accept that I gave the figures that were in the statement. There was also talk of more people at a higher level without seating and this is an issue that can be addressed.

Nick Bourne: Nid oeddwn yn gwybod am y trafodaethau preifat hynny ond yr wyf yn meddwl y byddai'r Prif Ysgrifennydd yn derbyn y rhoddais y ffigyrau a oedd yn y datganiad. Yr oedd sôn hefyd am gael mwy o bobl ar lefel uwch heb seddi ac mae hwn yn fater y gellir ei drafod.

The First Secretary: The higher level is where it will be possible for people to see into the Chamber. Even though on the outside it would be possible for them to use headphones to have an aural glimpse of Chamber proceedings. However, we are talking about the public gallery in the Chamber itself. During the course of questions and answers, the architect made it clear that it was a first fix on the numbers and that Members' aspirations for a larger public seating area could be met in the design parameters.

Y Prif Ysgrifennydd: Y lefel uwch yw'r fan lle bydd modd i bobl weld i mewn i'r Siambr. Er y byddent ar y tu allan, byddai modd iddynt wisgo clustffonau i gael clywed rhyw fymryn ar drafodaethau'r Siambr. Fodd bynnag, yr ydym ni'n sôn am yr oriel gyhoeddus yn y Siambr ei hun. Yn ystod y sesiwn holi ac ateb, dywedodd y pensaer yn glir mai syniad cyntaf am y niferoedd oedd hyn ac y gallai dyhead yr Aelodau am fwy o seddi i'r cyhoedd gael ei ateb o fewn paramedrau'r cynllun.

Nick Bourne: The First Secretary will understand the concern about the original figure of 50 for the auditorium. There was much talk of a democratic roof but not of space in the Assembly auditorium for people to hear the debate.

Nick Bourne: Bydd y Prif Ysgrifennydd yn deall y pryder am y ffigwr gwreiddiol o 50 ar gyfer yr awditoriwm. Yr oedd llawer o sôn am do democrataidd ond nid am le yn awditoriwm y Cynulliad i bobl wrando ar y drafodaeth.

Other aspects that need to be addressed include the ramp and steps that do not lend themselves to disabled access and the fact that previous Richard Rogers's buildings have been known to leak in the physical and not the Committee sense. These objections to the design do not begin to address the problem of priorities. I do not know their political affiliation but Stephen Day and Geoff Hole have collected the signatures of over 16,000 people in Cardiff who believe that it would be better to spend the money on a children's hospital rather than a new Assembly building. I suspect that they speak on behalf of hundreds of thousands of people throughout Wales and we would be contributing to the cynicism in our country if our first two substantive decisions related to our own allowances and salaries and a new Assembly building rather than to the proper language of priorities.

Ymhlith agweddau eraill sydd angen sylw mae'r ramp a'r grisiau sydd yn anhwylus o ran mynediad i'r anabl, a'r ffaith hysbys fod adeiladau gan Richard Rogers yn y gorffennol wedi gollwng dŵr (yn hytrach na gollwng gwybodaeth gyfrinachol). Nid yw'r gwrthwynebiadau hyn i'r dyluniad yn dechrau mynd i'r afael â phroblem y blaenoriaethau. Ni wn i ddim beth yw eu lliwiau gwleidyddol ond mae Stephen Day a Geoff Hole wedi hel llofnodion dros 16,000 o bobl yng Nghaerdydd sy'n credu y byddai'n well gwario'r arian ar ysbyty plant yn hytrach nag ar adeilad newydd i'r Cynulliad. Yr wyf yn amau eu bod yn siarad ar ran cannoedd o filoedd o bobl ledled Cymru ac y byddem yn cyfrannu at y sinigiaeth yn ein gwlad petasai'n dau benderfyniad cyntaf o sylwedd yn ymwneud â'n lwfansau a'n cyflogau ni'n hunain ac adeilad newydd i'r Cynulliad yn hytrach nag â iaith briodol blaenoriaethau.

Huw Lewis: You talked of cynicism but is it not true that Stephen Day and Geoff Hole have combined this campaign with advertising their own business?

Huw Lewis: Fe sonioch am sinigiaeth, ond onid yw'n wir fod Stephen Day a Geoff Hole wedi cyfuno'r ymgyrch hon â hysbysebu eu busnes eu hunain?

Nick Bourne: I do not believe that this is the case. One of them was motivated by the fact that his child could not be treated in Wales but had to be treated in Bristol for a life-

Nick Bourne: Nid wyf yn credu mai dyma'r achos. Cafodd un ohonynt ei symbylu gan y ffaith na allai ei blentyn gael triniaeth yng Nghymru, ond y bu'n rhaid mynd i Fryste am

threatening disease. The campaign was not motivated in any way by business or party politics but by a genuine desire to do something for Wales, and I accept it on that basis.

driniaeth ar afiechyd a allasai fod yn farwol. Nid oedd yr ymgyrch wedi'i symbylu mewn unrhyw fodd gan fusnes na gwleidyddiaeth plaid, ond gan awydd wirioneddol i wneud rhywbeth dros Gymru, ac yr wyf yn ei derbyn ar y sail honno.

Our misgivings about this new building relate to how the money could be better spent. If we pass this motion unamended today, we will send out a signal about the sort of Wales that we want—a Wales with a new Assembly building, not a new children's hospital.

Mae ein hamheuon ynglŷn â'r adeilad newydd hwn yn ymwneud â sut y gellid gwario'r arian er gwell. Os pasiwn y cynnig hwn heb ei wella heddiw, byddwn yn anfon neges allan am y math o Gymru yr ydym ni ei heisiau—Cymru gydag adeilad newydd i'w Chynulliad, nid ysbyty newydd i blant.

3:29 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig ac yn gwrthwynebu gwelliant y Blaid Geidwadol. Hefyd, gwrthwynebwn y ffordd sinigaidd y mae'r Blaid Geidwadol wedi defnyddio'r ddadl hon.

Ieuan Wyn Jones: Plaid Cymru supports the motion and objects to the Conservative Party's amendment. We also object to the cynical manner in which the Conservative Party has used this debate.

Hoffwn ateb cwestiwn a ofynnwyd i Nick Bourne ddwywaith, sef a adeiladodd y Blaid Dorïaidd ysbyty i blant yn ystod 18 mlynedd o lywodraeth? Yr ateb yw, 'Naddo'. Nid oedd ganddynt unrhyw gynllun i wneud hynny. Mae'r Blaid Dorïaidd wedi bod mewn grym am 35 mlynedd yn ystod y 50 mlynedd ddiwethaf ac ni chafwyd unrhyw gynllun i adeiladu ysbyty i blant yng Nghymru. Ymgyrch gwbl sinigaidd gan y Blaid Dorïaidd yw hon.

I wish to answer a question that Nick Bourne was asked twice: did the Tory Party build a children's hospital during 18 years of government? The answer is no. It had no plan to do so. The Tory Party has been in power for 35 years of the past 50 years and there has been no plan to build a children's hospital in Wales. This is a totally cynical campaign by the Tory Party.

Rod Richards: Hoffwn dynnu sylw Ieuan Wyn Jones at y ffaith fod y Blaid Geidwadol wedi adeiladu nifer helaeth o unedau i blant dros Gymru, gan gynnwys uned yng Nghaerdydd.

Rod Richards: I wish to draw Ieuan Wyn Jones's attention to the fact that the Conservative Party built a substantial number of children's units throughout Wales, including a unit in Cardiff.

Ieuan Wyn Jones: Hoffwn dynnu sylw Rod at y gwelliant sydd gerbron y Cynulliad, sef adeiladu ysbyty i blant, nid uned. Pe bai'r Torïaid o ddifrif, dylai'r cynllun fod wedi ymddangos yn eu rhaglen yn ystod un o'r 35 mlynedd y maent wedi bod mewn grym ers 1945.

Ieuan Wyn Jones: I would like to draw Rod's attention to the amendment that is before the Assembly, that is to build a children's hospital, not a unit. If the Tories were serious, the scheme should have appeared in their programme during one of the 35 years that they have been in power since 1945.

Clywsom y math hwn o ddadl yn ystod y refferendwm a'r ymgyrch etholiadol. Yng

We heard this sort of argument during the referendum and the election campaign. In

Nghymru, dylem fod yn falch o'r anturiaeth yr ydym yn rhan ohoni. Pa fath o genedl fyddai Cymru pe na byddai'n manteisio ar y cyfle i gael adeilad o urddas i gynnal ei Chynulliad Cenedlaethol? Pa fath o genedl fyddem ni pe baem yn derbyn y dadleuon ymylol yr ydym yn eu clywed drwy'r amser gan y Blaid Dorïaidd?

Wales, we should be proud of the adventure of which we are a part. What kind of a nation would Wales be if it did not take advantage of the opportunity to have a dignified building to house its National Assembly? What kind of a nation would we be if we accepted the marginal arguments that we hear all the time from the Tory Party?

Ystyriwch ein traddodiad o safbwynt adeiladau o urddas. Pwy fyddai'n dadlau heddiw yn erbyn y math o adeilad a geir yn Aberystwyth sydd yn cynnal ein Llyfrgell Genedlaethol? Gallwn, fel cenedl, ymfalchïo yn yr adeilad hwnnw. Mae ein Hamgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd yn adeilad y gallai unrhyw genedl yn y byd ymfalchïo ynddo.

Consider our tradition as regards dignified buildings. Who would argue today against the kind of building in Aberystwyth that houses our National Library? We, as a nation, can take pride in that building. Our National Museum in Cardiff is a building in which any nation in the world could take pride.

Yr ydym yn symud i gyfnod lle mae'r genedl hon yn ymfalchïo yn ei democratiaeth newydd. Gwelwn batrwm newydd o wneud pethau. Mae penderfyniad fel hwn yn ddatganiad o falchder cenedlaethol—datganiad ein bod, fel cenedl, yn ddigon hyderus i gael adeilad y gallwn fod yn falch ohono.

We are moving into an era when this nation takes pride in its new democracy. We see a new pattern of doing things. A decision such as this is a declaration of national pride—a declaration that we, as a nation, are confident enough to have a building of which we can be proud.

Ar wahân i'r dadleuon ynglŷn â balchder cenedlaethol, mae rhesymau ymarferol dros gael adeilad newydd. Mae Dafydd Wigley wedi rhoi enghreifftiau o'r sefyllfa anffodus yr haf hwn lle mae rhaid i aelodau o'n staff weithio o dan amgylchiadau anodd. Yn ogystal, mae'n anodd i nifer fawr o bobl ddod i mewn i'r adeilad hwn—nid oes digon o le i'r cyhoedd ac mae'r Siambr yn anaddas ar gyfer sefydliad cendlaethol.

Apart from the arguments of national pride, there are practical reasons for a new building. Dafydd Wigley has given examples of the unfortunate situation this summer where members of our staff have had to work under difficult circumstances. Also, it is difficult for a great number of people to enter this building—there is not enough space for the public and the Chamber is unsuitable for a national institution.

Dywedaf wrth bobl Cymru: gwrandewch ar bobl sydd yn credu bod cenedl y Cymry yn haeddu adeilad o urddas yng Nghaerdydd. Peidiwch â gwrando ar blaid sydd wedi gwthio ei blaenoriaethau gwariant am 18 mlynedd ac sydd yn meiddio dweud wrthym ni beth y dylem wneud â'n harian.

I say to the people of Wales: listen to the people who believe that the Welsh nation deserves a dignified building in Cardiff. Do not listen to a party that has pushed its own expenditure priorities for 18 years and has the audacity to tell us what we should do with our money.

Michael German: This Assembly would be nothing without a flagship standing as proud testament to the way in which it speaks for Wales. If we are to speak for Wales, we must do so in a different manner. The design is imaginative to some, different to others and it

Michael German: Ni fyddai'r Cynulliad hwn yn ddim heb bencadlys i sefyll fel testament balch i'r ffordd y mae'n siarad dros Gymru. Os ydym am siarad dros Gymru, rhaid inni wneud hynny mewn ffordd wahanol. Mae'r dyluniad yn ddychmygus i

may not please everybody. But it would not have any impact without a commitment from the Assembly. Our new building will make a statement that we are trying to look outwards and raise our people's confidence.

rai, yn wahanol i eraill ac efallai nad yw at ddant pawb. Ond ni fyddai'n cael unrhyw effaith heb ymrwymiad gan y Cynulliad. Bydd ein hadeilad newydd yn gwneud datganiad ein bod yn ceisio edrych tuag allan a chodi hyder ein pobl.

If we remain in a building that looks like an office, we might be comfortable but we would not set the standard for the future. The fact that the Tories oppose a flagship project for Wales is as predictable as snowflakes melting in your hand or, more relevantly, frogs croaking in the dusk. They always oppose, they never propose. We heard the hypocrisy of the Tories calling for a children's hospital in Cardiff Bay when they have already cancelled such a plan. Thankfully, planning permission is underway for a children's hospital in Cardiff based upon the University of Wales Hospital.

Os arhoswn mewn adeilad sy'n edrych fel swyddfa, efallai y byddem yn gyfforddus ond ni fyddem yn gosod y safon ar gyfer y dyfodol. Mae'r ffaith fod y Torïaid yn gwrthwynebu prosiect blaengar i Gymru mor hawdd ei rhagweld â phlu eira'n dadmer yn eich llaw neu, yn fwy perthnasol, llyffantod yn crawcian yn y cyfnos. Maent bob amser yn gwrthwynebu, byth yn cynnig. Clywsom ragrith y Torïaid yn galw am ysbyty plant ym Mae Caerdydd a hwythau eisoes wedi canslo cynllun o'r fath. Diolch i'r drefn, mae caniatâd cynllunio ar droed ar gyfer ysbyty plant yng Nghaerdydd ar dir Ysbyty Prifysgol Cymru.

Alun Cairns: Is not it hypocritical that the Liberal Democrats are prepared to increase taxes for the sake of education but are happier to build a new palace in Cardiff Bay than to use similar resources for education or a children's hospital?

Alun Cairns: Onid rhagrith yw bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn barod i gynyddu trethi er mwyn addysg ond bod yn well ganddynt godi palas newydd ym Mae Caerdydd na defnyddio adnoddau tebyg ar gyfer addysg neu ysbyty plant?

Michael German: It is important that we make a statement for the people of Wales, which will increase Wales's prosperity. I give Barcelona as an example. Barcelona is the capital city of Catalonia, which is twinned with Wales. Catalonia has made statements through proud projects. That has turned the economy of that country around. It now has the fastest growing regional economy in Europe. That has happened through raising the confidence of the people and making them look outwards.

Michael German: Mae'n bwysig ein bod yn gwneud datganiad dros bobl Cymru, a fydd yn cynyddu ffyniant Cymru. Rhoddaf Barcelona fel enghraifft. Barcelona yw prifddinas Catalonia, sydd wedi'i hefeillio â Chymru. Mae Catalonia wedi gwneud datganiadau drwy brosiectau balch. Mae hynny wedi troi economi'r wlad honno o gwmpas. Erbyn hyn mae ganddi'r economi ranbarthol sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop. Digwyddodd hynny drwy godi hyder y bobl a gwneud iddynt edrych tuag allan.

We are making a statement of confidence. If we followed the Conservative route and did not make a statement, Conservative Members would bring up something else instead of a children's hospital—perhaps a railway station or something else that we desperately need or that they felt that we needed. It does not matter what, the list would go on endlessly. Conservative Members would continually oppose, not propose.

Yr ydym yn gwneud datganiad o hyder. Petaem yn dilyn llwybr y Ceidwadwyr ac yn peidio â gwneud datganiad, byddai Aelodau Ceidwadol yn codi rhywbeth arall yn lle ysbyty plant—gorsaf reilffordd, efallai, neu rywbeth arall y mae mawr angen amdano neu bod ei angen yn eu barn nhw. Nid oes ots beth, byddai'r rhestr yn mynd ymlaen yn ddiddiwedd. Byddai'r Aelodau Ceidwadol yn parhau i wrthwynebu yn hytrach na chynnig.

The difficulty that they face is that virtually everything that they could propose would be something that they had a hand in cutting in their period of office. When they had a chance to do it, they did not do it. It is hypocrisy of the worst kind to say, 'We did not do it when we were in charge but now that somebody else is in charge, we want them to remember that it should have been done.' I am sure that we all remember what they did in respect of health and education, books for schools, class sizes, local government finance, street cleaning, poll tax. It is easy to oppose for the sake of opposing. I ask them to consider, and I am sure that Rod would agree with me, the role model of Mrs Thatcher.

Yr anhawster a wynebant yw y byddai bron bopeth y gallent ei gynnig yn rhywbeth y bu ganddynt ran yn ei dorri pan oeddent mewn grym. Pan oedd ganddynt gyfle i'w wneud, ni wnaethant ddim. Rhagrith o'r math gwaethaf yw dweud, 'Wnaethom ni ddim gwneud hyn pan oeddem ni mewn grym, ond yn awr bod rhywun arall mewn grym, yr ydym am iddynt gofio y dylid bod wedi ei wneud.' Yr wyf yn siwr ein bod i gyd yn cofio beth a wnaethant i iechyd ac addysg, llyfrau i ysgolion, meintiau dosbarthiadau, cyllid llywodraeth leol, glanhau strydoedd, treth y pen. Mae'n hawdd gwrthwynebu er mwyn gwrthwynebu. Gofynnaf iddynt ystyried, ac yr wyf yn siwr y byddai Rod yn cytuno gyda mi, batrwm ymddygiad Mrs Thatcher.

3:39 p.m.

David Davies: Does the Member accept that under the last Conservative Government there were fewer homeless people, class sizes were smaller, hospital waiting lists were shorter and there were more police officers on the beat?

David Davies: A ydyw'r Aelod yn derbyn y ffaith y cafwyd, dan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf, lai o bobl digartref, meintiau dosbarthiadau llai, rhestri aros byrrach i ysbytai a mwy o heddweision ar y stryd?

Michael German: I will take the general election as my example and, considering where you started and finished at the general election, the answer to your question is no. If you are asking me if the Labour Party has managed to deal with waiting lists and waiting times, of course it has not. But at the general election, the people of Britain and the people of Wales measured the Conservative Party by their achievements, and said that they were not satisfied with the public services provided.

Michael German: Fe gymeraf yr etholiad cyffredinol fel fy enghraifft ac, o ystyried ble y cychwynnoch chi a ble y gorffenoch chi yn yr etholiad cyffredinol, yr ateb i'ch cwestiwn yw 'na'. Os ydych chi'n gofyn imi a yw'r Blaid Lafur wedi llwyddo i ddelio â rhestri aros ac amserau aros, nac ydyw wrth reswm. Ond yn yr etholiad cyffredinol, bu i bobl Prydain a phobl Cymru fesur y Blaid Geidwadol yn ôl yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, a dweud nad oeddent yn fodlon ar y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperid.

I will continue with my little story. I would have thought that Mrs Thatcher was a role model for some in the Conservative Group, but not for all of them. The new European Parliament building soon to be opened has the support of Mrs Thatcher because she feels that it is a proud representation of the European Community, on which her party has turned its back substantially.

Fe af ymlaen gyda'm stori fach. Buaswn i wedi credu fod Mrs Thatcher yn batrwm ymddygiad i rai yn y Grŵp Ceidwadol, ond nid i bawb ohonynt. Mae Mrs Thatcher yn gefnogol i adeilad newydd y Senedd Ewropeaidd sydd i'w agor yn fuan oherwydd ei bod hi'n teimlo ei fod yn gynrychiolaeth falch o'r Gymuned Ewropeaidd, y cefnwyd arni i raddau helaeth gan ei phlaid hi.

We face the problem of raising our national standing. We must recognise that confidence in looking outwards and standing tall as a

Yr ydym yn wynebu'r broblem o godi'n safle fel cenedl. Rhaid inni gydnabod fod hyder wrth edrych allan a sefyll ar ein traed fel

nation is something that we will achieve by the way we behave. For people who want to be confident in their country, there is a difference between a renovated office building that is not a proud statement of our country and the alternative, which is a flagship project that says something about the people we represent. That difference is what the building is all about.

cenedl yn rhywbeth a gyflawnwn drwy'r ffordd yr ydym yn ymddwyn. I bobl sydd eisiau bod yn hyderus yn eu gwlad, mae gwahaniaeth rhwng adeilad swyddfeydd a adnewyddwyd, nad yw'n ddatganiad balch dros ein gwlad, a'r dewis arall, sy'n brosiect blaengar sy'n dweud rhywbeth am y bobl a gynrychiolwn. Y gwahaniaeth hwnnw yw holl ystyr yr adeilad.

However, I share many of the concerns. Disabled access is one that is universally shared in this Chamber, and one which we would expect the architects to deal with swiftly along with the size and nature of the public gallery and the use of the public and private areas. We should be proud that this project will provide more public access than any legislature that I know of in western Europe. There are also concerns about keeping cool in what might be a glass-walled chamber and about a link to existing buildings. These are concerns that we as an Assembly can take hold of and develop.

Fodd bynnag, yr wyf yn rhannu llawer o'r pryderon. Mae mynediad i'r anabl yn bryder a rennir gan bawb yn y Siambr hon, ac yn un y byddem y disgwyl i'r penseiri ddelio ag ef yn gyflym ynghyd â maint a natur yr oriel gyhoeddus a'r defnydd o'r mannau cyhoeddus a phreifat. Dylem fod yn falch y bydd y prosiect hwn yn caniatáu mwy o fynediad i'r cyhoedd nag unrhyw ddeddfwrfa y gwn i amdani yng ngorllewin Ewrop. Mae pryderon hefyd ynghylch peidio â gorboethi mewn siambr a allai gael waliau o wydr, ac ynghylch cysylltiadau ag adeiladau presennol. Dyma faterion y gallwn ni fel Cynulliad gael gafael ynddynt a'u datblygu.

If we want to be a proud country, making this gesture will show that we represent the people of Wales and that we want to approve something that raises the standards and confidence of our country. Income and an injection of capital will follow that gesture, of which others will think us worthy. People who now find it difficult to accept such a building will change their attitude once it is built. Take for example, the new millennium rugby stadium. Before Wales beat South Africa voices were raised all over the country about the value of such a project. Now that Wales has beaten the world champions it stands as Wales stands—a champion ready to beat the world.

Os ydym am fod yn wlad falch, bydd gwneud hyn yn arwydd ein bod yn cynrychioli pobl Cymru a bod arnom eisiau cymeradwyo rhywbeth sy'n codi safonau a hyder ein gwlad. Bydd incwm a chwistrelliad o gyfalaf yn dilyn yr arwydd hwnnw, wrth i eraill deimlo ein bod yn deilwng. Bydd pobl sydd yn ei chael hi'n anodd yn awr i dderbyn adeilad o'r fath yn newid eu hagwedd unwaith y bydd wedi'i adeiladu. Cymerwch, er enghraifft, stadiwm rygbi newydd y mileniwm. Cyn i Gymru guro De Affrica codwyd lleisiau ledled y wlad ynghylch gwerth y fath brosiect. Yn awr, a Chymru wedi curo pencampwyr y byd, mae'n sefyll fel y mae Cymru'n sefyll—yn bencampwr yn barod i herio'r byd.

Carwyn Jones: The debate this afternoon causes me to wonder whether the words of John Major in 1997 have been heeded. He said that the Conservative Party would learn the lessons of the 1997 election defeat. Conservative Members have given an excellent imitation of collective amnesia this afternoon. How many times have you heard them defend what happened between 1979

Carwyn Jones: Mae'r ddadl y prynhawn yma yn peri i mi feddwl tybed a dalwyd sylw i eiriau John Major yn 1997. Dywedodd y byddai'r Blaid Geidwadol yn dysgu gwersi'r grasfa yn etholiad 1997. Mae Aelodau Ceidwadol wedi gwneud dynwarediad gwych o amnesia torfol brynhawn heddiw. Faint o weithiau ydych chi wedi eu clywed yn amddiffyn yr hyn a ddigwyddodd rhwng

and 1997?

This debate is about a building. The building represents Wales's future and all that will be good. There will obviously be people who are against a building such as this. There were people against the Sydney Opera House and Mike has already made the point that there were people against the millennium stadium. The new building will provide a spacious comfortable area for those people at the back of this Chamber, who have come to listen to us for a couple of hours and who are today cramping on hard seats.

David Melding: It is not very fair to refer to the people at the back in such a way because they seem to be comfortable. The point is whether there are enough of them. We have already heard that the new building was not initially conceived as having more seats than here. Sixteen thousand people in Cardiff do not think that this building ought to be built at all. Why not listen to them?

Carwyn Jones: I suspect that there are more people at the back than there will be at the next Welsh Conservative conference. The people at the back do not have a voice, but they have come to hear us voice their concerns. The point, made many times, is that the number of people who will be accommodated in the building can be altered. There is no problem with accommodating 100 members of the public. We are talking about ensuring that the building reaches the design stage and about our own input. This was alien to past Governments, but it will be a first to have input from the people of Wales as to how many people should be in the Assembly building, how many spaces should be for members of the public and what facilities should be available to them. It is also incredible that this argument is presented as a straight fight for resources between an Assembly building and a children's hospital. I would have thought that anyone proposing a motion to build a children's hospital would have at least researched the cost of such a hospital. We have not even been told that. Let us see if we are now told.

1979 ac 1997?

Dadl am adeilad yw hon. Mae'r adeilad yn cynrychioli dyfodol Cymru a phopeth a fydd yn dda. Yn amlwg, fe fydd yna bobl sydd yn erbyn adeilad fel hwn. Yr oedd pobl a wrthwynebai Dŷ Opera Sydney ac mae Mike eisoes wedi gwneud y pwynt fod yna bobl oedd yn erbyn stadiwm y mileniwm. Bydd yr adeilad newydd yn darparu lle eang a chyfforddus i'r bobl hynny yng nghefn y Siambr, sydd wedi dod i wrando arnom ni am awr neu ddwy, ac sydd heddiw'n dioddef cramp ar seddi caled.

David Melding: Nid yw'n deg iawn cyfeirio at y bobl yn y cefn yn y fath fodd oherwydd maent yn ymddangos yn gyfforddus. Y pwynt yw, a oes digon ohonynt? Yr ydym eisoes wedi clywed na fwriadwyd ar y dechrau i'r adeilad newydd gael mwy o seddi na'r fan hon. Mae un fil ar bymtheg o bobl yng Nghaerdydd o'r farn na ddylid adeiladu'r adeilad hwn o gwbl. Pam na wrandawn ni arnyn nhw?

Carwyn Jones: Yr wyf yn amau fod yna ragor o bobl yn y cefn nag a fydd yng nghynhadledd nesaf y Ceidwadwyr yng Nghymru. Nid oes llais gan y bobl yn y cefn, ond maent wedi dod i'n clywed ni'n lleisio'u pryderon. Y pwynt, sydd wedi'i wneud sawl tro, yw y gellir newid y nifer o bobl y gall yr adeilad ddarparu lle iddynt. Nid oes problem gyda darparu lle i 100 aelod o'r cyhoedd. Yr ydym yn siarad am sicrhau fod yr adeilad yn cyrraedd y cam dylunio ac am ein mewnbwn ni. Yr oedd hyn yn ddieithr i Lywodraethau'r gorffennol, ond am y tro cyntaf fe geir mewnbwn gan bobl Cymru ynghylch faint o bobl ddylai fod yn adeilad y Cynulliad, faint o lefydd ddylai fod ar gael i aelodau'r cyhoedd a pha gyfleusterau ddylai fod ar gael iddynt. Mae'n anhygoel hefyd y cyflwynir y ddadl hon fel cystadleuaeth bur am adnoddau rhwng adeilad i'r Cynulliad ac ysbyty plant. Buaswn i wedi tybio y byddai unrhyw un sy'n rhoi cynnig gerbron i adeiladu ysbyty plant o leiaf wedi ymchwilio i gost ysbyty o'r fath. Nid oes neb wedi dweud hynny wrthym hyd yn oed. Gadewch inni weld a ddywedir wrthym yn awr.

David Davies: The figure has been put at around £21 million. I was working on a previous figure of £17 million for the new Assembly building but this seems to be changing virtually every time we look at it and it is now at about £20 million. I would like to make clear that there are a number of private backers in the Cardiff area who are more than happy to come up with any difference in funding between the cost of the proposed Assembly building and a new children's hospital.

David Davies: Gosodwyd y ffigwr ar ryw £21 miliwn. Yr oeddwn i'n gweithio ar ffigwr blaenorol o £17 miliwn am adeilad newydd y Cynulliad ond mae'n debyg fod hwn yn newid fwy neu lai bob tro yr edrychwn arno ac erbyn hyn mae o gwmpas £20 miliwn. Hoffwn egluro bod yna nifer o gefnogwyr preifat yn ardal Caerdydd sydd yn fwy na bodlon i dalu unrhyw wahaniaeth cyllid rhwng cost yr adeilad Cynulliad arfaethedig ac ysbyty plant newydd.

Carwyn Jones: I am surprised that the figure was not put to us at the beginning of the debate. It is something that has been plucked from the air and we will have to see what happens with it. However, we have already been told that there will be a children's hospital in Cardiff. I cannot understand why this amendment refers to only one children's hospital. Why one, why in Cardiff and where will it be? There is no problem or difficulty in looking at children's facilities throughout Wales in future. Those facilities can be provided from the Assembly's block budget funds or from funds that may be available elsewhere. This is not a straight choice between the Assembly building and a children's hospital. Far be it for me to raise what happened between 1979 and 1997, but £280 million was spent on new offices in the Palace of Westminster. I cannot remember much in the way of protest at that sum of almost 20 times as much.

Carwyn Jones: Yr wyf yn synnu na roddwyd y ffigwr inni ar ddechrau'r ddadl. Mae'n rhywbeth sydd wedi ei dynnu allan o'r awyr a bydd yn rhaid inni aros i weld beth fydd yn digwydd iddo. Fodd bynnag, yr ydym eisoes wedi clywed y bydd yna ysbyty plant yng Nghaerdydd. Ni allaf ddeall pam nad yw'r gwelliant hwn ond yn cyfeirio at un ysbyty plant. Pam un, pam yng Nghaerdydd, ac ym mhle y caiff ei sefydlu? Nid oes problem nac anhawster i edrych ar gyfleusterau plant drwy Gymru gyfan yn y dyfodol. Gellir darparu'r cyfleusterau hynny o arian cyllideb floc y Cynulliad neu o gyllid a all fod ar gael yn rhywle arall. Nid dewis uniongyrchol rhwng adeilad y Cynulliad ac ysbyty plant yw hwn. Nid lle i mi yw codi'r hyn a ddigwyddodd rhwng 1979 a 1997, ond gwariwyd £280 miliwn ar swyddfeydd newydd ym Mhalas Westminster. Ni allaf gofio llawer o brotestio ynglŷn â'r swm hwnnw sydd bron 20 gwaith yn fwy.

Cynog Dafis: It may be worth mentioning that a total of £6 million was spent on the revamping of the Palace of Westminster cafeteria. I do not remember the Conservative Party complaining about that expenditure.

Cynog Dafis: Efallai ei bod hi'n werth nodi y gwariwyd cyfanswm o £6 miliwn ar ailwampio caffeteria Palas Westminster. Nid wyf yn cofio i'r Blaid Geidwadol gwyno am y gwariant hwnnw.

Carwyn Jones: I am very grateful for that intervention, illustrating one waste of money.

Carwyn Jones: Yr wyf yn ddiolchgar iawn am yr ymyriad hwnnw, yn dangos un gwastraff arian.

David Davies: Is it not the case that the MP for Ogmore, Ray Powell, was some way in charge of the Committee, in fact Chairman of the Committee that proposed those new office blocks?

David Davies: Onid yw'n wir fod yr AS dros Ogwr, Ray Powell, mewn rhyw fodd yn gyfrifol am y Pwyllgor, yn wir yn Gadeirydd y Pwyllgor a gynigiodd y swyddfeydd newydd arfaethedig hynny?

3:49 p.m.

Carwyn Jones: Was he in charge or some way in charge? Which is it—one way or another? [CONSERVATIVE MEMBERS: 'In charge, in charge.'] I hear some chanting on my right-hand side.

I had not realised that Sir Ray Powell, MP for Ogmore, was the person who controlled this expenditure and made the decision in Parliament. The point is that it was supported by the Conservative Members in Parliament.

Ieuan Wyn Jones: To set the record straight, the chair of that building project is the Conservative Sir Sydney Chapman.

Carwyn Jones: Billions of pounds were lost because Railtrack was undersold. If local council had done that, they would have been surcharged. We are talking about a figure of £12.5 million, which will be spent on a building that will bring people into the Bay and enable people to see democracy at work, which is not possible at Westminster to any great extent. It will enable money to come into this area. People will come and see the area and the building. Money will be spent in revitalising the local community. We can use those funds to look at other projects in the future. This building is not £12.5 million down the drain. It is an investment. It represents the vision of Wales for the future. I am afraid that those who oppose it have no vision.

Alison Halford: I am saddened that this debate has been rehearsed over and over again. I know it is important, but we only have so much time for Plenary sessions. It is costly for us to sit here. Many of us travel from north Wales and that eats into our hours. The Tories have had enough of this debate and the time has come to move on. We have listened long and their dog in the manger attitude to talking about the children's hospital has to be put to bed. There are other important issues to discuss.

Carwyn Jones: A oedd ef yn gyfrifol neu mewn rhyw fodd yn gyfrifol? Pa un yw hi—un ffordd neu'r llall? [AELODAU CEIDWADOL: 'Cyfrifol, cyfrifol.'] Yr wyf yn clywed rhywfaint o siantio ar y dde imi.

Nid oeddwn wedi sylweddoli mai Syr Ray Powell, AS dros Ogwr, oedd y person a reolai'r gwariant hwn ac a wnaeth y penderfyniad yn y Senedd. Y pwynt yw fod y penderfyniad wedi'i gefnogi gan yr Aelodau Ceidwadol yn y Senedd.

Ieuan Wyn Jones: I sicrhau cywirdeb y cofnod, y Ceidwadwr Syr Sydney Chapman yw cadeirydd y prosiect adeiladu hwnnw.

Carwyn Jones: Collwyd biliynau o bunnoedd am fod Railtrack wedi'i werthu am bris rhy isel. Petai cyngor lleol wedi gwneud hynny, byddent wedi gorfod talu tâl ychwanegol. Yr ydym yn sôn am ffigwr o £12.5 miliwn, a gaiff ei wario ar adeilad a fydd yn dod â phobl i mewn i'r Bae ac yn galluogi pobl i weld democratiaeth ar waith, sy'n amhosib yn San Steffan i raddau helaeth. Bydd yn dod ag arian i mewn i'r ardal. Bydd pobl yn dod i weld yr ardal a'r adeilad. Caiff arian ei wario ar adfywio'r gymuned leol. Gallwn ddefnyddio'r arian hwnnw i edrych ar brosiectau eraill yn y dyfodol. Nid £12.5 miliwn i lawr y draen yw'r adeilad hwn. Mae'n fuddsoddiad. Mae'n cynrychioli gweledigaeth Cymru ar gyfer y dyfodol. Mae gennyf ofn nad oes gweledigaeth gan y rhai sy'n ei wrthwynebu.

Alison Halford: Mae'n fy nhristáu fod y ddadl hon wedi'i hymarfer dro ar ôl tro. Yr wyf yn gwybod ei bod yn bwysig, ond dim ond hyn-a-hyn o amser sydd gennym ar gyfer sesiynau Llawn. Mae'n gostus inni eistedd yma. Mae llawer ohonom yn teithio o'r gogledd ac mae hynny'n llyncu oriau. Cafodd y Torïaid ddigon o'r ddadl hon a daeth yn bryd symud ymlaen. Yr ydym wedi gwrando'n hir ac mae'n rhaid i'w hagwedd ci-yn-y-preseb at siarad am yr ysbyty plant gael ei roi i'w wely. Mae materion pwysig eraill i'w trafod.

Richard Edwards: It is unfortunate that the Chamber is this building's worst feature. It has been likened to an underground car park. Vision is poor, space is cramped, public accessibility is minimal and Helen Mary is hidden by pillars, but not from me Helen. I can see you very well.

The Chamber is the public image of the Assembly and it is important that we get it right. Of course the Tories do not care about that. I say to the Tories, you lost the general election and the referendum, eight seats out of nine are due to a proportional representation system you do not believe in. You are drawing salaries and expenses that you do not believe you should have. For God's sake, grow up. Treat the people you represent with respect, and start engaging constructively with the devolution process.

Richard Edwards: Mae'n anffodus mai'r Siambr yw nodwedd waethaf yr adeilad hwn. Cafodd ei chyffelybu i faes parcio tanddaearol. Mae'n anodd gweld, mae'r lle'n gyfyng, ychydig o fynediad cyhoeddus sydd ac mae Helen Mary wedi ei chuddio gan bileri, ond nid oddi wrthyf fi Helen. Fe allaf i eich gweld yn dda iawn.
Y Siambr yw delwedd gyhoeddus y Cynulliad ac mae'n bwysig ei bod yn iawn. Wrth gwrs nid yw'r Torïaid yn malio am hynny. Dywedaf wrth y Torïaid, fe gollsoch yr etholiad cyffredinol a'r refferendwm, mae wyth o'r naw sedd sydd gennych wedi'u hennill drwy gynrychiolaeth gyfrannol, system nad ydych chi'n credu ynddi. Yr ydych yn tynnu cyflogau a threuliau nad ydych yn credu y dylech eu cael. Er mwyn Duw, tyfwch i fyny. Triniwch y bobl yr ydych yn eu cynrychioli â pharch, a dechreuwch ymroi yn adeiladol i'r broses ddatganoli.

Rod Richards: The motion asks for the development of the building project to remain within the cost parameters that are to be established. I ask the First Secretary what those cost parameters are, and if one of the cost parameters is the actual cost of the new building, will he guarantee that it will not go over the £12.5 million that he mentioned earlier? I refer him to a paper from his own management services divison dated June 1999. It says:

'Whilst the competition submission designs can still be completed for the £12 million, the overall impact of the proposed changes, the external works and the areas overlooked would increase the costs to almost £16 million. This higher figure would take the overall capital cost of establishing the Assembly beyond £20 million.'

I am also concerned that the motion suggests that a new policy steering group should be set up to take this project forward so that we can have this inclusiveness, this all-party agreement, this common ownership of Government policy, which I do not much care for. I am concerned that this is delegating powers from the Assembly to this policy steering group so that it can go beyond

Rod Richards: Mae'r cynnig yn gofyn am i ddatblygiad y prosiect adeiladu gadw o fewn y paramedrau cost a sefydlir. Gofynnaf i'r Prif Ysgrifennydd beth yw'r paramedrau cost hynny, ac os mai un o'r paramedrau cost yw cost wirioneddol yr adeilad newydd, a wnaiff ef warantu nad aiff dros y £12.5 miliwn a grybwyllodd yn gynharach? Hoffwn gyfeirio'i sylw at bapur o'i adran wasanaethau rheoli ei hun dyddiedig Mehefin 1999. Mae'n dweud:

'Whilst the competition submission designs can still be completed for the £12 million, the overall impact of the proposed changes, the external works and the areas overlooked would increase the costs to almost £16 million. This higher figure would take the overall capital cost of establishing the Assembly beyond £20 million.'

Yr wyf hefyd yn bryderus fod y cynnig yn awgrymu y dylid sefydlu grŵp llywio polisi newydd i fynd â'r prosiect hwn ymlaen fel y gallwn sicrhau'r agwedd gynhwysol hon, y cytundeb cyd-bleidiol hwn, y gyd-berchnogaeth hon ar bolisi'r Llywodraeth, nad wyf i'n hidio rhyw lawer amdanynt. Yr wyf i'n bryderus fod hyn yn dirprwyo pwerau o'r Cynulliad i'r grŵp llywio polisi

the cost parameter of £12.5 million to £20 million.

hwn fel y gall fynd y tu hwnt i'r paramedr cost o £12.5 miliwn i £20 miliwn.

I should like the First Secretary to comment on a paper that the Permanent Secretary kindly managed to get to me this morning. The paper makes a net present value comparison between City Hall and the development of the Bay. Having spent some time as a Minister, one is always suspicious of civil servants and their timescales. I was intrigued that the comparisons that the Permanent Secretary made in his paper were over a period of 17 years. That includes two years before the completion of the proposed new building. Would you explain why 17 years was chosen for a net present value comparison and not perhaps a longer period, which some might have thought would be more appropriate?

Hoffwn i'r Prif Ysgrifennydd roi ei sylwadau ar bapur y bu'r Ysgrifennydd Parhaol mor garedig â'i gael imi y bore yma. Mae'r papur yn gwneud cymhariaeth rhwng gwerth presennol net Neuadd y Ddinas a datblygiad y Bae. Wedi treulio cyfnod fel Gweinidog, mae dyn bob amser yn amheus o weision sifil a'u hamserlenni. Yr oedd yn hynod ddifyr i mi fod y cymariaethau a wnai'r Ysgrifennydd Parhaol yn ei bapur yn ymestyn dros gyfnod o 17 mlynedd. Mae hynny'n cynnwys dwy flynedd cyn cwblhau'r adeilad newydd arfaethedig. A fyddech chi'n esbonio pam y dewiswyd 17 mlynedd i wneud cymhariaeth gwerth presennol net ac nid efallai gyfnod hirach, a fuasai ym marn rhai pobl yn fwy priodol?

I am intrigued that the costs of the Pierhead Building were itemised under the development of City Hall in the comparison the Permanent Secretary made, yet I distinctly heard the First Secretary say that the Pierhead Building will be used in the Bay development. There seems to be an item under the costings for City Hall in the wrong place.

Yr wyf yn chwilfrydig ynghylch y ffaith y cafodd costau Adeilad Pierhead eu heitemeiddio dan ddatblygiad Neuadd y Ddinas yn y gymhariaeth a wnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, er imi glywed y Prif Ysgrifennydd yn dweud yn glir y defnyddir Adeilad Pierhead yn natblygiad y Bae. Mae'n ymddangos fod eitem wedi'i rhoi yn y lle anghywir o dan y costau am Neuadd y Ddinas.

Also on the costings issue, why is it that the current and disposal costs of Cathays Park 1 are not included in any of the calculations? After all, the building is still there and the First Secretary has an office there. His office is approximately twice as big as the office Michael Heseltine had when he was Deputy Prime Minister. I understand that the other eight Cabinet Secretaries have offices there as well. Is this building needed or could it be disposed of?

Hefyd ar fater y costiadau, pam nad yw costau cyfredol a chostau gwaredu Parc Cathays 1 wedi'u cynnwys yn unlle yn y cyfrifiadau? Wedi'r cyfan, mae'r adeilad yn dal yno ac mae gan y Prif Ysgrifennydd swyddfa yno. Mae ei swyddfa oddeutu ddwbl maint y swyddfa oedd gan Michael Heseltine pan oedd hwnnw'n Ddirprwy Brif Weinidog. Yr wyf yn deall fod gan yr wyth Ysgrifennydd Cabinet arall swyddfeydd yno hefyd. A oes angen yr adeilad hwn ynteu a ellid ei werthu?

There will be a HTV programme on Thursday called 'Wales This Week', which looks carefully at some of the figures that the Government has published thus far. The programme asks whether the Government is telling the truth, the whole truth and nothing but the truth or has it in fact kept many of these cost details hidden not only from the

Bydd rhaglen ar HTV nos Iau o'r enw 'Wales This Week', sy'n edrych yn fanwl ar rai o'r ffigyrau a gyhoeddodd y Llywodraeth hyd yn hyn. Mae'r rhaglen yn holi a yw'r Llywodraeth yn dweud y gwir, yr holl wir a'r gwir yn unig ynteu a ydyw mewn gwirionedd wedi cuddio llawer o'r manylion cost hyn nid yn unig oddi wrth y Cynulliad ond, yn

Assembly but, more importantly, from the taxpayer? It is clear that the decision to go for a new building in Cardiff Bay is linked to the problem of the disposal of Crickhowell House. It was a political decision taken for political reasons, not for the reasons that the First Secretary gave.

bwysicach, oddi wrth y trethdalwr? Mae'n eglur fod y penderfyniad i fynd am adeilad newydd ym Mae Caerdydd yn gysylltiedig â'r broblem o werthu Tŷ Crucywel. Penderfyniad gwleidyddol ydoedd a gymerwyd am resymau gwleidyddol, nid am y rhesymau a roddwyd gan y Prif Ysgrifennydd.

The First Secretary: It has been an interesting and revealing debate. I started off being impressed by Nick Bourne's willingness to accept an intellectual challenge and try to explain away nearly two decades of Tory damage to the NHS in Wales, as well as general neglect of our children through that period by his party. During this debate, the Conservatives have tried to introduce an element of confusion over the figures. It has struck me again that Rod Richards is better at asking questions than he was at answering them when he was a Minister.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae wedi bod yn ddadl ddiddorol a dadlennol. Dechreuais drwy edmygu parodrwydd Nick Bourne i dderbyn her ddeallusol a cheisio egluro bron i ddau ddegawd o niweidio'r NHS yng Nghymru gan y Torïaid, yn ogystal â'r modd yr esgeuluswyd ein plant yn gyffredinol drwy gydol y cyfnod hwnnw gan ei blaid. Yn ystod y ddadl hon, ceisiodd y Ceidwadwyr gyflwyno elfen o ddryswch dros y ffigyrau. Mae wedi fy nharo i eto fod Rod Richards yn well am ofyn cwestiynau nag yr ydoedd am eu hateb pan oedd yn Weinidog.

The simple response to his question about the possibility of rising costs is that if you add more facilities and requirements and expense, then it will cost more. If you do not and if we keep the cost within limits, and I believe we have to exercise discipline over the cost of the scheme, then you keep the cost within limit. The figures are simple. The £19.7 million was the figure mentioned at the time of the legislation. That is divided between the £7.2 million for Crickhowell House and the adaptations for the Chamber that we are in now and the £12.5 million, which is the figure that I have mentioned and will continue to mention as the figure for the new building. Rod asked about a number of other matters to do with the finances, including a rather obscure question about Crickhowell House. Crickhowell House was constructed during the last administration and taken on by the Welsh Office. It is part of our inheritance and that must have been part of the decision to make use of it. The disposal or use of the building are balancing factors in any figures.

Yr ateb syml i'w gwestiwn ynglŷn â'r posibilrwydd o gostau cynyddol yw os ychwanegwch chi fwy o gyfleusterau a gofynion a threuliau, yna bydd yn costio mwy. Os na wnewch ac os ydym yn cadw'r gost o fewn terfynau, ac yr wyf yn credu fod yn rhaid inni arfer disgyblaeth dros gost y cynllun, yna byddwch yn cadw'r gost o fewn y terfyn. Mae'r ffigyrau'n syml. £19.7 miliwn oedd y ffigwr a grybwyllwyd adeg y ddeddfwriaeth. Mae hynny wedi'i rannu rhwng y £7.2 miliwn am Dŷ Crucywel a'r addasiadau i'r Siambr yr ydym ynddi ar hyn o bryd a'r £12.5 miliwn, sef y ffigwr a grybwyllais ac y byddaf yn dal i'w grybwyll fel y ffigwr ar gyfer yr adeilad newydd. Holodd Rod ynghylch nifer o faterion eraill yn ymwneud â'r cyllid, gan gynnwys cwestiwn tywyll braidd am Dŷ Crucywel. Adeiladwyd Tŷ Crucywel yn ystod y weinyddiaeth ddiwethaf a'i gymryd ymlaen gan y Swyddfa Gymreig. Mae'n rhan o'n gwaddol ac mae'n siwr fod hynny'n rhan o'r penderfyniad i'w ddefnyddio. Mae gwerthu neu ddefnyddio'r adeilad yn ffactorau cydbwyso mewn unrhyw ffigyrau.

3:59 p.m.

Rod Richards: I want to go back to the net

Rod Richards: Mae arnaf i eisiau mynd yn

present value comparison and the period of 17 years. Will he comment on the cost of keeping Crickhowell House with that of the new building and on the figures the Permanent Secretary gave me, which related to comparisons over 17 years?

ôl at y gymhariaeth gwerth presennol net a'r cyfnod o 17 mlynedd. A wnaiff ef roi sylw ar y gost o gadw Tŷ Crucywel gyda chost yr adeilad newydd ac ar y ffigyrau a roddodd yr Ysgrifennydd Parhaol imi, yr oedd a wnelont â chymariaethau dros 17 mlynedd?

The First Secretary: It would be interesting for Rod to reflect on the wriggling that went on when Ministers were asked questions about Crickhowell House when he was in Government.

Y Prif Ysgrifennydd: Byddai'n ddiddorol i Rod feddwl yn ôl at y gwingo a gafwyd pan holwyd Gweinidogion ynglŷn â Thŷ Crucywel pan oedd ef yn y Llywodraeth.

Rod Richards: I am asking you now.

Rod Richards: Fi sy'n eich holi chi yn awr.

The First Secretary: I know you are. That is what I am saying: you are better at asking questions than you ever were at answering them because we never got to the bottom of what was going on at that time. There would be many people interested in hearing your answers about that period.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn gwybod hynny. Dyna beth yr wyf yn ei ddweud: eich bod yn well am ofyn cwestiynau nag a fuoch chi erioed am eu hateb, oherwydd ni chawsom ni byth i waelod yr hyn oedd yn mynd ymlaen ar y pryd. Byddai llawer o bobl â diddordeb mewn clywed eich atebion ynglŷn â'r cyfnod hwnnw.

As far as the net present value is concerned, you have the economic appraisal in the paper that was given to you. The net present cost is not the cost per year. It is the cost of the full period for the appraisal, which is 17 years in this case, representing 15 years of operation once the new building is completed. It is on that basis that a like-for-like comparison is being made. This attempt to introduce confusion over figures is part of the Conservatives failure to answer the question, 'What are they up to'? The answer to what they are up to is simple; they do not want the Assembly to work and succeed. I frequently disagree with Ieuan and Mike, but today we are choosing to vote for hope and a positive vision of the future for Wales.

O ran y gwerth presennol net, mae'r gwerthusiad economaidd gennych yn y papur a roddwyd ichi. Nid y gost y flwyddyn yw'r gost bresennol net. Yr hyn ydyw yw cost y cyfnod gwerthuso llawn, sef 17 mlynedd yn yr achos hwn, sy'n cynrychioli 15 mlynedd o weithrediad ar ôl i'r adeilad newydd gael ei gwblhau. Ar y sail honno y mae cymhariaeth tebyg-am-debyg yn cael ei gwneud. Mae'r ymgais hon i gyflwyno dryswch dros y ffigyrau yn rhan o fethiant y Ceidwadwyr i ateb y cwestiwn, 'Beth yw eu gêm nhw?' Mae'r ateb i beth yw eu gêm nhw yn syml; nid oes arnynt eisiau i'r Cynulliad weithio a llwyddo. Byddaf yn aml yn anghytuno gyda Ieuan a Mike, ond heddiw yr ydym yn dewis pleidleisio dros obaith a gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer dyfodol i Gymru.

I am proud of our capital city. In 1973 I became a member of a city council and authority responsible for a run-down and demoralised city, clogged with traffic, with a fine Victorian civic centre but a decayed city centre and a dying docklands. After years of hard work and partnership, we have a thriving city centre, St David's Hall and a world wide reputation. Our docklands have been regenerated, not least by the local

Yr wyf yn falch o'n prifddinas. Yn 1973 fe ddeuthum yn aelod o gyngor dinas ac awdurdod a oedd yn gyfrifol am ddinas flinedig a dienaid, wedi'i thagu gan draffig, gyda chanolfan ddinesig Fictoraidd wych ond â chanol dinas wedi nychu ac ardal ddociau yn marw. Ar ôl blynyddoedd o waith caled a phartneriaeth, mae gennym ganol dinas ffyniannus, Neuadd Dewi Sant ac enw da drwy'r byd. Adfywiwyd ein hardal ddociau,

authority building that not only generated confidence in the private sector but saved money for ratepayers. It has been a combination of public initiative and private enterprise, a partnership that is at the heart of the Assembly. It has driven the city to the position that it is in now.

nid yn lleiaf drwy adeiladu gan yr awdurdod lleol a ysgogodd hyder yn y sector preifat gan arbed arian i'r trethdalwyr. Bu'n gyfuniad o flaengarwch cyhoeddus a menter breifat, partneriaeth sydd wrth galon y Cynulliad. Mae wedi gyrru'r ddinas ymlaen i'r safle y mae hi ynddo heddiw.

Rod Richards: The First Secretary has clearly been avoiding my questions, so I will put it to him very simply. Has this Labour Government extended the lease of Crickhowell House, yes or no?

Rod Richards: Mae'r Prif Ysgrifennydd yn amlwg wedi bod yn osgoi fy nghwestiynau, felly fe'i rhoddaf iddo'n syml iawn. A ydyw'r Llywodraeth Lafur hon wedi ymestyn y brydles ar Dŷ Crucywel, do neu naddo?

The First Secretary: Not as far as I am aware. Rod asks interesting questions and I will make enquiries. I am not aware of an extension of the lease, but Rod specialises in interesting questions which are meant to divert us from the real question of whether we want to continue to build a new building which is worthy of the people of Wales. The city has become a success on the partnership between public initiative and private enterprise. As a youngster, I used to come to Cardiff from north Wales—usually for rugby—and I found it a disappointment. I want people who come to Cardiff to see democracy in Wales working and to be proud of our capital and our Assembly.

Y Prif Ysgrifennydd: Ddim hyd y gwn i. Mae Rod yn gofyn cwestiynau diddorol ac fe wnaf ymholiadau. Nid wyf yn ymwybodol o estyniad i'r brydles, ond mae Rod yn arbenigo mewn cwestiynau diddorol a fwriedir i'n cyfeirio i ffwrdd oddi wrth y gwir gwestiwn sef a ydym eisiau parhau i godi adeilad newydd sy'n deilwng o bobl Cymru. Daeth y ddinas yn llwyddiant ar sail y bartneriaeth rhwng blaengarwch cyhoeddus a menter breifat. Yn hogyn ifanc, arferwn ddod i lawr i Gaerdydd o'r gogledd—i gemau rygbi fel arfer—a'i chael yn siomiant. Mae arnaf i eisiau i bobl a ddaw i Gaerdydd weld democratiaeth yng Nghymru ar waith a bod yn falch o'n prifddinas a'n Cynulliad.

It is about creating confidence throughout Wales, and we see that in towns and cities such as Swansea and Wrexham. We also are pushing redevelopment of the economy in the rural areas of mid and west Wales. These are not alternatives but objectives that must be achieved by a confident Assembly, democratically working together to build a new Wales. That involves building a new Assembly Chamber in which our debates can continue with the maturity and the quality that Wales wants and deserves. I commend the motion to the House.

Mater ydyw o greu hyder ledled Cymru, a gwelwn hynny mewn trefi a dinasoedd fel Abertawe a Wrecsam. Yr ydym hefyd yn gwthio ailddatblygiad yr economi yn ardaloedd gwledig y canolbarth a'r gorllewin. Nid dewisiadau eraill posib yw'r rhain, ond amcanion y mae'n rhaid eu cyflawni gan Gynulliad hyderus, yn cydweithio'n ddemocrataidd i adeiladu Cymru newydd. Mae hynny'n golygu adeiladu Siambr newydd i'r Cynulliad lle gall ein trafodaethau fynd yn eu blaen gyda'r aeddfedrwydd a'r ansawdd y mae Cymru ei eisiau ac yn ei haeddu. Yr wyf yn cymeradwyo'r cynnig i'r Tŷ.

The Presiding Officer: We will now vote on the amendment.

Y Llywydd: Yn awr fe wnawn ni bleidleisio ar y gwelliant.

A vote was held by show of hands.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.

I think that the amendment is rejected.

Yr wyf yn meddwl fod y gwelliant wedi'i

wrthod.

David Davies: Could I have a recorded vote on this?

David Davies: A gaf fi bleidlais wedi'i chofnodi ar hyn?

The Presiding Officer: As I indicated with great patience last Wednesday, there is no such thing under Standing Orders as a recorded vote. There is provision to challenge when the result is doubtful. I understand the announcement is being challenged, although it did not appear to me to be doubtful.

Y Llywydd: Fel y dywedais gyda chryn amynedd ddydd Mercher diwethaf, nid oes y fath beth o dan y Rheolau Sefydlog â phleidlais wedi'i chofnodi. Y mae darpariaeth ar gyfer herio pan fo'r canlyniad yn amheus. Yr wyf yn deall fod y cyhoeddiad yn cael ei herio, er nad oedd yn ymddangos yn amheus i mi.

David Davies: I therefore ask for a confirmatory vote.

David Davies: Yr wyf yn gofyn felly am bleidlais gadarnhau.

The Presiding Officer: There has been a request for a confirmatory vote.

Y Llywydd: Cafwyd cais am bleidlais gadarnhau.

4:09 p.m.

Ron Davies: Point of order. If you allow a vote on the amendment, there is a possibility of another vote wasting more time on the substantive motion.

Ron Davies: Mater o drefn. Os byddwch yn caniatáu pleidlais ar y gwelliant, y mae posibilrwydd o bleidlais arall fydd yn gwastraffu mwy o amser ar y cynnig gwreiddiol.

The Presiding Officer: I am grateful. You raised a similar point last Wednesday for which I was equally grateful. I am assured that there will not be a further challenge.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar. Fe godoch bwynt tebyg ddydd Mercher diwethaf ac yr oeddwn yr un mor ddiolchgar bryd hynny. Mae gennyf sicrwydd na fydd her pellach.

Gareth Jones: Mater o drefn. A all David Davies ein goleuo ar sut yr oedd yn gweld y bleidlais honno yn amheus?

Gareth Jones: Point of Order. Will David Davies enlighten us as to how he saw that vote as doubtful?

Y Llywydd: Gallwn drafod hynny rywbryd eto.

The Presiding Officer: We can discuss that at some other time.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 9, Ymatal 1, Yn erbyn 43
The Assembly divided: For 9, Abstain 1, Against 43

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Richards, Rod
Rogers, Peter

Ymataliodd yr Aelod canlynol:
The following Member abstained:

Jane Davidson

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David Rhys
Marek, John
Michael, Alun
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment rejected.

The Presiding Officer: We shall now vote on the motion.

Y Llywydd: Yn awr fe bleidleisiwn ar y cynnig.

A vote was held by show of hands.
Motion adopted.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.

Datganiad ar Lid yr Ymennydd
Statement on Meningitis

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): Last week, I answered an emergency question on tragic cases of meningitis in north Wales and I referred to a report that we were expecting from the working group on meningococcal disease in Wales. I said that I would share it in the Chamber today. In fact, it was published today and you will all find copies in your pigeonholes today.

The report shows that the incidence of meningococcal disease in Wales has increased in recent years. It has been a subject of concern in this Chamber. The trend is consistent with that seen in the United Kingdom as a whole. Within the UK, Wales has a relatively high notification rate, which may reflect people being more likely to notify, but the possibility that Wales may have a higher incidence of the disease cannot be discounted. It should also be noted that the occurrence of outbreaks involving several individuals will have an impact on the data in the context of Wales' small population base.

I would like to thank the group, which was chaired by Professor Ian Cameron, provost and vice-chancellor of the University of Wales College of Medicine, for the report. It put forward a number of recommendations in the following fields relating to public concerns, which are vital to us as we represent our people: epidemiology, control measures, clinical issues and working with the media. I hope you will look at the report carefully. The working group included members from the Meningitis Research Foundation, the National Meningitis Trust, GP and nurse representatives, the chairperson of Coed-y-Lan County School in the Pontypridd area and many others. We welcome that report.

Yr Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Yr wythnos ddiwethaf, atebais gwestiwn brys ar yr achosion trist o lid yr ymennydd yn y gogledd a chyfeiriais at adroddiad yr oeddem yn ei ddisgwyl gan y gweithgor ar glefydau meningococaidd yng Nghymru. Dywedais y byddwn yn ei rannu yn y Siambr heddiw. Yn wir, cafodd ei gyhoeddi heddiw ac fe welwch gopïau yn eich tyllau llythyrau heddiw.

Mae'r adroddiad yn dangos y bu cynnydd yn yr achosion o glefyd meningococaidd yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddar. Bu'n destun pryder yn y Siambr hon. Mae'r duedd yn gyson â'r hyn a welir yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. O fewn y DU, mae gan Gymru gyfradd hysbysu gymharol uchel, a all adlewyrchu bod pobl yn fwy tebygol o hysbysu, ond ni ellir diystyru'r posibilrwydd y gall yr afiechyd fod yn digwydd yn amlach yng Nghymru. Dylid nodi hefyd y bydd y ffaith fod achosion heintus yn digwydd lle'r effeithir ar sawl unigolyn yn cael effaith ar y data yng nghyd-destun sylfaen boblogaeth fach Cymru.

Hoffwn ddiolch i'r gweithgor, a gadeiriwyd gan yr Athro Ian Cameron, prifathro ac is-ganghellor Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, am yr adroddiad. Cynigiodd nifer o argymhellion yn y meysydd canlynol o berthynas i bryderon y cyhoedd, sy'n allweddol i ni wrth inni gynrychioli'n pobl: epidemioleg, mesurau rheoli, materion clinigol a gweithio gyda'r cyfryngau. Gobeithio yr edrychwch yn ofalus ar yr adroddiad. Roedd y gweithgor yn cynnwys aelodau o Sefydliad Ymchwil Llid yr Ymennydd, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Llid yr Ymennydd, cynrychiolwyr meddygon teulu a nyrsys, cadeirydd Ysgol Sirol Coed-y-Lan yn ardal Pontypridd a llawer o rai eraill. Croesawn yr adroddiad.

Today, I have a major announcement to make, which I am sure that you will all welcome. Of all childhood diseases, parents in Wales fear meningitis or meningococcal disease the most and virtually all would seek to have their children immunised. A new vaccine giving long-lasting protection against group C meningococcal infection will be available later this year—a year earlier than expected. It will be introduced into the childhood immunisation programme as soon as possible. That announcement puts Wales and the UK in a world-leading position. The new vaccine will offer long-lasting protection against group C meningococcus, not group B. I will explain that later.

Heddiw, mae gennyf gyhoeddiad pwysig i'w wneud, un y bydd pawb ohonoch yn ei groesawu, yr wyf yn siwr. O holl glefydau plentyndod, llid yr ymennydd neu afiechyd meningococaidd yw'r un y mae rhieni yng Nghymru'n ei ofni fwyaf a byddai fwy neu lai bawb ohonynt yn dymuno i'w plant gael eu himiwneiddio. Bydd brechlyn newydd sy'n rhoi gwarchodaeth hir-barhaus yn erbyn heintiad meningococaidd grŵp C ar gael yn ddiweddarach eleni—flwyddyn yn gynt na'r disgwyl. Caiff ei gyflwyno i mewn i'r rhaglen frechu plant cyn gynted ag y bo modd. Mae'r cyhoeddiad hwnnw yn rhoi Cymru a'r DU ar y blaen drwy'r byd. Bydd y brechlyn newydd yn cynnig gwarchodaeth hir-barhaus yn erbyn meningococws grŵp C, nid grŵp B. Fe egluraf hynny maes o law.

As I said, the working group's report is being circulated to all Assembly Members. It identifies that the majority of cases are sporadic and that approximately 60 per cent are group B and 40 per cent are group C. The proportion of group C cases has risen over recent years. Those details are in the report. The figures for the group C disease in Wales confirm that the most vulnerable to this strain are those under one, followed by those aged 15 to 17 and then one to four-year-olds.

Fel y dywedais, mae adroddiad y gweithgor yn cael ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Cynulliad. Mae'n nodi bod y rhan fwyaf o achosion yn wasgarog a bod oddeutu 60 y cant yn grŵp B a 40 y cant yn grŵp C. Mae'r cyfartaledd o achosion grŵp C wedi codi yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r manylion hynny yn yr adroddiad. Mae'r ffigyrau ar gyfer y clefyd grŵp C yng Nghymru'n cadarnhau mai'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl o ddioddef y straen yma yw plant dan flwydd oed, wedyn rhai 15 i 17 oed ac wedyn rhai blwydd i bedair blwydd oed.

On current trends, the introduction of the vaccine could prevent around 30 cases each year. Targeted groups in the first phase are infants when they go for their childhood immunisations at two, three and four months and children when they go for their first dose of MMR vaccine at around 13 months. It will also be available in the first phase for young people aged 15, 16 and 17 and children over four months and under 12 months. When sufficient vaccine is available, it will be offered to students. In the interim, the most vulnerable, namely those entering university and living in halls of residence, may approach their GPs for the current vaccination. In essence, that is current practice in Wales.

Ar sail y tueddiadau presennol, gallai cyflwyno'r brechlyn atal rhyw 30 o achosion y flwyddyn. Y grwpiau a dargedir yn y cam cyntaf yw babanod pan ânt am eu brechiadau plentyndod yn ddau, tri a phedwar mis oed a phlant pan ânt am eu dos cyntaf o'r brechlyn MMR oddeutu 13 mis oed. Bydd ar gael hefyd yn y cam cyntaf i bobl ifanc 15, 16 ac 17 oed a phlant dros bedwar mis a than flwydd oed. Pan fydd digon o'r brechlyn ar gael, caiff ei gynnig i fyfyrwyr. Yn y cyfamser, gall y rhai sydd mewn mwyaf o berygl, sef rhai sy'n dechrau mewn prifysgol ac yn byw mewn neuaddau preswyl, fynd at eu meddygon teulu i gael y brechiad cyfredol. Yn ei hanfod, dyna'r arfer cyfredol yng Nghymru.

4:19 p.m.

This is the most worrying of diseases,

Dyma glefyd sy'n achosi'r pryder mwyaf,

striking children and adults unexpectedly. We published our guidance this week and a new vaccination campaign will be launched. That is good news to us all in Wales and to us in this Chamber. I hope that this will reassure colleagues and their constituents. The research for group B or strain B, as we lay people understand it, will continue. Vigilance must be at the forefront and we must all look out for signs of strain B and group C in our families, schools and communities. The report helps us with that guidance.

gan daro plant ac oedolion yn annisgwyl. Cyhoeddwyd ein canllawiau yr wythnos yma a bydd ymgyrch brechu newydd yn cael ei lansio. Mae hynny'n newyddion da inni i gyd yng Nghymru ac i ni yn y Siambr hon. Gobeithio y gwnaiff hyn dawelu meddwl cyd-Aelodau a'u hetholwyr. Bydd yr ymchwil i grŵp B, neu straen B fel yr ydym ni leygwyr yn ei ddeall, yn parhau. Rhaid bod yn wyliadwrus uwchlaw popeth a rhaid inni i gyd gadw llygad yn agored am arwyddion o straen B a grŵp C yn ein teuluoedd, ein hysgolion a'n cymunedau. Mae'r adroddiad hwn yn ein helpu gyda'r cyfarwyddyd hyn.

Whilst welcoming this new vaccine, I must also remind people that group B meningococcus will continue to cause disease. Parents must continue to be watchful and consult their GPs if they are worried about their children or themselves. In turn, GPs must continue to have a high index of suspicion and take appropriate measures when required.

Wrth groesawu'r brechlyn newydd hwn, rhaid imi atgoffa pobl hefyd y bydd meningococws grŵp B yn dal i achosi afiechyd. Rhaid i rieni ddal i fod yn wyliadwrus a chysylltu â'r meddyg teulu os ydynt yn poeni am eu plant neu eu hunain. Yn eu tro, rhaid i'r meddygon ddal i gadw mynegai amheuaeth uchel a chymryd camau priodol pan fo galw.

David Lloyd: Diolch i Jane am ddatganiad pwysig ac am ddatblygiad pwysig. Fel meddygon ac fel Aelodau'r Cynulliad, fe groesawn y datganiad.

David Lloyd: Thank you Jane for that important statement and important development. As doctors and as Assembly Members, we welcome the statement.

Yn wreiddiol, yr oedd y brechiad newydd yn erbyn straen C meningococaidd i fod i gael ei gyflwyno y flwyddyn nesaf. Croesawn felly y ffaith fod y brechiad ar gyfer plant bach a phlant o 15 mlwydd oed i 17 mlwydd oed yn dod flwyddyn yn gynnar. Y bobl ifanc hynny sydd fwyaf mewn perygl. Fe ddylem feddwl yn ddwys ynglŷn â darpariaeth ar gyfer myfyrwyr gan nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y drefn hyd yn hyn. Mae perygl arbennig i fyfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf sy'n aros mewn neuaddau preswyl yn ein prifysgolion. Dylem ailfeddwl ynghylch eu cynnwys yn rhan gyntaf y drefn gan y bydd plant bach yn cael eu himiwneiddio beth bynnag, fel rhan o'r drefn arferol.

Originally, the new vaccination against strain C meningococcal was supposed to be introduced next year. We welcome therefore the fact that this vaccination for young children and children aged 15 to 17 is coming a year early. Those young people are most at risk. We should think seriously about provision for students given that they are not included in this system as yet. There is also a high risk to students in their first year staying in halls of residence in our universities. We should reconsider including them in the first phase of the process as small children will be immunised anyway, as part of the routine programme.

Mae'n bwysig sylweddoli fod straen C meningococaidd yn newid. Y mae wedi newid ac y mae'n newid wrth inni siarad. Rhaid inni gofio bod y clefyd yn llawer mwy mileinig a chas, mae'r patrwm o achosion hefyd yn newid ac mae'n tueddu i achosi

It is important to realise that strain C meningococcal is mutating. It has mutated and is mutating as we speak. We must remember that the disease is far more virulent and nasty. The pattern of cases is also changing and it tends to appear in

clystyrau. Fel y dywedodd Jane, mae'n rhaid inni barhau i fod yn wyliadwrus am yr arwyddion, fel cleifion, pobl gyffredin, meddygon a nyrsys. Brechiad yn erbyn straen C yn unig yw hwn. Straen B sy'n dal i achosi'r rhan fwyaf o achosion o'r math meningococaidd. Mae arwyddion o lid yr ymennydd yn cynnwys y math gwaethaf o ben tost, y frech nad yw'n diflannu wrth roi pwysau arni; fe'i gelwir *'the glass slide test'* neu'r '*wine glass test'* mewn lleoedd fel Surrey.

clusters. As Jane said, we must contiune to be vigilant for the symptoms, as patients, ordinary people, doctors and nurses. This is only a vaccine against strain C. Strain B still causes most cases of the meningococcal type. Signs of meningitis include the worst types of headache, the rash that does not disappear when pressure is applied; they call it 'the glass slide test' or 'the wine glass test' in places like Surrey.

Felly, tra'n croesawu'r brechiad newydd, rhaid inni barhau i fod yn wyliadwrus, oherwydd mai brechiad yn erbyn straen C yn unig ydyw. Mae yna hefyd ystyriaethau ynglŷn â'n myfyrwyr.

Whilst we welcome this new vaccination, we must continue to be vigilant, because it is solely against strain C. There are also considerations with regard to our students.

Jane Hutt: Thank you for those important warning words. There is not enough vaccine to immunise everyone at once. According to research, that is why the priority groups must be targeted. I have mentioned that 15, 16 and 17-year-olds will be included in the first phase, so that will be important. Older students moving into their first year can go to their GPs for vaccinations. We must consider spreading the vaccine to other groups. The point that was made about strain B is important; we must be vigilant.

Jane Hutt: Diolch am y geiriau pwysig hynny o rybudd. Nid oes digon o frechlyn i imiwneiddio pawb ar unwaith. Yn ôl yr ymchwil, dyna pam y mae'n rhaid targedu'r grwpiau blaenoriaeth. Soniais y caiff plant 15, 16 ac 17 mlwydd oed eu cynnwys yn y cam cyntaf, felly bydd hynny'n bwysig. Gall myfyrwyr hŷn sy'n symud i mewn i'w blwyddyn gyntaf fynd at eu meddyg teulu am frechiad. Rhaid inni ystyried lledaenu'r brechlyn i grwpiau eraill. Yr oedd y pwynt a wnaed ynglŷn â straen B yn bwysig; mae'n rhaid inni fod yn wyliadwrus.

Publishing this report alongside the vaccination breakthrough is timely. We hope this new vaccine will have a positive impact. As you say, we must not only be vigilant, but also continue with research in relation to group B.

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'r llwyddiant gyda'r brechlyn yn amserol. Gobeithio y caiff y brechlyn newydd hwn effaith gadarnhaol. Fel y dywedwch, rhaid inni nid yn unig fod yn wyliadwrus, ond hefyd barhau gydag ymchwil yng nghyswllt grŵp B.

David Melding: On behalf of the Conservative group, I congratulate Professor Ian Cameron on producing this report. I note the recommendations and hope they are speedily implemented. I praise the Government for its rapid response to this disease, which causes so much public anxiety. The nature of its onset and its swift, often lethal consequences strike fear into the community.

David Melding: Ar ran y grŵp Ceidwadol, yr wyf yn llongyfarch yr Athro Ian Cameron ar lunio'r adroddiad hwn. Nodaf yr argymhellion a gobeithiaf y gweithredir arnynt yn fuan. Yr wyf yn canmol y Llywodraeth am ei hymateb cyflym i'r clefyd hwn, sy'n achosi cymaint o bryder ymhlith y cyhoedd. Mae'r ffordd y mae'n taro, a'i ganlyniadau sydyn, angheuol yn aml, yn achosi braw yn y gymuned.

I also support the need for public vigilance,

Yr wyf innau'n cefnogi'r angen i fod yn

particularly as group B meningitis will not be affected by the policy to immunise against group C. I have one slight reservation. In the past, health authorities have said that immunisation is sometimes not the best way to approach this question, because the efficacy of the vaccine is in some doubt. They have argued that to immunise a large population could lead to the disease becoming more virulent. I would like some response to that. If the new vaccine approach is monitored and is effective, we would be very pleased with that.

wyliadwrus, yn enwedig gan na fydd y polisi imiwneiddio yn erbyn grŵp C yn effeithio ar lid yr ymennydd grŵp B. Dim ond un amheuaeth fach sydd gennyf. Yn y gorffennol, mae awdurdodau iechyd wedi dweud nad imiwneiddio weithiau yw'r ffordd orau i ymdrin â'r cwestiwn hwn, gan fod rhywfaint o amheuaeth ynghylch effeithiolrwydd y brechlyn. Maent wedi dadlau y gallai brechu cyfran fawr o'r boblogaeth arwain at i'r clefyd fynd yn fwy ffyrnig. Hoffwn ryw ymateb i hynny. Os yw'r drefn frechu newydd am gael ei monitro a'i bod yn effeithiol, byddem yn falch iawn o hynny.

Jane Hutt: It is important to remember that this is a new vaccine. The old vaccine for strains A and C is being replaced by a new, more powerful, long-lasting vaccine. The words 'long' and 'lasting' are important. All other considerations about vaccination must be taken in light of the new vaccine for strain C. Blanket immunisation is not always recommended because, although it strikes adults over 20, there is smaller risk to them. Immunisation campaigns must be carefully considered in terms of incidence.

Jane Hutt: Mae'n bwysig cofio mai brechlyn newydd yw hwn. Mae'r hen frechlyn ar gyfer straeniau A ac C yn cael ei ddisodli gan frechlyn newydd, mwy pwerus, sy'n para'n hir. Mae'r geiriau 'para'n hir' yn bwysig. Rhaid i bob ystyriaeth arall ynghylch brechu gael eu cymryd yng ngoleuni'r brechlyn newydd ar gyfer straen C. Nid yw imiwneiddio pawb yn cael ei argymell bob tro, oherwydd er ei fod yn taro oedolion dros 20, mae'r perygl iddynt hwy yn llai. Rhaid i ymgyrchoedd imiwneiddio gael eu hystyried yn ofalus yn nhermau amlder achosion.

We must get the message across that this is a breakthrough in medical research. That must be acknowledged and welcomed today. When our babies have their vaccinations, they will have this one alongside the others. This is medical progress that must be acknowledged here today. It is very significant for children, families and adults in Wales. We must consider how we can advance our medical knowledge and how it is applied, which is critical. With that, we need the co-operation of our healthcare professionals, schools, education authorities, GPs, nurses and everyone who will help to implement this new vaccination campaign. Thank you David.

Rhaid inni gael y neges ar led fod hyn yn gam mawr ymlaen mewn ymchwil feddygol. Rhaid inni gydnabod a chroesawu hyn heddiw. Pan fydd ein babanod yn cael eu brechiadau, byddant yn cael hwn gyda'r lleill. Dyma gynnydd meddygol y mae'n rhaid ei gydnabod yma heddiw. Mae'n arwyddocaol iawn i blant, teuluoedd ac oedolion yng Nghymru. Rhaid inni ystyried sut y gallwn ni ddatblygu'n gwybodaeth feddygol a sut y caiff ei chymhwyso, sydd yn allweddol. Gyda hynny, mae arnom angen cydweithrediad ein gofalwyr iechyd proffesiynol, ysgolion, awdurdodau addysg, meddygon teulu, nyrsys a phawb a wnaiff helpu i weithredu'r ymgyrch frechu newydd yma. Diolch David.

Kirsty Williams: The Liberal Democrats welcome this report and see it as another vital piece of ammunition in our attempt to treat people and curtail this dreadful, terrifying disease. The report recommends the adoption of working measures that ensure consistency in approach. It also agreed an

Kirsty Williams: Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu'r adroddiad hwn ac yn ei weld fel arf allweddol arall yn ein hymgais i drin pobl a llesteirio'r afiechyd ofnadwy, brawychus hwn. Mae'r adroddiad yn argymell mabwysiadu mesurau gweithio sy'n sicrhau cysondeb wrth ymdrin â hyn.

unvaried approach to the early stages of diagnosis and treatment that must be agreed and adhered to.

Mae hefyd yn cytuno bod angen agwedd unffurf at gamau cynnar diagnosis a thriniaeth y mae angen cytuno arni a glynu ati.

That will go some way to allaying the fears and complaints of the people of Pontypridd, who feel that their outbreak was dealt with differently from the case in north Wales. There was concern that they had not received immunisation and that the kind of plans put in place in north Wales were not put in place for them. This report shows that we desperately need an all-Wales strategy so that no matter where we live in Wales, we can be assured of a guaranteed level of service. This will give the clinicians guidelines to work to so that they know what is expected of them. The people of Wales will then know that they will receive the best medical treatment available, wherever they live.

Fe aiff hynny beth o'r ffordd tuag at dawelu ofnau a chwynion pobl Pontypridd, sy'n teimlo i'w haint hwy gael ei thrin yn wahanol i'r achos yn y gogledd. Yr oedd pryder nad oeddent wedi cael eu himiwneiddio ac na chafodd y math o gynlluniau a sefydlwyd yn y gogledd eu sefydlu iddynt hwy. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod angen dirfawr am strategaeth i Gymru gyfan fel y gallwn fod yn sicr o lefel warantedig o wasanaeth, ble bynnag y byddom yn byw yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi canllawiau i'r clinigwyr weithio iddynt fel eu bod yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt. Wedyn bydd pobl Cymru'n gwybod y cânt y driniaeth feddygol orau sydd ar gael, lle bynnag y maent yn byw.

4:29 p.m.

Jane Hutt: We must thank Professor Cameron and his group for producing this report and we must implement it. A booklet will be produced dealing with the issues, which will be widely circulated. This is an important day. Everything is out in the open because of the Assembly. We can help to raise public awareness. By linking up with our colleagues in the health service and education, we can also convey our concern. We can explain that we are working on reports that this, on a health promotion and awareness booklet and that we have a vaccination campaign. It is a good day for the people of Wales' health.

Jane Hutt: Rhaid inni ddiolch i'r Athro Cameron a'i grŵp am lunio'r adroddiad hwn a rhaid inni weithredu arno. Cynhyrchir llyfryn yn delio â'r materion, a'i ddosbarthu'n eang. Mae heddiw'n ddiwrnod pwysig. Mae popeth allan yn yr agored oherwydd y Cynulliad. Gallwn ni helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Drwy gysylltu â'n cydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd ac addysg, gallwn hefyd gyfleu ein pryder. Gallwn egluro ein bod yn gweithio ar adroddiadau fel hwn, ar lyfryn hybu iechyd ac ymwybyddiaeth a bod gennym ymgyrch frechu. Mae'n ddiwrnod da i iechyd pobl Cymru.

Fframwaith Cyffredinol y Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol
General Framework of the National Development Strategy

Y Llywydd: Hoffwn bwysleisio mai dim ond hanner awr sydd gennym, gan fod diddordeb mawr yn y ddadl fer sydd i ddilyn. Felly, ni allaf alw mwy nag un Aelod o bob plaid a byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cyfyngu'ch sylwadau i bum munud.

The Presiding Officer: I wish to emphasise that we only have half an hour, as there is great interest in the short debate which is to follow. Therefore, I cannot call more than one Member from each party and I would be grateful if you would limit your comments to five minutes.

Rhodri Morgan: I propose that the

Rhodri Morgan: Yr wyf yn cynnig fod y

Assembly:

thanks all the partners in the European Task Force and regional partnerships for their work in drawing up proposals for the use and management of these funds post 2000;

notes the publication by the Task Force of consultative drafts of a National Economic Development Strategy, an Objective One Single Programming Document for the Valleys and West Wales and an Objective Three Operational Programme for East Wales;

encourages the widest possible participation in the consultation process which is to run until 15 September 1999.

I shall try to be as quick as possible, partly because this is our third debate on this subject in a week. The foundation stones that have been laid in that Objective 1 has been secured for 65 per cent of the population of Wales, which includes the the Valleys and west Wales. Nobody could describe that as a disappointing outcome to the lengthy negotiations. The same applies to the announcement last week that the assisted areas cover 71.5 per cent of the population of Wales. The DTI will send the announcement to Brussels. You can carp about that but you cannot complain.

Those are the foundation stones and the background to the national development strategy document and the two programme documents that accompany it. They have set us very challenging targets. It was the UK Government as a whole—virtually before this Assembly was set up—that achieved the Objective 1 settlement. Tony Blair negotiated through the night in the Berlin summit and then dashed to Llandudno to announce the details. I cannot claim the credit for those foundation stones as they were the work of the British Government. The same applies to the assisted areas announcement last week and to the national development strategy. It is an attempt to do bottom-up rather than top-down economic planning. I commend the people—

Cynulliad:

yn diolch i'r holl bartneriaid yn y Tasglu Ewropeaidd a'r partneriaethau rhanbarthol am eu gwaith yn llunio cynigion ar gyfer defnyddio a rheoli'r cronfeydd hyn wedi 2000;

yn nodi cyhoeddi gan y Tasglu ddrafftiau ymgynghorol o Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol, Dogfen Raglennu Sengl Amcan Un ar gyfer y Cymoedd a'r Gorllewin a Rhaglen Weithredol Amcan Tri ar gyfer y Dwyrain;

yn annog y cyfranogiad ehangaf posib yn y broses ymgynghori a fydd yn mynd yn ei blaen hyd 15 Medi 1999.

Fe geisiaf fod mor gyflym ag sy'n bosib, yn rhannol am mai dyma'r drydedd ddadl ar y pwnc yma yr wythnos hon. Gosodwyd y cerrig sylfaen drwy sicrhau statws Amcan 1 ar gyfer 65 y cant o boblogaeth Cymru, sy'n cynnwys y Cymoedd a'r gorllewin. Ni allai neb ddisgrifio hynny fel canlyniad siomedig i'r trafodaethau hirfaith. Mae'r un peth yn wir am y cyhoeddiad yr wythnos ddiwethaf fod yr ardaloedd cynorthwyedig yn cynnwys 71.5 y cant o boblogaeth Cymru. Bydd y DTI yn anfon y cyhoeddiad i Frwsel. Gallwch rwgnach am hynny ond ni allwch gwyno.

Dyma'r cerrig sylfaen a'r cefndir i ddogfen y strategaeth ddatblygu genedlaethol a'r ddwy ddogfen raglen a ddaw gyda hi. Maent wedi gosod targedau heriol iawn inni. Llywodraeth y DU yn ei chyfanrwydd—fwy neu lai cyn sefydlu'r Cynulliad hwn—a sicrhaodd y cytundeb ar Amcan 1. Bu Tony Blair yn negodi drwy'r nos yn uwch-gynhadledd Berlin cyn rhuthro i Landudno i gyhoeddi'r manylion. Ni allaf i hawlio'r clod am y cerrig sylfaen hynny gan mai gwaith y Llywodraeth Brydeinig oeddent. Mae'r un peth yn wir am y cyhoeddiad ynghylch ardaloedd cynorthwyedig yr wythnos ddiwethaf a'r strategaeth ddatblygu genedlaethol. Ymgais ydyw i wneud cynllunio economaidd o'r gwaelod i fyny yn hytrach nag o'r pen uchaf i lawr. Yr wyf yn cymeradwyo'r bobl—

Dafydd Wigley: Cyfeiriodd Rhodri at y datganiad a wnaethpwyd yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r map statws datblygu. A all gadarnhau y bydd y Llywodraeth yng Nghymru yn ychwanegu at y map a'r statws cyffredinol a ddiffiniwyd ar gyfer Prydain o fewn y datganiad yr wythnos diwethaf? A ddaw rhagor o fanylion ar gyfer Cymru, yn arbennig ar gyfer busnesau bach? Byddai'n gymorth pe baem yn cael gwybod, cyn cau ar gyfer yr haf, fod pecyn mwy yn dod gan y Llywodraeth.

Dafydd Wigley: Rhodri referred to the statement made last week regarding the development status map. Can he confirm that the Government in Wales will add to the map and the general status defined for Britain within last week's statement? Will there be more details for Wales, especially for small businesses? It would help to know before we break for the summer that a larger package is forthcoming from the Government.

Rhodri Morgan: Mae'r trafodaethau yn parhau yn ein hymdrech i gynnwys rhagor o ardaloedd o dan fap Amcan 2 nag y gallem dan gyfundrefn Llywodraeth Prydain lle gallwch gael grantiau ar gyfer busnes newydd neu i symud busnes i mewn. Cafwyd datganiad ar ran Lloegr ond nid ar ran Cymru yr wythnos diwethaf gan John Prescott, y Dirprwy Brif Weinidog. Siaradodd am help arbennig y tu allan i'r ardaloedd oedd ar y map. Yr ydym yn adolygu'r holl system o gymorth i fusnesau bach ac yn gwneud hynny mewn modd mwy integredig a dyfnach nag yn Lloegr. Bydd hynny'n cymryd llawer mwy o fisoedd a disgwyliwn y byddwn yn dychwelyd at y pwnc yn yr hydref. Fodd bynnag, oherwydd ein bod yn ei wneud yn well, os gallaf ymffrostio am eiliad neu ddwy, nid ydym yn gallu ei wneud yn gyntaf neu ar yr un pryd â Lloegr.

Rhodri Morgan: Discussions are continuing in our effort to include more areas under the Objective 2 map than we could under the British Government's system where you can get grants for new business or for moving businesses in. There was a statement last week on behalf on England but not on behalf of Wales, given by John Prescott, the Deputy Prime Minister. He talked about special help outside the assisted areas included on the map. We are reviewing the entire system of support for small businesses and we are doing it in a more integrated and deeper way than in England. That will take many more months and we expect to return to this subject in the autumn. However, because we are doing it better, if I can boast briefly, we cannot do it first or at the same time as England.

The approach to preparing this national plan is a bottom-up one. That is how the task force has done the job. It is courageous to have a task force representing all these separate elements in Wales, coming through with its ideas. Somebody has to integrate those ideas because they represent so many disparate elements. To be fair, the task force itself has progressed along those lines. It emphasises how you should integrate the creation of more jobs—particularly in less prosperous areas of Wales—with raising skills levels. Those establishing new firms require people who have been through the training centres and skills upgrade projects. It is the Holy Grail of economic development but we do not consider it unobtainable; we consider it a challenge. It is nothing less than

Agwedd gwaelod-i-fyny sydd wedi'i chymryd tuag at baratoi'r cynllun cenedlaethol hwn. Dyna sut y mae'r tasglu wedi gwneud y gwaith. Peth dewr yw cael tasglu i gynrychioli'r holl elfennau gwahanol hyn yng Nghymru, yn dod drwodd gyda'i syniadau. Rhaid i rywun gyfannu'r syniadau hynny am eu bod yn cynrychioli cymaint o elfennau ar-wahân. I fod yn deg, mae'r tasglu ei hun wedi gweithredu ar hyd y llinellau hynny. Mae'n pwysleisio sut y dylid cyfannu'r gwaith o greu mwy o swyddi—yn enwedig yn ardaloedd llai ffyniannus Cymru—gyda chodi lefelau sgiliau. Mae pobl sy'n sefydlu cwmnïau newydd angen pobl sydd wedi bod drwy'r canolfannau hyfforddi a'r prosiectau uwchraddio sgiliau. Dyma'r Greal Sanctaidd o safbwynt datblygu

trying to do a 'Graham Henry' on the Welsh economy, particularly on the lagging areas such as west Wales and the Valleys.

economaidd ond nid ydym yn ystyried na ellir ei gyrraedd; yr ydym yn ei ystyried yn her. Nid yw'n ddim llai nag ymgais i wneud 'Graham Henry' ar economi Cymru, yn enwedig ar yr ardaloedd sydd ar ei hôl hi fel y gorllewin a'r Cymoedd.

We are not the first country to have delivered the step change. Although its circumstances are slightly different, the Republic of Ireland has helped to show the way. We do not have all of the freedom of manoeuvre that the Republic has, but we have strengths that they do not. If the Republic of Ireland delivered that kind of step change, despite the differences, there is no reason why we could not do the same. It is a wonderful coincidence that the Assembly is creating, in political terms, a climate of hope and not fear. When the consultation period is over and this goes to Brussels, we must implement this report over the next seven or eight years. We will also replace the climate of fear with a climate of hope in the economy. That is why I commend this report to the Assembly.

Nid ni yw'r wlad gyntaf i wneud y newid. Er bod ei hamgylchiadau ychydig yn wahanol, mae Gweriniaeth Iwerddon wedi helpu i ddangos y ffordd. Nid oes gennym yr holl ryddid i symud sydd gan y Weriniaeth, ond mae gennym gryfderau nad oes ganddynt hwy. Os llwyddodd Gweriniaeth Iwerddon i gyflawni'r newid hwnnw, er gwaethaf y gwahaniaethau, nid oes dim rheswm pam na allem ni wneud yr un peth. Mae'n gyd-ddigwyddiad braf bod y Cynulliad yn creu, mewn termau gwleidyddol, hinsawdd o obaith ac nid ofn. Pan fydd y cyfnod ymgynghori ar ben a bod hyn yn mynd i Frwsel, rhaid inni weithredu'r adroddiad hwn dros y saith neu wyth mlynedd nesaf. Byddwn hefyd yn disodli'r hinsawdd o ofn gyda hinsawdd o obaith yn yr economi. Dyna pam yr wyf yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i'r Cynulliad.

Plaid Cymru's first amendment is grammatical and we accept it. We have no objection to the second amendment either and are going to accept it. However, there is a whiff of amendment for amendment's sake. Nevertheless, we do not disagree with the sentiments behind it. When Phil Williams explains what they are, I am sure that we will agree with them. With the encouraging, inclusive and all-Wales approach this afternoon, I hope not only that the debate and the consultation will go well, but that this report will turn into a finalised document when it comes in front of us again, before it goes to Brussels in October.

Mae gwelliant cyntaf Plaid Cymru yn un gramadegol ac yr ydym yn ei dderbyn. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r ail welliant chwaith ac yr ydym am ei dderbyn. Fodd bynnag, y mae rhyw naws o wella er mwyn gwella. Serch hynny, nid ydym yn anghytuno â'r teimladau y tu ôl iddo. Pan eglura Phil Williams beth ydynt, yr wyf yn siwr y byddwn yn cytuno â hwy. Gyda'r agwedd galonogol, gynhwysol a Chymru-gyfan y prynhawn yma, yr wyf yn gobeithio nid yn unig y bydd y ddadl a'r ymgynghori'n llwyddiannus, ond y bydd yr adroddiad hwn yn troi'n ddogfen derfynol pan ddaw ger ein bron eto, cyn mynd i Frwsel ym mis Hydref.

Phil Williams: I propose the following amendments. No. 1, in paragraph 1, replace 'these funds' by 'European funds'.

Phil Williams: Yr wyf yn cynnig y gwelliannau canlynol. Rhif 1, ym mharagraff 1, cyfnewid 'y cronfeydd hyn' am 'cronfeydd Ewropeaidd'.

No. 2, at the end of the motion add:

Rhif 2, ar ddiwedd y cynnig, ychwaneger:

However, we believe that for the documents to be as effective as possible it is necessary

Er hynny, yr ydym yn credu, er mwyn i'r dogfennau fod mor effeithiol â phosibl, ei

to establish a strong theme that combines the different elements in the existing material, and complements the clear analysis of the present economic difficulties of Wales with a greater emphasis on the real potential for Wales to make a significant contribution to the sustainable development of the European economy.

bod yn angenrheidiol sefydlu thema gref sy'n cyfuno'r gwahanol elfennau yn y deunydd cyfredol ac sy'n ategu'r dadansoddiad clir o anawsterau economaidd Cymru ar hyn o bryd, gyda mwy o bwyslais ar botensial real Cymru i wneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad cynaladwy yr economi Ewropeaidd.

We therefore charge the Economic Development Committee, in close co-operation with the Post-16 Education Committee, to be actively involved in the public consultation, giving special attention to those elements that were not fully represented in the Task Force, and to develop fully the case presented in the draft documents.

Yr ydym yn annog y Pwyllgor Datblygu Economaidd felly, gan gydweithio'n agos â'r Pwyllgor Addysg ar ôl 16 oed, i fod â rhan ganolog yn yr ymgynghoriad cyhoeddus gan roi sylw penodol i'r elfennau hynny na chynrychiolwyd mohonynt yn llawn yn y Tasglu, ac i ddatblygu'r achos a gyflwynwyd yn y dogfennau drafft yn llawn.

Nobody can disagree with the motion. We must thank the hundreds of people who have worked hard. We must at least note the eventual publication after many delays and encourage the widest participation. However, it is not enough. In this report, there are many good points and lots of useful detailed material, but the overall impression is sometimes disappointing. Everyone knows in their hearts that there is still work to be done. Wales has every reason to be grateful that the Assembly exists to ensure that the work is done. I think that it was Ann Jones who said in the Economic Development Committee that these are the most important documents we will ever set our eyes upon. It is not acceptable to go on holiday at the weekend and come back in mid-September expecting the work to have been done.

Ni all neb anghytuno â'r cynnig. Rhaid inni ddiolch i'r cannoedd o bobl sydd wedi gweithio'n galed. Rhaid inni o leiaf nodi y cyhoeddiad o'r diwedd ar ôl oedi lawer gwaith ac annog cyfranogiad o bob tu. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon da. Yn yr adroddiad hwn, ceir llawer o bwyntiau da a llawer o ddeunydd manwl defnyddiol, ond mae'r argraff gyffredinol weithiau'n siomedig. Mae pawb yn gwybod yn eu calonnau fod gwaith i'w wneud o hyd. Mae gan Gymru bob rheswm i ddiolch fod y Cynulliad yn bodoli i sicrhau y caiff y gwaith ei wneud. Yr wyf yn meddwl mai Ann Jones a ddywedodd yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd mai'r rhain yw'r dogfennau pwysicaf yr edrychwn arnynt byth. Nid yw'n dderbyniol mynd ar wyliau y penwythnos yma a dod yn ôl yng nghanol Medi gan ddisgwyl y bydd y gwaith wedi'i wneud.

4:39 p.m.

Helen Mary Jones: Do you agree that the debate on these important documents has been curtailed by unnecessary nonsense earlier on?

Helen Mary Jones: A ydych chi'n cytuno fod y ddadl ar y dogfennau pwysig hyn wedi'i chwtogi gan nonsens di-angen yn gynharach?

Phil Williams: I do. The total budget involved must be 200 times the size of the Assembly budget. We should have—

Phil Williams: Ydw. Mae'n siwr fod y cyfanswm cyllideb dan sylw 200 gwaith yn fwy na chyllideb y Cynulliad. Dylem fod wedi—

Alun Cairns: Point of order. Is part of the

Alun Cairns: Mater o drefn. A yw rhan o'r

restriction of this debate due to many Members insisting upon working family-friendly hours?

cyfyngiad ar y ddadl hon i'w briodoli i lawer o Aelodau'n mynnu gweithio oriau cyfeillgar i deuluoedd?

The Presiding Officer: That is not an acceptable point of order. The family-friendly hours are laid down in Standing Orders as a result of the National Assembly Advisory Group's report. I am charged with protecting those hours in the interests of Members' families and of Assembly staff who work hard and who work long hours such as the Record of Proceedings team, the clerks and the translators.

Y Llywydd: Nid yw hwnnw'n dderbyniol fel mater o drefn. Mae'r oriau cyfeillgar i deuluoedd wedi'u pennu yn y Rheolau Sefydlog yn sgîl adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol. Fy nyletswydd i yw gwarchod yr oriau hynny er lles teuluoedd Aelodau a staff y Cynulliad sy'n gweithio'n galed ac yn gweithio oriau hir, fel tîm y Cofnod, y clercod a'r cyfieithwyr.

Phil Williams: I will concentrate on the national economic development strategy. In a logical procedure, this is a strategy that should have been finalised long before writing the single programme documents. In the spirit of inclusiveness, I will not go over the past. I will say simply that there are failures in it that the Assembly must remedy. There are three weaknesses that we can and must correct.

Phil Williams: Fe ganolbwyntiaf ar y strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol. Mewn gweithdrefn resymegol, strategaeth yw hon y dylid bod wedi'i chwblhau ymhell cyn ysgrifennu dogfennau'r rhaglenni unigol. Yn yr ysbryd gynhwysol, ni wnaf rygnu am y gorffennol. Y cwbl a ddywedaf yw bod ynddi wallau y mae'n rhaid i'r Cynulliad eu hunioni. Y mae tri gwendid y gallwn ac y mae'n rhaid inni eu cywiro.

The most serious weakness is the lack of a strong, unifying theme that makes a compelling case. We must establish a strong theme that combines all the best elements in the existing material; a theme that tackles our problems within a global context. Yet, that theme is already in the document, waiting to be given a proper emphasis. It is one of the nine themes listed in chapter 3. It is a theme that links the development strategy with the Assembly's functions, as set out in the Government of Wales Act 1998. It is our duty to promote sustainable development. A proper emphasis on sustainable development is a theme that will transform these documents and show how Wales can make a maximum contribution to the future economy of Europe.

Y gwendid mwyaf difrifol yw diffyg thema gref, unol sy'n creu achos cymhellol. Rhaid inni sefydlu thema gref sy'n cyfuno'r elfennau gorau yn y deunydd presennol; thema sy'n ymdrin â'n problemau o fewn cyd-destun byd-eang. Eto, mae'r thema honno eisoes yn y ddogfen, yn aros i gael y pwyslais priodol. Mae'n un o'r naw thema a restrir ym mhennod 3. Mae'n thema sy'n cysylltu'r strategaeth ddatblygu â swyddogaethau'r Cynulliad, fel y'u hamlinellir yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Ein dyletswydd ni yw hyrwyddo datblygiad cynaladwy. Mae pwyslais priodol ar ddatblygiad cynaladwy yn thema a fydd yn trawsnewid y dogfennau hyn ac yn dangos sut y gall Cymru wneud y cyfraniad mwyaf posib i economi Ewrop yn y dyfodol.

Val Feld: I draw your attention to the requirements from the European Commission that there be four cross-cutting themes: sustainability, equal opportunities, employability and adaptability. These have to run through all European programmes, particularly Objective 1. Do you agree that it

Val Feld: Tynnaf eich sylw at ofynion y Comisiwn Ewropeaidd am bedair thema traws-gysylltiol: cynaladwyedd, cyfle cyfartal, cyflogadwyedd a gallu i addasu. Rhaid i'r rhain redeg drwy bob rhaglen Ewropeaidd, yn enwedig Amcan 1. A ydych chi'n cytuno mai gwaith y Pwyllgor

is the Economic Development Committee's job to scrutinise the cross-cutting themes to determine priorities and ensure that the measures in place will tackle gross domestic product?

Datblygu Economaidd yw archwilio'r themâu trawsgysylltiol i bennu blaenoriaethau a sicrhau y bydd y mesurau sydd yn eu lle'n ymdrin â chynnyrch mewnwladol crynswth?

Phil Williams: A full development of sustainability requires adaptability, gives full opportunities to different parts and spreads prosperity. To an extent, it is the prime theme that can deliver most of the objectives.

Phil Williams: Mae datblygu cynaladwyedd yn llawn yn gofyn am allu i addasu, yn rhoi cyfleoedd llawn i wahanol rannau ac yn lledaenu ffyniant. I raddau, dyma'r brif thema a all gyflawni'r rhan fwyaf o'r amcanion.

There is a problem in the definition of the term 'sustainable development' as it has three different meanings. There is an old changing meaning of sustainable economic growth that refers to steady growth in a managed economy; a process that smoothes out the traditional stop and go. That is an important aim and not a trivial matter.

Y mae problem yn y diffiniad o'r term 'datblygiad cynaladwy' gan fod ganddo dri ystyr gwahanol. Mae yna hen ystyr newidiol o dwf economaidd cynaladwy sy'n cyfeirio at dwf cyson mewn economi dan reolaeth; proses sy'n esmwytho'r drefn stop a chychwyn draddodiadol. Mae hynny'n nod pwysig ac nid yn fater dibwys.

The second definition is that it is development that can be stimulated by external support to become self-sustaining and continue after external funding has come to an end. That is an important aspect in making a case to the European Union because the hope is that we will become eligible for Objective 1.

Yr ail ddiffiniad yw mai datblygiad ydyw y gellir ei ysgogi gan gefnogaeth allanol i fynd yn hunan-gynhaliol a pharhau wedi i'r cyllid allanol ddod i ben. Mae hynny'n agwedd bwysig wrth wneud achos i'r Undeb Ewropeaidd, gan mai'r gobaith yw y byddwn yn gymwys ar gyfer Amcan 1.

The third meaning is the most important as we enter the next century and it is not given enough emphasis. We must find a form of economic and social life that can continue indefinitely within the finite limits of the planet. The whole world faces the challenge of making a profound transformation from an economic pattern that is exhausting resources while making irreversible changes to the global environment. This is not merely a question of protecting our natural and built environment in Wales, important though it is.

Y trydydd ystyr yw'r pwysicaf wrth inni symud i mewn i'r ganrif nesaf, ac nid yw'n cael digon o bwyslais. Rhaid inni ganfod ffurf ar fywyd economaidd a chymdeithasol sy'n gallu parhau'n ddiddiwedd o fewn terfynau penodol y blaned. Mae'r byd cyfan yn wynebu'r her o wneud trawsnewid sylfaenol oddi wrth batrwm economaidd sy'n dihysbyddu adnoddau tra'n gwneud newidiadau di-droi'n-ôl i'r amgylchedd byd-eang. Nid dim ond cwestiwn o warchod ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig yng Nghymru yw hyn, er pwysiced yw hynny.

I live in a beautiful valley, rich in flowers and bird life where the red kites are returning in force. It would be easy to be complacent and forget that global imperatives require a more profound transformation than a mere increased concern for our local environment. My background is in space and atmospheric physics and, as a scientist, I insist that

Yr wyf yn byw mewn dyffryn prydferth, cyfoethog o ran blodau ac adar, lle mae'r barcud coch yn dod yn ei ôl yn gryf. Byddai'n hawdd llaesu dwylo ac anghofio bod gofynion y ddaear yn hawlio trawsnewid dyfnach na dim ond mwy o bryder am ein hamgylchedd lleol. Y gofod a ffiseg atmosfferaidd yw fy nghefndir i, ac, fel

sustainable development does not allow an increase in the average level of carbon dioxide beyond a limit we are fast approaching. That demands a cut of more than 50 per cent in the present level of carbon dioxide production. If you interpret that in its global effect, there will be a wholesale transfer of energy production from fossil fuels to non-polluting renewables. That transformation will create massive, new and profitable industries with an opportunity to establish widespread export links, which is good news for Wales.

gwyddonydd, yr wyf yn bendant nad yw datblygiad cynaladwy'n caniatáu cynnydd yng nghyfartaledd lefelau carbon deuocsid y tu hwnt i derfyn yr ydym yn nesu ato'n gyflym. Mae hynny'n galw am dorri dros 50 y cant yn y lefel bresennol o gynhyrchu carbon deuocsid. Os dehonglwch hynny yn ei effaith fyd-eang, bydd trawsnewid ar raddfa eang o gynhyrchu ynni o danwydd ffosil i ddefnyddiau adnewyddadwy di-lygredd. Bydd y trawsnewid hwnnw'n creu diwydiannau anferth, newydd a phroffidiol gyda chyfle i sefydlu cysylltiadau allforio eang, sy'n newyddion da i Gymru.

Wales is geographically ideal for hosting the prototype of that shift. With the geographical factors and the well-established university sector in engineering, we have all the ingredients. Only 15 lines are given in the document to getting the development strategy, something that will undoubtedly be one of the fastest growing industries in the world over the next 20 years. This is an industry where Wales has unique potential and where development is appropriate for support from European funds.

Mae Cymru'n ddaearyddol ddelfrydol ar gyfer cartrefu'r prototeip i'r symudiad hwnnw. Gyda'r ffactorau daearyddol a'r sector prifysgol sydd wedi hen ymsefydlu mewn peirianneg, mae'r holl gynhwysion gennym ni. Dim ond 15 llinell a roddir yn y ddogfen i gael y strategaeth ddatblygu, rhywbeth a fydd yn ddi-os yn un o'r diwydiannau sy'n tyfu gyflymaf yn y byd dros yr 20 mlynedd nesaf. Dyma ddiwydiant lle mae gan Gymru botensial unigryw a lle mae datblygiad yn briodol i dderbyn cymorth o gronfeydd Ewropeaidd.

Sustainable development also requires that, wherever possible, we replace part of the increasing level of road traffic with the transport of information. Information and communication technology is emphasised in the document as a way of helping small and medium sized enterprises, especially in rural areas. This is important. However, there is little sense of the huge revolution that real board-bound communication is bringing. It is a revolution that brings a truly sustainable knowledge-based economy where, at a stroke, no part of Wales is remote and where it is possible for young people to follow careers at the highest level without leaving Wales.

Mae datblygiad cynaladwy yn mynnu hefyd ein bod, lle bynnag y bo modd, yn disodli rhan o'r lefel gynyddol o draffig ar y ffyrdd gyda throsglwyddo gwybodaeth. Pwysleisir technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y ddogfen fel ffordd i helpu mentrau bach a chanolig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn bwysig. Fodd bynnag, ychydig o deimlad sydd o'r chwyldro enfawr a ddaw yn sgîl cyfathrebu gwirioneddol drwy fwrdd. Mae'n chwyldro sy'n cyflwyno economi gwir gynaladwy seiliedig ar wybodaeth, lle, ar amrantiad, nad oes unrhyw ran o Gymru'n anghysbell a lle mae'n bosib i bobl ifanc ddilyn gyrfaoedd ar y lefel uchaf heb adael Cymru.

In this context, it is not irrelevant that auto-electronics is another industry that is bound to grow rapidly in the next 20 years. It is an industry where Wales already has a world lead. The potential benefits to Wales are so varied, far-reaching and integrate so many aspects of the whole strategy that the

Yn y cyd-destun hwn, nid yw'n amherthnasol fod awto-electroneg yn ddiwydiant arall sy'n sicr o dyfu'n gyflym dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n ddiwydiant lle mae Cymru eisoes yn arwain y byd. Mae'r manteision posib i Gymru mor amrywiol a phellgyrhaeddol ac yn integreiddio cymaint o

industry should be given a more central position.

Apart from making a good and well-reasoned case, there is another reason why I stress the importance of having an overriding theme. Once it is established, it leads automatically to the next step in a successful economic strategy called sector selectivity. In every case where I have observed at close quarters the rapid economic growth of a small nation, there has always been an element of selectivity. In Finland, it was computer-controlled garment manufacturing and mobile phones. In Ireland, there has been a deliberate emphasis on computers, software engineering, call-centres and, presently, electronic commerce. We also need to pick our winners. An important consequence of sector selectivity is that it allows us to define our future needs for training in the appropriate skills. We cannot determine the future demand for skills without knowing which sectors we are planning to develop. There is an important debate on the future of training and enterprise councils and it is often expressed as a choice between supply or demand driven further education. How can we determine demand for skills without a clear idea of what sectors we seek to expand? What areas of research do we encourage in our universities? I must say in passing that—

agweddau o'r strategaeth gyfan fel y dylid rhoi safle mwy canolog i'r diwydiant.

Ar wahân i wneud achos cryf a rhesymegol, mae yna reswm arall pam yr wyf yn pwysleisio pwysigrwydd cael thema ganolog. Unwaith y'i sefydlir, bydd yn arwain yn otomatig at y cam nesaf mewn strategaeth economaidd lwyddiannus sef detholedd sector. Ym mhob achos lle astudiais dwf economaidd cyflym cenedl fechan, bu elfen o ddetholedd bob tro. Yn y Ffindir, arbenigwyd ar wneud dillad dan reolaeth cyfrifiadur a theliffonau symudol. Yn Iwerddon, bu pwyslais bwriadol ar gyfrifiaduron, peirianneg meddalwedd, canolfannau galw ac, ar hyn o bryd, masnach electronig. Mae angen i ninnau ddewis ein henillwyr. Un o ganlyniadau pwysig dethol sectorau yw ei fod yn caniatáu inni ddiffinio'n hanghenion i'r dyfodol am hyfforddiant yn y sgiliau priodol. Ni allwn bennu'r galw a fydd am sgiliau heb wybod pa sectorau yr ydym yn bwriadu eu datblygu. Y mae dadl bwysig ar ddyfodol cynghorau hyfforddiant a menter, ac fe'i mynegir yn aml fel dewis rhwng addysg bellach wedi'i gyrru gan y cyflenwad neu gan y galw. Sut allwn ni benderfynu beth yw'r galw am sgiliau heb syniad clir o ba sectorau yr ydym am eu hehangu? Pa feysydd ymchwil fyddwn ni'n eu hannog yn ein prifysgolion? Rhaid imi ddweud wrth basio fod—

The Presiding Officer: Order. There is not much time to say anything in passing as I hope to call Alun Cairns in two minutes if possible.

Y Llywydd: Trefn. Nid oes llawer o amser i ddweud dim wrth basio gan fy mod yn gobeithio galw Alun Cairns mewn dau funud os gallaf.

Phil Williams: It is disappointing that there is no serious mention of the university sector. I want to end on a positive note. The third criticism of the development strategy in making the case is that the document concentrates almost entirely on negatives. The first two pages make depressing reading: a country of low average income, low activity rate, low productivity, few entrepreneurs, poor education performance, low skills, low levels of research and development, poor housing, poor health and high crime rate. All these factors are true but they are not the whole truth. There is a positive side that needs to be emphasised. It

Phil Williams: Mae'n siomedig nad oes crybwyll difrifol i'r sector prifysgolion. Yr wyf am orffen ar nodyn difrifol. Y drydedd feirniadaeth ar y strategaeth ddatblygu i wneud yr achos yw fod y ddogfen yn canolbwyntio bron yn llwyr ar bethau negyddol. Mae'r ddau dudalen gyntaf yn ddarllen digalon: gwlad â chyfartaledd incwm isel, cyfradd weithgaredd isel, cynhyrchedd isel, ychydig o fentrwyr, perfformiad addysgol gwael, sgiliau isel, lefelau isel o ymchwil a datblygu, tai gwael, iechyd gwael a chyfradd dorcyfraith uchel. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn wir ond nid dyna'r gwir i gyd. Y mae yna ochr bositif

would have helped if the report had added in passing that, until around 20 years ago, Wales constantly sent a higher proportion of young people to universities and colleges than England. Our tradition—

sydd angen ei phwysleisio. Byddai wedi helpu petai'r adroddiad wedi nodi wrth basio fod Cymru, tan ryw 20 mlynedd yn ôl, yn gyson yn anfon cyfran uwch o bobl ifanc i brifysgolion a cholegau na Lloegr. Mae'n traddodiad—

The Presiding Officer: There is not much time left. Will you please conclude, Phil?

Y Llywydd: Nid oes llawer o amser ar ôl. Wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda, Phil?

4:49 p.m.

Phil Williams: Wales has never had poor education standards throughout our history. The problem has been the constant drain of our best talent out of Wales. The lack of high quality jobs throughout Wales is the reason for the recent drop in education standards, not the consequence of it. There has always been talent, inventiveness and skill, but these have never been developed in Wales. That is why the European funds are so important. They can help break the cycle that has served Wales badly.

Phil Williams: Ni chafodd Cymru erioed safonau addysg gwael yn ein hanes i gyd. Y broblem fu'r gwaedu cyson o'n doniau gorau allan o Gymru. Y diffyg swyddi o ansawdd da drwy Gymru yw'r rheswm dros y cwymp diweddar yn safonau addysg, nid ei ganlyniad. Bu talent, dyfeisgarwch a medrusrwydd yma o hyd, ond ni chafodd y rhain fyth eu datblygu yng Nghymru. Dyna pam y mae'r cronfeydd Ewropeaidd mor bwysig. Gallant helpu i dorri'r cylch sydd wedi gwasanaethu Cymru'n wael.

The case we must make is not that Wales is intrinsically backward and hopeless and needs to be propped up but that it is a nation with a combination of resources, virtues, talent and values which, properly developed, match the main challenge of the next century. I understand that the amendment and, more important, the spirit of it is accepted. It is important that the Economic Development Committee is involved in the consultation and discusses these issues with the Post-16 Education and Training Committee. In Ireland nearly 40 per cent of structural funds are directed to education. We need a joint meeting before February. All four parties must work together to ensure that the final document not only makes a powerful case for economic regeneration but is a source of pride for the Assembly task force and an inspiration to Wales.

Yr achos y mae'n rhaid inni ei wneud yw nid bod Cymru ynddi ei hun ar ei hôl hi ac yn anobeithiol a bod arni angen cynhaliaeth, ond ei bod yn genedl gyda chyfuniad o adnoddau, rhinweddau, doniau a gwerthoedd a fydd, o'u datblygu'n iawn, yn gweddu i brif her y ganrif nesaf. Yr wyf yn deall fod y gwelliant ac, yn bwysicach, ysbryd y gwelliant wedi ei dderbyn. Mae'n bwysig fod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ymwneud â'r ymgynghori ac yn trafod y materion hyn gyda'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16. Yn Iwerddon caiff bron 40 y cant o'r cyllid strwythurol ei gyfeirio at addysg. Mae angen cyd-gyfarfod cyn mis Chwefror. Rhaid i'r pedair plaid weithio gyda'i gilydd i sicrhau fod y ddogfen derfynol nid yn unig yn gwneud achos pwerus dros adfywio economaidd ond ei fod yn destun balchder i dasglu'r Cynulliad ac yn ysbrydoliaeth i Gymru.

Alun Cairns: There have been many political battles to date about who has been responsible for gaining Objective 1 status for the Valleys and west Wales. However, without the Conservatives' local government

Alun Cairns: Bu sawl brwydr wleidyddol hyd yma ynghylch pwy fu'n gyfrifol am sicrhau statws Amcan 1 i'r Cymoedd a'r gorllewin. Fodd bynnag, heb yr ad-drefnu llywodraeth leol dan y Ceidwadwyr, ni

reorganisation, the framework would not have been available. It is time for those battles to end and for us to seize the opportunity before us. It is not often that the UK receives anything worthwhile from Brussels, so let us ensure that this project works for the whole of Wales. Increased prosperity in some regions will help further develop others. East Wales cannot be neglected but west Wales and the Valleys must have priority.

fuasai'r fframwaith ar gael. Mae'n bryd i'r brwydrau hynny orffen ac inni gydio yn y cyfle sydd o'n blaen. Nid yn aml y derbynia'r DU unrhyw beth gwerth chweil o Frwsel, felly gadewch inni sicrhau fod y prosiect hwn yn gweithio dros Gymru gyfan. Bydd mwy o ffyniant mewn rhai rhanbarthau'n helpu i ddatblygu eraill ymhellach. Ni ellir anwybyddu'r dwyrain, ond mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i'r gorllewin a'r Cymoedd.

Val Feld: Do you agree that one of the key factors in making this programme work effectively across Wales to tackle poverty and inequality is to achieve a consensus among the organisations involved in delivering the work and determining the strategy? The task force has set out to do that. We should put a high priority on seeking to achieve political consensus in this Chamber so that we can give strong political leadership and direction to this programme as it rolls out across Wales over the next six years.

Val Feld: A ydych chi'n cytuno mai un o'r ffactorau allweddol i wneud i'r rhaglen hon weithio ar draws Cymru i fynd i'r afael â thlodi ac anghyfartaledd yw sicrhau consensws ymysg y cyrff sy'n ymwneud â chyflawni'r gwaith a phennu'r strategaeth? Mae'r tasglu wedi mynd ati i geisio gwneud hynny. Dylem roi blaenoriaeth uchel i geisio sicrhau consensws gwleidyddol yn y Siambr hon fel y gallwn roi arweiniad a chyfeiriad gwleidyddol cryf i'r rhaglen hon wrth iddi rolio allan ar draws Cymru dros y chwe blynedd nesaf.

Alun Cairns: Thank you for those comments. In supporting the motion, we will put that consensus into practice. The most important period of the Objective 1 project has now arrived. The foundations for the success of any business scheme are laid in the planning and preparation stage. The documents must be seen and interpreted as business policies—a business plan for Wales plc. They provide the blueprint for economic activity for the next 10 years. It is not about short-term political gain, as Val has already said. It should not be a political football.

Alun Cairns: Diolch am y sylwadau hynny. Wrth gefnogi'r cynnig, rhoddwn y consensws hwnnw ar waith. Mae cyfnod pwysicaf y prosiect Amcan 1 bellach wedi cyrraedd. Gosodir sylfeini llwyddiant unrhyw gynllun busnes yn y cyfnod cynllunio a pharatoi. Rhaid i'r dogfennau gael eu gweld a'u dehongli fel polisïau busnes—cynllun busnes i Gymru ccc. Maent yn darparu'r glasbrint ar gyfer gweithgaredd economaidd am y 10 mlynedd nesaf. Nid elw gwleidyddol tymor-byr sydd dan sylw, fel y dywedodd Val eisoes. Ni ddylai fod yn bêl-droed politicaidd.

Many of us may not be here in 10 years' time, when the programme comes to an end. This is about rediscovering our confidence and shaking off any feelings of insecurity. It is about reforming our culture and the misconceptions about us abroad. The documents are not for us politicians but for business people who can make this happen. Our role is to lay the base of the pyramid so that the private sector can help us reach for the pinnacle. We must create the environment for stable and long-term

Efallai na fydd llawer ohonom yma ymhen 10 mlynedd, pan ddaw'r rhaglen i ben. Y nod yma yw ailddarganfod ein hyder a diosg unrhyw deimladau o ansicrwydd. Y nod yw ailffurfio'n diwylliant a'r camargraffiadau amdanom dramor. Nid i ni wleidyddion y mae'r dogfennau, ond i bobl fusnes a all wneud i hyn ddigwydd. Ein rôl ni yw gosod sylfaen y pyramid fel y gall y sector preifat ein helpu ni i gyrraedd at y brig. Rhaid inni greu'r amgylchedd ar gyfer twf parhaus sefydlog a hirdymor. Rhaid caniatáu i'r

sustained growth. The private sector must be allowed to lead and regenerate our economy. For too long the Welsh economy has lagged behind that of the rest of the United Kingdom and Europe, with a smaller private sector, fewer start-ups and more insolvencies.

sector preifat arwain ac adfywio'n heconomi. Ers gormod o amser bu economi Cymru'n llusgo y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig ac Ewrop, gyda sector preifat llai, llai o gwmnïau newydd a mwy o gwmniau'n mynd i'r wal.

Objective 1 provides the opportunity to correct this. However, throwing money at the problem is not the answer. On first reading the documents, I felt that there were nuts and bolts missing that needed—

Mae Amcan 1 yn rhoi'r cyfle i gywiro hyn. Fodd bynnag, nid taflu arian at y broblem yw'r ateb. Wrth ddarllen y ddogfen am y tro cyntaf, teimlwn fod nytiau a bolltau ar goll a oedd angen—

The Presiding Officer: Order. Under the Protocol on Conduct in the Chamber, I have indicated that there is a time limit for this debate. I will allow you 30 seconds to conclude. I will call Christine Humphreys for one minute and then I will call Alun Michael to reply to the debate.

Y Llywydd: Trefn. Dan y Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr, yr wyf wedi nodi fod cyfyngiad amser ar y ddadl hon. Fe wnaf ganiatáu 30 eiliad ichi gloi. Byddaf yn galw Christine Humphreys am un munud ac wedyn yn galw Alun Michael i ateb i'r ddadl.

Alun Cairns: There is not enough time to expand and develop my argument. However, the recommendations made by the National Assembly Advisory Group that you have highlighted have to be abided by under Standing Orders.

Alun Cairns: Nid oes digon o amser i ymhelaethu a datblygu fy nadl. Fodd bynnag, dan y Rheolau Sefydlog mae'n rhaid glynu at yr argymhellion a wnaed gan Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol ac a bwysleisiwyd gennych chi.

My point expands on what Phil Williams has said. The big idea is missing. To bring together all of these nuts and bolts and for the engine to run in the right direction, we must have a clear path ahead. That would enable the private and public sector to pull together so that training and skill requirements work towards the same purpose. That big idea is missing from the documents. I hope consultation will bring that idea.

Mae fy mhwynt yn ymhelaethu ar yr hyn a ddywedodd Phil Williams. Mae'r syniad mawr ar goll. I ddod â'r nytiau a'r bolltau hyn i gyd ynghyd ac i yrru'r injan i'r cyfeiriad iawn, rhaid inni gael llwybr clir o'n blaen. Byddai hynny'n galluogi'r sector preifat a chyhoeddus i gyd-dynnu fel bod hyfforddiant a gofynion sgiliau'n gweithio tuag at yr un pwrpas. Mae'r syniad mawr hwnnw ar goll o'r dogfennau. Gobeithio y ceir y syniad hwnnw o'r ymgynghori.

Christine Humphreys: The Liberal Democrats feel that these documents provide a framework and signpost the way forward. However, there is much work to be done. We support the motion and the amendment and particularly the emphasis on education and training. Phil mentioned earlier that the Irish Government put about 35 to 40 per cent of their Objective 1 money into education and training. They were aware from the beginning of the importance of doing this. As a member of the Post-16 Education and Training Committee, I welcome the

Christine Humphreys: Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn teimlo bod y dogfennau hyn yn darparu fframwaith ac yn arwyddo'r ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud. Yr ydym yn cefnogi'r cynnig a'r gwelliant ac yn enwedig y pwyslais ar addysg a hyfforddiant. Soniodd Phil yn gynharach fod Llywodraeth Iwerddon yn rhoi rhyw 35 i 40 y cant o'u harian Amcan 1 i mewn i addysg a hyfforddiant. Yr oeddent yn ymwybodol o'r dechrau o bwysigrwydd gwneud hyn. Fel aelod o'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, yr wyf yn croesawu'r

suggestion that that Committee play an active role in the process with the Economic Development Committee.

awgrym y dylai'r Pwyllgor hwnnw chwarae rhan weithredol yn y broses gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd.

These documents, like the ETAG report, are bare bones. It is up to the Assembly to put the flesh on those bones. We need to address some matters, particularly the economic inactivity, as it is called, of young women for long periods because they are at home and unable to get training or education. There is a desperate need for childcare. We also need to look at how young people can both work and take courses without losing out on salaries. I also flag up our appalling record among the over 16s on generic skills, particularly communication.

Esgyrn noeth yw'r dogfennau hyn, fel adroddiad ETAG. Mater i'r Cynulliad yw rhoi'r cnawd ar yr esgyrn hynny. Mae angen inni roi sylw i rai materion, yn enwedig yr hyn a elwir yn segurdod economaidd merched ifanc am gyfnodau maith am eu bod gartref ac yn methu cael hyfforddiant nac addysg. Mae angen dirfawr am ofal plant. Mae angen hefyd inni edrych ar sut y gall pobl ifanc weithio a mynd ar gyrsiau heb golli cyflog. Yr wyf hefyd yn tynnu sylw at ein record warthus ymhlith rhai dros 16 ar sgiliau cyffredinol, yn enwedig cyfathrebu.

One of my pet issues is our attitude towards language and language learning. Some of us are becoming more and more like our neighbours over the border and think that being monoglot is cool. We need to accept that bilingualism, trilingualism, the ability to speak four languages even, is a European norm. Money must be invested in that, as it was in Ireland. The underlying need is for a qualifications framework to allow people to dip in and out of education and training throughout their lives and for funding childcare and other schemes to allow people to take up education whenever they want.

Un o fy hoff bynciau yw ein hagwedd tuag at iaith a dysgu iaith. Mae rhai ohonom yn ymdebygu fwyfwy i'n cymdogion dros y ffin ac yn meddwl bod unieithrwydd yn cŵl. Mae angen inni dderbyn fod dwyieithrwydd, tairieithrwydd, y gallu i siarad pedair iaith hyd yn oed, yn norm Ewropeaidd. Rhaid buddsoddi arian yn hynny, fel y gwnaed yn Iwerddon. Yr angen waelodol yw'r angen am fframwaith cymwysterau i ganiatáu i bobl fynd i mewn ac allan o addysg a hyfforddiant drwy gydol eu hoes, ac am gyllid i ofal plant a chynlluniau eraill i ganiatáu i bobl ymgymryd ag addysg pryd bynnag y mynnant.

The First Secretary: It is a great pity that this important debate has been cut so short. Perhaps we can learn the lesson that time is precious, as well as opportunity. Opportunity is what we seek to create for our people through seizing the chances offered by the structural funds. I am glad that Phil Williams stressed the need to work positively for a sustainable economy. I agree that we must look to the long term. I have said often that we must not see this as an opportunity to take our bucket to the source of a stream of money and then spend it. We must transform the economy.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n bechod mawr fod y ddadl bwysig hon wedi'i chwtogi mor fyr. Efallai y gallwn ni ddysgu'r wers fod amser yn werthfawr, yn ogystal â chyfle. Cyfle yw'r hyn yr ydym yn ceisio'i greu i'n pobl drwy gydio yn y cyfleoedd a gynigir gan y cronfeydd strwythurol. Yr wyf yn falch fod Phil Williams wedi pwysleisio'r angen i weithio'n gadarnhaol dros economi cynaladwy. Yr wyf yn cytuno bod yn rhaid inni edrych i'r tymor hir. Yr wyf wedi dweud yn aml fod rhaid inni beidio â gweld hyn fel cyfle i fynd â'n pwced at ffynhonnell ffrwd o arian ac wedyn ei wario. Mae'n rhaid inni drawsnewid yr economi.

I welcome the report. Rhodri Morgan and I have acknowledged that it is strong on identifying the problems we face and that we

Yr wyf yn croesawu'r adroddiad. Mae Rhodri Morgan a mi wedi cydnabod ei fod yn gryf o ran enwi'r problemau a wynebwn a

need to strengthen how we see the opportunities offered and develop a strategic plan that will work. I agree that the report is not perfect. However, we should underline its strengths. It was developed through the good will of partners across different sectors of the Welsh economy. However, somewhere along the line there was a loss of focus. I am grateful to the Permanent Secretary, Jon Shortridge for chairing sessions to ensure that the entire project came back on track. We have moved in the right direction and the task force has done us a great service by providing us with this report. However, it should be regarded as work in progress: something that gives us an opportunity to move forwards—a springboard rather than the end of a task.

bod angen inni gryfhau'r ffordd y gwelwn y cyfleoedd a gynigir a datblygu cynllun strategol a wnaiff weithio. Yr wyf yn cytuno nad yw'r adroddiad yn berffaith. Fodd bynnag, dylem danlinellu ei gryfderau. Cafodd ei ddatblygu drwy ewyllys da partneriaid ar draws gwahanol sectorau o economi Cymru. Fodd bynnag, rywle ar hyd y lein fe gollwyd rhywfaint o ffocws. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Parhaol, Jon Shortridge, am gadeirio sesiynau i sicrhau y deuai'r prosiect cyfan yn ôl ar y trywydd iawn. Yr ydym wedi symud i'r cyfeiriad cywir ac mae'r tasglu wedi rhoi gwasanaeth da inni drwy roi'r adroddiad yma inni. Fodd bynnag, dylid edrych arno fel gwaith ar y gweill: rhywbeth sy'n rhoi cyfle inni symud ymlaen—sbringfwrdd yn hytrach na diwedd y dasg.

4:59 p.m.

The main lines of the strategy are clear. The new strategic approach fully integrated with the Assembly's mainstream programmes will provide the critical mass of effort that the economy needs. A coherent cross-cutting approach to problems in our most deprived areas and communities is what we as an Assembly have taken as a central theme. It will involve major investment in terms of skill and training and will be based on a fresh approach to enterprise, supporting the formation and the growth of small and medium sized enterprises with new emphasis on technology, skills and exports. The recently published Rural Partnership report will help us move forward in underlining the need for a separate rural development plan for Wales linking Objective 1 measures with other actions to support agriculture and the rural economy. The emphasis is rightly placed on these things and the Assembly must concentrate on them in the future.

Mae prif linellau'r strategaeth yn glir. Bydd yr ymagwedd strategol newydd, o'i hintegreiddio'n llawn â rhaglenni prif ffrwd y Cynulliad, yn darparu'r màs critigol o ymdrech sydd ei angen ar yr economi. Ymarweddiad cydlynol, croestoriadol at broblemau yn ein hardaloedd a'n cymunedau mwyaf difreintiedig yw'r thema yr ydym ni fel Cynulliad wedi'i chymryd fel un ganolog. Bydd yn galw am fuddsoddiad mawr yn nhermau sgiliau a hyfforddiant a bydd yn seiliedig ar agwedd ffres at fenter, gan gefnogi ffurfiant a thwf mentrau bach a chanolig gyda phwyslais newydd ar dechnoleg, sgiliau ac allforion. Bydd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Bartneriaeth Wledig yn ein helpu i symud ymlaen gan danlinellu'r angen am gynllun datblygu gwledig ar wahân i Gymru, yn cysylltu mesurau Amcan 1 â gweithredoedd eraill i gefnogi amaethyddiaeth ac economi cefn gwlad. Rhoddir y pwyslais ar y pethau hyn, a da hynny, a rhaid i'r Cynulliad ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol.

We must emphasise that the report is ambitious, as is the target of raising Welsh per capita GDP to 90 per cent of the UK average over a decade. It sets the target of raising the west Wales and Valleys per capita GDP to 81 per cent. That will require the Welsh economy to grow around 0.75 per cent

Rhaid inni bwysleisio fod yr adroddiad yn uchelgeisiol, ac felly hefyd y nod o godi GDP Cymru y pen i 90 y cant o gyfartaledd y DU dros ddegawd. Mae'n gosod y targed o godi GDP y pen yn y gorllewin a'r Cymoedd i 81 y cant. Bydd hynny'n gofyn i economi Cymru dyfu oddeutu 0.75 y cant yn gynt na

faster than the UK growth rate over that period. It poses an immense challenge, with the increase of a 136,000 in net jobs and the reduction of the number economically inactive people by 90,000. That must be the first stage in working together across this Assembly and demonstrating that partnership can work, and be effective. If we deliver on this, we will deliver a future for the people of Wales, particularly those in the more deprived communities and the least effective economies. I am delighted that that has formed the positive emphasis of this debate. We face a mammoth task, but with the atmosphere of today's debate and the determination to carry it forward, I believe we can succeed. It is a very brief response to a short debate, but a major one on major issues that we must tackle together.

chyfradd twf y DU dros yr un cyfnod. Mae'n her aruthrol, gyda chynnydd o 136,000 mewn swyddi net a lleihad o 90,000 yn y nifer o bobl sy'n segur yn economaidd. Rhaid i hynny fod yn gam cyntaf cydweithio ar draws y Cynulliad hwn ac arddangos y gall partneriaeth weithio, a bod yn effeithiol. Os gallwn gyflawni hyn, byddwn yn cynnig dyfodol i bobl Cymru, yn enwedig y rheini yn y cymunedau mwy difreintiedig a'r economïau lleiaf effeithiol. Yr wyf wrth fy modd fod hynny wedi ffurfio'r pwyslais cadarnhaol yn y ddadl hon. Yr ydym yn wynebu tasg anferthol, ond gydag awyrgylch y ddadl heddiw a'r penderfyniad i fynd â'r maen i'r wal, yr wyf yn credu y gallwn lwyddo. Ymateb cryno iawn yw hyn i drafodaeth fer, ond mae'n un pwysig ar faterion mawr y mae'n rhaid inni ymdrin â nhw gyda'n gilydd.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 1.

Y Llywydd: Yn awr fe bleidleisiwn ar welliant 1.

A vote was held by show of hands.
Amendment adopted.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y gwelliant.

We will now vote on amendment 2.

Yn awr fe bleidleisiwn ar welliant 2.

A vote was held by show of hands.
Amendment adopted.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y gwelliant.

We will now vote on the amended motion.

Yn awr fe bleidleisiwn ar y cynnig wedi'i wella.

A vote was held by show of hands.
Amended motion adopted.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig wedi'i wella.

Dadl Fer ar Hela â Chŵn
Short Debate on Hunting with Dogs

Lorraine Barrett: I will not take interventions in this short debate, but if there is time within my 15 minutes, I indicated to John Griffiths and Alun Pugh that they may make a contribution. Others who indicated that they would like an opportunity to speak are Mick Bates, William Graham, Jocelyn Davies, Glyn Davies and Kirsty Williams. Perhaps the First Secretary will allow them to contribute during his response, but I leave that up to him.

Lorraine Barrett: Ni wnaf gymryd ymyriadau yn y ddadl fer hon, ond os bydd amser o fewn fy 15 munud, dywedais wrth John Griffiths ac Alun Pugh y cânt hwy wneud cyfraniad. Rhai eraill a nododd yr hoffent gyfle i siarad yw Mick Bates, William Graham, Jocelyn Davies, Glyn Davies a Kirsty Williams. Hwyrach y gwnaiff y Prif Ysgrifennydd ganiatáu iddynt gyfrannu yn ystod ei ymateb, ond gadawaf hynny iddo ef.

Before I obtained this short debate, I put down a statement of opinion condemning hunting with dogs, and a week later Tony Blair reinforced his commitment that the UK Government would introduce legislation—

Cyn imi gael y ddadl fer hon, rhoddais i lawr ddatganiad o farn yn condemnio hela gyda chŵn, ac wythnos yn ddiweddarach atgyfnerthodd Tony Blair ei ymrwymiad y byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth—

Rhodri Morgan: So, it was you.

Rhodri Morgan: Felly, chi wnaeth.

Lorraine Barrett: Yes it was me. Tony Blair reinforced his commitment that the UK Government would introduce legislation to ban hunting with dogs. He obviously saw my statement. It seemed opportune to use these precious 15 minutes to air my views on this barbaric practice. I have not chosen to use the short debate as a motion because that is not what such debates are intended for. It provides an opportunity for backbenchers to highlight a constituency issue or raise a topic they feel strongly about, and I feel strongly about this.

Lorraine Barrett: Ie, fi wnaeth. Atgyfnerthodd Tony Blair ei ymrwymiad y byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth i wahardd hela gyda chŵn. Yn amlwg, gwelodd fy natganiad. Teimlais mai addas fyddai defnyddio'r 15 munud gwerthfawr hyn i leisio fy marn ar yr arferiad barbaraidd hwn. Nid wyf wedi dewis defnyddio'r ddadl fer fel cynnig gan mai nid dyna fwriad dadleuon o'r fath. Mae'n rhoi cyfle i bobl y meinciau cefn amlygu mater yn eu hetholaeth neu godi pwnc y maent yn teimlo'n gryf amdano, ac yr wyf innau'n teimlo'n gryf am hyn.

Hunting is one of the most emotive issues of our time. It seems to bring out the strongest of emotions on both sides. Since I gave notice on the short debate's title, I have had comments such as 'It's only old Labour in a class war'. I do not care if hunters are working, middle or upper class, the problem I have with them is that they are hunters.

Hela yw un o gwestiynau mwyaf cynyrfiadol ein hoes. Mae'n debyg ei fod yn ysgogi'r emosiynau cryfaf ar y naill ochr a'r llall. Ers imi roi rhybudd o deitl y ddadl fer hon, cefais sylwadau fel 'Dim ond hen Lafur mewn rhyfel dosbarth yw hyn'. Nid oes ots gennyf i os yw helwyr yn ddosbarth gweithiol, canol neu uwch, y broblem sydd gennyf i gyda nhw yw eu bod yn helwyr.

Since my teenage years I have been involved with animal welfare issues and I believe we can judge our society on how we treat our animals, whether domestic, wild, or reared for consumption. I am a vegetarian, and proud of it. We can also learn from the animal kingdom where animals behave as nature intended, or at least would behave if humans did not encroach on their territory. Deer for example, are beautiful, elegant creatures. Over the centuries their natural predators, such as bear and lynx have been exterminated in the wild, where they would have culled the weak and sick of the species.

Ers blynyddoedd fy arddegau bûm yn ymwneud â materion lles anifeiliaid, ac yr wyf yn credu y gallwn farnu ein cymdeithas yn ôl sut y byddwn yn trin ein hanifeiliaid, boent ddomestig, gwyllt, neu wedi'u magu i'w bwyta. Yr wyf yn llysieuwraig, ac yn falch o hynny. Gallwn ddysgu hefyd oddi wrth fyd yr anifeiliaid lle mae anifeiliaid yn ymddwyn fel y bwriadodd natur, neu o leiaf fe fyddent yn ymddwyn felly pe na bai dyn yn tresmasu ar eu tiriogaeth. Mae ceirw, er enghraifft, yn greaduriaid hardd, gosgeiddig. Dros y canrifoedd cafodd eu hysglyfaethwyr naturiol, fel yr arth a'r lyncs, eu difa yn y gwyllt, lle byddent wedi lladd aelodau gwan a gwael y rhywogaeth.

It is we who have brought about the need to cull the number of deer. If that culling—or

Ni sydd wedi achosi'r angen i ddidol nifer y ceirw. Os oes angen y didol—neu'r lladd, fel

killing, as I prefer to say—is necessary, it should be done humanely. The only humane way to do this is by means of a trained marksman who will shoot the old or sick members of the pack. Hunting deer with dogs only causes stress and exhaustion because the dogs will chase the fit, strong members of the pack, who then run in terror for hours until they finally collapse and meet their grisly death. There is plenty of film footage and photographs to uphold that.

y mae'n well gennyf i ddweud—hwnnw, dylid ei wneud mewn modd trugarog. Yr unig ffordd drugarog o wneud hyn yw drwy ddefnyddio saethwr hyfforddedig a wnaiff saethu aelodau oedrannus neu sâl yr haid. Nid yw hela ceirw gyda chŵn yn gwneud dim ond achosi straen a blinder oherwydd bydd y cŵn yn ymlid yr aelodau heini, cryf o'r haid, a fydd wedyn yn rhedeg mewn braw am oriau nes cwympo yn y diwedd a chael eu llarpio. Mae digon o luniau ffilm a ffotograffau i gadarnhau hynny.

It is reluctantly accepted by leading animal welfare organisations that sometimes there is a need to control deer numbers. Most of that control is enforced by shooting, but only a small percentage is done by hunters and dogs, showing that hunting is an ineffective means of population control. We should reflect on the fact that hunting deer with dogs in Scotland is already illegal.

Derbynnir yn gyndyn gan brif gyrff lles anifeiliaid fod angen rheoli niferoedd ceirw weithiau. Gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith rheoli hwnnw drwy saethu, ond dim ond canran fach a wneir gan helwyr a chŵn , sy'n dangos fod hela'n ffordd aneffeithiol o reoli poblogaeth. Dylem ystyried y ffaith ei bod eisoes yn anghyfreithlon hela ceirw gyda chŵn yn yr Alban.

Another victim of the hunters' lust for blood is the fox. Let me explain something about the fox. A fox family usually consists of one dog fox and one to three vixens of which only the dominant vixen will breed. However, in areas where humans threaten the fox, there is strong evidence of an increase in fertile vixens and larger litters, which is nature's way of restoring the population to its natural level.

Un arall sy'n dioddef o flys yr heliwr am waed yw'r llwynog. Gadewch imi esbonio rhywbeth am y llwynog. Bydd teulu'r llwynog fel arfer yn cynnwys un ci llwynog ac un i dair llwynoges, a'r un gryfaf yn unig yn magu. Fodd bynnag, mewn ardaloedd lle mae dyn yn bygwth y llwynog, mae tystiolaeth gref o gynnydd mewn llwynogesau ffrwythlon a chynnydd yn y rhai bach a fegir, sef ffordd natur o adfer y boblogaeth i'w lefel naturiol.

Killing foxes, by whatever means, creates vacancies that will be filled by other foxes. Pro-hunters say that the fox is a ruthless killer of lambs. Serious scientific studies over the past 20 years show that this is not true. Lamb deaths caused by foxes are insignificant compared with deaths due to stillbirth, malnutrition or hypothermia.

Mae lladd llwynogod, sut bynnag y gwneir hynny, yn creu bylchau a lenwir gan lwynogod eraill. Dywed y rhai sydd o blaid hela fod y llwynog yn lladdwr ŵyn didrugaredd. Dengys astudiaethau gwyddonol difrifol dros yr 20 mlynedd diwethaf nad yw hyn yn wir. Mae marwolaethau ŵyn a achoswyd gan lwynogod yn bitw o gymharu â marwolaethau oherwydd marwenedigaeth, diffyg maeth neu hypothermia.

Pro-hunters will use the countryside march of 1998 as an indication of the strength of feeling for hunting. A MORI poll conducted on that day showed that only 40 per cent of those on the march were there primarily because of hunting. Many ramblers were

Bydd pleidwyr hela'n defnyddio gorymdaith cefn gwlad 1998 fel arwydd o gryfder y teimlad dros hela. Dangosodd arolwg MORI a wnaed ar y diwrnod hwnnw mai dim ond 40 y cant o'r gorymdeithwyr hynny oedd yno'n bennaf oherwydd hela. Roedd llawer o

marching for a different reason. A few days after that march, the *Daily Telegraph* commissioned another poll showing 78 per cent opposed to fox hunting with 67 per cent wanting a ban. A MORI poll commissioned recently by the International Fund for Animal Welfare showed that 79 per cent of respondents from Wales were in favour of a ban.

gerddwyr yn gorymdeithio am reswm gwahanol. Ychydig o ddyddiau ar ôl yr orymdaith honno, comisiynodd y *Daily Telegraph* arolwg arall yn dangos fod 78 y cant yn erbyn hela llwynogod a bod 67 y cant eisiau ei wahardd. Dangosodd arolwg MORI a gomisiynwyd yn ddiweddar gan y Gronfa Ryngwladol er Lles Anifeiliaid fod 79 y cant o'r ymatebwyr o Gymru o blaid gwaharddiad.

Four hundred and eleven MPs voted for Michael Foster's Bill to ban hunting with dogs, an unprecedented majority. Successive polls show that the majority of people in this country are sick of, and sickened by, hunting with dogs. In fact, since Tony Blair reiterated his commitment to a hunting ban, the people of Eddisbury have tuned the polls around in favour of the Labour Party in the forthcoming by-election. They have suffered long enough with hunts tearing through their communities causing misery and mayhem.

Pleidleisiodd 411 o ASau dros Fesur Michael Foster i wahardd hela gyda chŵn, mwyafrif na fu ei debyg o'r blaen. Mae arolwg ar ôl arolwg yn dangos fod y rhan fwyaf o bobl yn y wlad hon wedi cael llond bol o hela gyda chŵn, a bod y peth yn codi cyfog arnynt. Yn wir, ers i Tony Blair ailddatgan ei ymrwymiad i wahardd hela, mae pobl Eddisbury wedi troi'r polau piniwn o gwmpas i ffafrio'r Blaid Lafur yn yr is-etholiad sydd i'w gynnal yno. Maent wedi dioddef digon gyda helfeydd yn rhuthro drwy eu cymunedau gan achosi poen ac anhrefn.

I know the pro-hunting lobby will come up with statements such as 'You do not understand the countryside's ways' or 'If you ban hunting, you will put thousands of people out of work'. To answer that, I suggest that the hunts take up drag hunting. That practice involves a runner or rider laying an artificial trail for the hounds to follow and its advantage is that a trail is laid over a sensible route to avoid damage to crops, livestock, private gardens, railway lines and the slaughter of family pets. Again there is a great deal of footage to uphold these statements.

Yr wyf yn gwybod y gwnaiff y criw sydd o blaid hela ddweud pethau fel 'Nid ydych chi'n deall ffyrdd cefn gwlad' neu 'Os gwaharddwch chi hela, fe rowch chi filoedd o bobl ar y clwt'. I ateb hynny, awgrymaf bod yr helwyr yn ymgymryd â hela abwyd. Mae'r arfer hwnnw'n golygu bod rhedwr neu farchog yn gosod trywydd artiffisial i'r cŵn ei ddilyn, a mantais hynny yw y gosodir y trywydd dros lwybr call i osgoi difrodi cnydau, da byw, gerddi preifat, rheilffyrdd a llarpio anifeiliaid anwes. Unwaith eto, mae llawer o ffilm ar gael i gadarnhau'r gosodiadau hyn.

5:09 p.m.

I attended the Royal Welsh Show yesterday where there was a demonstration by the pro-hunting lobby outside the Labour Party stand. The demonstration was led by the leader of the Conservative group here. I am told that they blocked the walkway and were quite intimidating saying that they would return every day until the Labour Party stand was closed down.

Euthum i'r Sioe Frenhinol ddoe lle cafwyd gwrthdystiad gan y criw o blaid hela y tu allan i stondin y Blaid Lafur. Arweinydd y gwrthdystiad oedd arweinydd y grŵp Ceidwadol yma. Dywedir wrthyf eu bod wedi rhwystro'r fynedfa a'u bod yn eithaf bygythiol gan ddweud y byddent yn dod yn ôl bob dydd nes byddai stondin y Blaid Lafur wedi ei chau.

The Labour Party and I will not be bullied on this issue and neither will Ann Widdecombe.

Ni wnaiff y Blaid Lafur na mi gael ein bwlio ar y mater hwn, ac ni wnaiff Ann

I was told yesterday by a hunter that if hunting were banned, he would burn down the woods in his area. What care and respect for the countryside does he have I ask myself?

Another argument put forward by pro-hunters is that 'Hunting is part of our tradition'. Slavery was once part of our tradition. Badger baiting, bear baiting and cock-fighting were also once traditions. We no longer tolerate them.

I could go on forever about the cruel practice of hunting with dogs but I will conclude by saying that, while the Assembly has no direct powers to ban hunting—although I will pursue with other Members the issue of Forestry Commission land—we can lobby and persuade the UK Government to do what is right and moral.

I can do no better than to end—

Rod Richards: Yes.

Lorraine Barrett: I will not take any notice of the rude interventions, Mr Llywydd.

I will end by taking a few words from a statement by Sir Paul McCartney:

'The animals with which we share this planet deserve our respect and kindness rather than the cruel tortures we too often inflict upon them. There can be no rational reason for this practice to continue and only when it is banned will we be able to emerge from the dark ages into the light of a new century'.

John Griffiths: I agree with Lorraine. This is a moral issue for the majority of people in rural and urban areas who oppose fox hunting. It is a moral issue for me and probably for the majority of Assembly Members, which may be tested in due course.

It should be tested because, as Lorraine mentioned, the Assembly's view could be communicated to Westminster and influence

Widdecombe chwaith. Dywedodd heliwr wrthyf ddoe y byddai'n llosgi'r coedwigoedd yn ei ardal petai hela'n cael ei wahardd. Pa ofal a pharch at gefn gwlad sydd ganddo ef, gofynnaf imi fy hun?

Dadl arall a ddefnyddir gan y rhai sydd o blaid hela yw bod 'Hela yn rhan o'n traddodiad'. Roedd caethweision yn rhan o'n traddodiad unwaith. Roedd poenydio moch daear, poenydio eirth ac ymladd ceiliogod yn draddodiadau hefyd. Nid ydym yn eu goddef bellach.

Gallwn fynd ymlaen am byth am greulondeb hela gyda chŵn ond fe orffennaf drwy ddweud er nad oes gan y Cynulliad bwerau uniongyrchol i wahardd hela—er y gwnaf drafod y cwestiwn o dir y Comisiwn Coedwigaeth gydag Aelodau eraill—gallwn lobïo a pherswadio Llywodraeth y DU i wneud y peth cyfiawn a moesol.

Ni allaf wneud yn well na diweddu—

Rod Richards: Ie.

Lorraine Barrett: Ni chymeraf unrhyw sylw o'r ymyriadau anfoesgar, Mr Llywydd.

Fe ddiweddaf drwy ddyfynnu ychydig o eiriau o ddatganiad gan Syr Paul McCartney:

'Mae'r anifeiliaid yr ydym yn rhannu'r blaned hon gyda nhw yn haeddu'n parch a'n caredigrwydd yn hytrach na'r poenydio creulon a wnawn iddynt yn rhy aml. Ni all fod unrhyw reswm rhesymol dros barhad yr arfer hwn, a dim ond pan gaiff ei wahardd y gallwn ddod allan o'r oesoedd tywyll i oleuni canrif newydd'.

John Griffiths: Yr wyf yn cytuno gyda Lorraine. Mae hwn yn fater moesol i'r mwyafrif o bobl mewn ardaloedd gwledig a threfol sy'n gwrthwynebu hela llwynogod. Mae'n fater moesol i mi ac mae'n debyg i fwyafrif Aelodau'r Cynulliad, a all gael ei brofi maes o law.

Dylid ei brofi oherwydd, fel y soniodd Lorraine, gallai barn y Cynulliad gael ei chyfleu i San Steffan a dylanwadu ar ASau

MPs there. The Assembly could also exert direct influence on the Forestry Commission, which is important because of the many hunts that use its land in Wales. They would not be able to do so if we could use our influence to persuade the Forestry Commission to ban hunting on its land. It would also effectively create safe refuges for foxes. The Assembly can act on this issue in many important ways. It is right that we debate it and I congratulate Lorraine for bringing it before us and for her many valid points.

yno. Gallai'r Cynulliad hefyd ddylanwadu'n uniongyrchol ar y Comisiwn Coedwigaeth, sydd yn bwysig oherwydd y nifer o helfeydd sy'n defnyddio'i dir yng Nghymru. Ni fyddent yn gallu gwneud hynny pe gallem ni ddefnyddio'n dylanwad i berswadio'r Comisiwn Coedwigaeth i wahardd hela ar ei dir. Byddai hefyd yn cael yr effaith o greu llochesi diogel i lwynogod. Gall y Cynulliad weithredu ar y mater hwn mewn amryw o ffyrdd pwysig. Mae'n iawn ein bod yn ei drafod ac yr wyf yn llongyfarch Lorraine am ddod ag ef ger ein bron ac am sawl pwynt dilys a wnaeth.

The majority of people object to seeing foxes being ripped apart by hounds. They object to the barbaric nature of these practices that have no place in the new millennium. There is only a rump of people in rural and urban areas who continue to support these practices. The Conservative group is clearly willing to continue supporting them, but fortunately they are in a small minority.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwrthwynebu gweld llwynogod yn cael eu rhwygo'n ddarnau gan gwn. Maent yn gwrthwynebu natur farbaraidd yr arferion hyn, nad oes lle iddynt yn y mileniwm newydd. Dim ond dyrnaid o bobl sydd ar ôl mewn ardaloedd gwledig a threfol sy'n dal i gefnogi'r arferion hyn. Mae grŵp y Ceidwadwyr yn amlwg yn barod i ddal i'w cefnogi, ond yn ffodus, lleiafrif bychan ydynt.

People in rural areas concerned with general rural issues would do well not to associate themselves with these hunters because, as Lorraine mentioned, the countryside march only contained a minority of people concerned with hunting. The majority was concerned with more general rural issues. The lobbying groups faced with many crucial challenges should be careful not allow themselves to be discredited and portrayed in a negative light by becoming associated with these unpopular hunters. Successive opinion polls show that the British and Welsh people do not support hunting. Happily the vast majority of people are on the side of Lorraine and all those who consider these practices to be barbaric with no place in modern society.

Ni fyddai pobl mewn ardaloedd gwledig sydd â chonsyrn am faterion cyffredinol cefn gwlad yn ddoeth i gysylltu eu hunain â'r helwyr hyn oherwydd, fel y soniodd Lorraine, dim ond lleiafrif o bobl ar yr orymdaith gefn gwlad oedd yno i gefnogi hela. Yr oedd y mwyafrif yn pryderu am faterion gwledig mwy cyffredinol. Dylai'r grwpiau lobïo sy'n wynebu sawl her allweddol fod yn ofalus i beidio â gadael iddynt eu hunain gael eu pardduo a'u dangos mewn golau gwael drwy gael eu cysylltu â'r helwyr amhoblogaidd hyn. Mae polau piniwn dro ar ôl tro wedi dangos nad yw pobl Prydain a Chymru'n cefnogi hela. Yn ffodus mae mwyafrif llethol y bobl ar ochr Lorraine a phawb sy'n ystyried bod yr arferion hyn yn farbaraidd heb ddim lle mewn cymdeithas fodern.

Alun Pugh: I am sympathetic with Lorraine's aims, but we must draw a clear distinction between farmers' legitimate pest control activities and the unacceptable actions of the tally-ho set who get their kicks from the recreational killing of small mammals. Using dogs to flush foxes out from

Alan Pugh: Yr wyf yn cydymdeimlo ag amcanion Lorraine, ond rhaid inni dynnu llinell glir rhwng gweithgareddau cyfreithlon ffermwyr i reoli pla a gweithredoedd annerbyniol y criw tali-ho sy'n cael mwynhad o ladd mamaliaid bach am hwyl. Ni fyddwn i'n dymuno gwrthwynebu

dense undergrowth into open ground where they can be humanely destroyed is not something I wish to oppose. Foxes are pests, but there is a difference. I have no sympathy with people whose idea of a good day out is chasing a fox until it is so exhausted that it is ripped apart by a pack of dogs. Plaid Cymru should get off the fence on this issue. A party that calls itself the Party of Wales is badly out of step with Welsh public opinion if it thinks it can side with the red jacket brigade.

defnyddio cŵn i yrru llwynogod allan o lwyni trwchus i dir agored lle gellir eu difa'n drugarog. Mae'r llwynog yn bla, ond y mae gwahaniaeth. Nid oes gennyf ddim cydymdeimlad â phobl sy'n meddwl mai diwrnod da allan yw erlid llwynog nes ei fod wedi ymlâdd cymaint nes cael ei larpio gan haid o gwn. Dylai Plaid Cymru ddod oddi ar y ffens ar y mater hwn. Mae plaid sy'n ei galw ei hun yn Blaid Cymru yn cyfeiliorni ymhell oddi wrth y farn gyhoeddus yng Nghymru os yw'n meddwl y gall ochri gyda chiwed y cotiau coch.

The First Secretary: I rise to reply—

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn codi i ateb—

Jocelyn Davies *rose—*

Jocelyn Davies *yn codi—*

The First Secretary: Perhaps I could say good afternoon before I start giving way.

Y Prif Ysgrifennydd: Efallai y cawn i ddweud prynhawn da cyn ildio.

Several Assembly Members *rose—*

Sawl Aelod o'r Cynulliad *yn codi—*

The Presiding Officer: Order. Give him a chance. I think that the First Secretary was giving way to Jocelyn Davies.

Y Llywydd: Trefn. Rhowch gyfle iddo. Yr wyf yn meddwl mai ildio i Jocelyn Davies yr oedd y Prif Ysgrifennydd.

Jocelyn Davies: How you approach this debate depends a great deal on—

Jocelyn Davies: Mae'r ffordd yr ydych yn edrych ar y ddadl hon yn dibynnu llawer ar—

The Presiding Officer: Order. Is this a speech or an intervention?

Y Llywydd: Trefn. Ai araith ynteu ymyriad yw hyn?

Jocelyn Davies: I simply want to ask Alun one or two questions—

Jocelyn Davies: Dim ond eisiau gofyn cwestiwn neu ddau i Alun Michael—

The Presiding Officer: Order. Under the Standing Orders, only interventions on the replying Assembly Secretary are permitted.

Y Llywydd: Trefn. Dan y Rheolau Sefydlog, dim ond ymyriadau a ganiateir wrth i Ysgrifennydd y Cynulliad ymateb.

The First Secretary: I will allow an intervention.

Y Prif Ysgrifennydd: Fe wnaf ganiatáu ymyriad.

Jocelyn Davies: How you approach this debate will depend upon your value judgement. Lorraine thinks that hunting with dogs is uncivilised, but she is careless about her choice of words and as a result we have a sweeping generalisation and a great deal of stereotyping. She does not mention foxes or hounds in her motion, only hunting and dogs—

Jocelyn Davies: Bydd y ffordd yr ydych yn ymagweddu at y ddadl hon yn dibynnu ar eich syniad o werthoedd. Mae Lorraine yn meddwl fod hela gyda chŵn yn anwar, ond mae hi'n ddiofal yn ei dewis o eiriau ac o ganlyniad mae gennym gyffredinoli ysgubol a llawer iawn o ystrydebu. Nid yw hi'n enwi llwynogod na bytheiod yn ei chynnig, dim ond hela a chŵn .

The Presiding Officer: Order. Interventions are for the purpose of clarification.

Y Llywydd: Trefn. Diben ymyriadau yw cael eglurhad.

Jocelyn Davies: Excuse me, I have not finished and I feel that I must. I am sure Alun will give me the time—

Jocelyn Davies: Esgusodwch fi, nid wyf wedi gorffen a theimlaf fod rhaid imi. Yr wyf yn siwr y gwnaiff Alun roi'r amser imi—

The Presiding Officer: Order. That is not in order. I call the First Secretary.

Y Llywydd: Trefn. Nid yw hynny mewn trefn. Galwaf y Prif Ysgrifennydd.

The First Secretary: It is for the Presiding Officer to explain interventions. I am happy to try to take them but I must now respond to the debate.

Y Prif Ysgrifennydd: Mater i'r Llywydd yw egluro ymyriadau. Yr wyf yn hapus i geisio'u cymryd ond rhaid imi yn awr ymateb i'r ddadl.

I am grateful to Lorraine for raising a topical issue as I know from my experience over the last 24 hours. As George Howarth stated in the House of Commons last week, it is the Government's intention to introduce a Bill to ban hunting with dogs. Ministers are considering the various options and will make an announcement soon on the proposals that the Government favours.

Yr wyf yn ddiolchgar i Lorraine am godi mater amserol fel y gwn i o'm profiad dros y 24 awr diwethaf. Fel y dywedodd George Howarth yn Nhŷ'r Arglwyddi yr wythnos ddiwethaf, bwriad y Llywodraeth yw cyflwyno Mesur i wahardd hela â chŵn . Mae gweinidogion yn ystyried y gwahanol ddewisiadau a byddant yn gwneud cyhoeddiad yn fuan ar y cynigion sydd orau gan y Llywodraeth.

As colleagues are aware the Assembly does not have legislative powers to implement such a ban in Wales. However, under section 33 of the Government of Wales Act, it can debate any matter which affects Wales and make representations to the Government Minister responsible for that area of Government policy, in this case, the Home Secretary.

Fel y gwŷr fy nghyd-Aelodau, nid oes gan y Cynulliad bwerau deddfwriaethol i weithredu gwaharddiad o'r fath yng Nghymru. Fodd bynnag, dan adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru, gall drafod unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru a chyflwyno sylwadau i'r Gweinidog yn y Llywodraeth sy'n gyfrifol am y maes hwnnw o bolisi'r Llywodraeth sef, yn yr achos hwn, yr Ysgrifennydd Cartref.

Given the wide public interest in this subject, I would expect the Assembly to take the opportunity offered by the Act to express our views to Government and Parliament in advance of Parliament's consideration of the Bill. Having said that, I think we should wait to see the Government's proposals before we make a decision on this matter. I am glad that Dafydd Wigley agrees and I am grateful to Lorraine for recognising that by not pressing us to vote on this issue today.

Yn wyneb y diddordeb cyhoeddus eang yn y pwnc, byddwn yn disgwyl i'r Cynulliad gymryd y cyfle a gynigir gan y Ddeddf i fynegi'n barn i'r Llywodraeth a'r Senedd cyn i'r Senedd ystyried y Mesur. Wedi dweud hynny, yr wyf yn meddwl y dylem aros nes gweld cynigion y Llywodraeth cyn gwneud penderfyniad ar y mater hwn. Yr wyf yn falch fod Dafydd Wigley'n cytuno ac yr wyf yn ddiolchgar i Lorraine am gydnabod hynny drwy beidio â'n pwyso i bleidleisio ar y mater hwn heddiw.

5:19 p.m.

David Melding: When you talk to your Government colleagues, will you ensure that in any Bill they propose it is clear that banning hunting with dogs would not outlaw drag hunting? This motion would do so. It does not state that hunting with dogs when it is drag hunting is excluded, but that any hunting with dogs would be outlawed.

David Melding: Pan siaradwch gyda'ch cydweithwyr yn y Llywodraeth, a wnewch chi sicrhau ei bod yn glir mewn unrhyw Fesur a gynigiant na fyddai gwahardd hela â chŵn yn gwneud hela abwyd yn anghyfreithlon? Byddai'r cynnig hwn yn gwneud hynny. Nid yw'n datgan fod hela â chŵn pan mai hela abwyd ydyw wedi'i eithrio, ond y byddai unrhyw hela â chŵn yn anghyfreithlon.

The First Secretary: David, what we have in front of us is an expression of opinion. The advantage of Government legislation over a private member's Bill or an expression of opinion is Government's capacity to grapple with the important technical and legal matters like pest control. I am sure the Assembly will want to comment on those in detail at the appropriate time. Lorraine has recognised, in making her views clear as she has a right to do—that is the purpose of these short debates—that this is not the time to do so.

Y Prif Ysgrifennydd: David, beth sydd gennym o'n blaenau yw mynegiant o farn. Y fantais sydd gan ddeddfwriaeth y Llywodraeth dros Fesur aelod preifat neu fynegiad o farn yw gallu'r Llywodraeth i ymrafael â'r materion technegol a chyfreithiol pwysig fel rheoli pla. Yr wyf yn sicr y bydd y Cynulliad eisiau rhoi sylwadau ar y rheini yn fanwl ar yr adeg briodol. Mae Lorraine wedi cydnabod, wrth fynegi ei barn yn glir fel y mae ganddi hawl i wneud—dyna bwrpas y dadleuon byr hyn—nad dyma'r amser i wneud hynny.

Nick Bourne: Point of order. Twice now, the Labour Party has initiated debates without allowing any interventions. These are not debates. All other parties have allowed interventions. It is tyranny by the Government party not to do so.

Nick Bourne: Mater o drefn. Ddwy waith yn awr, mae'r Blaid Lafur wedi cychwyn dadleuon heb ganiatáu unrhyw ymyriadau. Nid dadleuon yw'r rhain. Mae pob plaid arall wedi caniatáu ymyriadau. Gormes gan y blaid Lywodraethol yw peidio â gwneud hynny.

The Presiding Officer: I refer Members to the relevant Standing Orders governing short debates and particularly to the guidance published on short debates and the Presiding Officer's Guidance Note No.1. They indicate quite clearly what the form of this debate is. The Member who has obtained the debate speaks and then there is provision for speeches of which we have been advised beforehand. During the relevant Assembly Secretary's reply, Members may seek to intervene.

Y Llywydd: Hoffwn gyfeirio'r Aelodau at y Rheolau Sefydlog perthnasol ynglŷn â dadleuon byr ac yn enwedig at y canllawiau a gyhoeddir ar ddadleuon byr a Nodyn Arweiniad y Llywydd Rhif 1. Maent yn nodi'n glir beth yw ffurf y ddadl hon. Mae'r Aelod sydd wedi cael y ddadl yn siarad ac wedyn ceir darpariaeth ar gyfer areithiau y cafwyd gwybod amdanynt ymlaen llaw. Yn ystod ateb yr Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol, gall Aelodau geisio ymyrryd.

Nick Bourne *rose—*

Nick Bourne *yn codi—*

The First Secretary: I have given way to Members from two parties. You have had the opportunity but you wanted to score a point not make one.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf wedi ildio i Aelodau o ddwy blaid. Yr ydych chi wedi cael y cyfle ond yr oeddech eisiau sgorio pwynt yn hytrach na gwneud un.

Nick Bourne: Not at all.

The First Secretary: You should start contributing to intelligent debate in this Chamber and not just quibble and complain all the time.

Let us take one example of the main arguments against introducing a ban on fox hunting, namely the idea that the number of foxes needs to be controlled to protect livestock. Alun Pugh recognised that a few moments ago. That was the main point hunt supporters made to me yesterday. I listened to what they had to say and will do so again when I meet them in the autumn, as promised.

The Bill sponsored by Michael Foster recognised the validity of that argument by introducing a clause allowing hunting with dogs to control the number of certain wild animals to protect livestock. We need to see how the Government deals with this when the proposals come forward. I am acutely conscious that the livelihoods of a significant number of people in rural communities, which are already in crisis, would be directly affected by a decision on this issue. We all want to ensure that Government proposals take this into account and that support is offered to those for whom hunting is not just a sport but a source of employment. We will need to help them find alternatives in the same way as we have helped those affected by structural changes elsewhere in the economy.

Kirsty Williams: Will the First Secretary recognise that 6,000 people in Wales make their living directly from country sports and that just over 3,000 people are indirectly employed in the country sports industry? There are people whose homes depend on this industry. We are talking about both people's livelihoods and homes. Does he have any ideas about what else they might do in an already struggling rural community? If those people are unable to find employment in rural communities, they tend to drift to

Nick Bourne: Ddim o gwbl.

Y Prif Ysgrifennydd: Fe ddylech ddechrau cyfrannu at drafodaeth ddeallus yn y Siambr hon ac nid dim ond hollti blew a chwyno drwy'r amser.

Gadewch inni gymryd un enghraifft o'r prif ddadleuon yn erbyn cyflwyno gwaharddiad ar hela llwynogod, sef y syniad fod angen rheoli niferoedd llwynogod er mwyn gwarchod da byw. Cydnabu Alun Pugh hynny rai munudau yn ôl. Dyna oedd y prif bwynt a wnaeth cefnogwyr hela imi ddoe. Gwrandewais ar yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud ac fe wnaf hynny eto pan gyfarfyddaf â hwy yn yr hydref, fel yr addewais.

Yr oedd y Mesur a noddwyd gan Michael Foster yn cydnabod dilysrwydd y ddadl honno drwy gyflwyno cymal yn caniatáu hela gyda chŵn i reoli niferoedd rhai anifeiliaid gwyllt er mwyn gwarchod da byw. Mae angen inni weld sut y mae'r Llywodraeth yn delio â hyn pan ddaw'r cynigion gerbron. Yr wyf yn ymwybodol iawn y byddai penderfyniad ar y mater hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar fywoliaeth nifer arwyddocaol o bobl mewn cymunedau gwledig, sydd eisoes mewn argyfwng. Mae arnom i gyd eisiau sicrhau fod cynigion y Llywodraeth yn cymryd hyn i ystyriaeth ac y cynigir cefnogaeth i rai y mae hela'n fwy na dim ond sbort ond yn ffynhonnell cyflogaeth. Bydd angen inni eu helpu i ganfod rhywbeth arall yn yr un modd ag yr ydym wedi helpu'r rheini yr effeithiwyd arnynt gan newidiadau strwythurol mewn mannau eraill yn yr economi.

Kirsty Williams: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gydnabod fod 6,000 o bobl yng Nghymru yn gwneud eu bywoliaeth yn uniongyrchol o chwaraeon gwlad a bod ychydig dros 3,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n anuniongyrchol yn y diwydiant chwaraeon gwlad? Pobl yw'r rhain y mae eu cartrefi'n dibynnu ar y diwydiant hwn. Yr ydym yn sôn am fywoliaeth pobl a'u cartrefi. A oes ganddo unrhyw syniadau ynghylch beth arall y gallent ei wneud mewn cymuned wledig sydd eisoes mewn cyni? Os na all y

urban areas. That has a knock-on effect on community schools, hospitals and other services. Do he and Lorraine have any other bright ideas as to how pest control can be achieved in terrain that does not allow for easy access on foot?

bobl hynny gael gwaith mewn cymunedau gwledig, byddant yn tueddu i symud i ardaloedd trefol. Mae hynny'n cael effaith i lawr y lein ar ysgolion cymunedol, ysbytai a gwasanaethau eraill. A oes ganddo ef a Lorraine unrhyw syniadau gwych eraill ynghylch sut y gellir rheoli pla ar dir nad yw'n hawdd mynd iddo ar droed?

The First Secretary: I assume those 16 questions are the ones you put in your press release before the debate. I have acknowledged the impact on the economy and the importance of dealing with that. When you are dealing with a point of principle, whether it is slavery as it was in the past or unacceptable behaviour of another sort, you need to consider the impact on the economy, on the people employed and on communities.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn tybio mai'r 16 cwestiwn hynny yw'r rhai a roesoch yn eich datganiad i'r wasg cyn y ddadl. Yr wyf wedi cydnabod yr effaith ar yr economi a phwysigrwydd delio â hynny. Pan fyddwch yn delio gyda phwynt o egwyddor, boed gaethwasiaeth fel yr oedd yn y gorffennol neu ymddygiad annerbyniol o fath arall, mae angen i chi ystyried yr effaith ar yr economi, ar y bobl a gyflogir ac ar gymunedau.

Richard Edwards: Would you join me in condemning the shameful personal attack on Christine Gwyther by the nationalist agriculture spokesperson? As someone from a rural area who represents a rural constituency, I say that the fox-hunting lobby does not speak for the whole rural community but for a right-wing vested interest which thinks that fox-hunting is not cruel because sometimes the fox gets away. Rhodri Glyn thinks that too. Is not it instructive—please note, Islwyn, Rhondda and Llanelli—that a leading nationalist allies himself with the extreme right?

Richard Edwards: A fyddech chi'n ymuno â mi i gondemnio'r ymosodiad personol cywilyddus ar Christine Gwyther gan lefarydd y cenedlaetholwyr ar amaethyddiaeth? Fel rhywun o ardal wledig sy'n cynrychioli etholaeth wledig, dywedaf fi nad yw'r lobi hela llwynogod yn siarad dros y gymuned wledig i gyd ond dros fuddiannau adain-dde sy'n meddwl nad yw hela llwynogod yn greulon am fod y llwynog yn dianc weithiau. Mae Rhodri Glyn yn meddwl hynny hefyd. Onid yw'n ddadlennol—dalier sylw, Islwyn, Rhondda a Llanelli—fod cenedlaetholwr blaenllaw yn ymgynghreirio gyda'r dde eithafol?

The First Secretary: I was trying to reply moderately to this debate. However, I agree that that attack was unfortunate and misjudged. It is not the sort of exchange that we have had with Rhodri Glyn in this Chamber. I hope he will reflect on it. I say no more.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr oeddwn yn ceisio ateb yn gymedrol i'r ddadl hon. Fodd bynnag, yr wyf yn cytuno fod yr ymosodiad yn anffodus ac yn annoeth. Nid dyna'r math o gyfraniad a gawsom gan Rhodri Glyn yn y Siambr hon. Gobeithio y gwnaiff fyfyrio ar hynny. Ni ddywedaf ddim mwy.

We are talking about an activity about which the shadow Home Secretary, Ann Widdecombe, said that in 10 years we will look back with disbelief that we could allow anything so cruel at the end of the second millennium. That is a serious point of view. However, what we need in legislation—

Yr ydym yn siarad am weithgaredd y dywedodd Ysgrifennydd Cartref yr Wrthblaid, Ann Widdicombe, y byddem ymhen 10 mlynedd yn edrych yn ôl arno gydag anghrediniaeth y gallasem fod wedi caniatáu unrhyw beth mor greulon ar ddiwedd yr ail fileniwm. Mae honno'n farn ddifrifol. Fodd bynnag, beth sydd ei angen arnom o ran deddfwriaeth—

Mick Bates: Will you give way?

The First Secretary: Mr Llywydd, I think it would be helpful, as I try to give way to people all the time, if people could at least wait until the end of a clause or sentence before intervening.

In seeking to take these important decisions and bring about change, we should consider them properly in debating the implications. Some of the implications were the subject of discussion with those who came to see me at the Royal Welsh Show yesterday. I will continue to listen to them.

Mick Bates: As someone who is not a nationalist or an extremist, I must state that I was among those who asked to speak in the debate. I am saddened that we were not called, having been named to speak. If ever there was a reflection on the politics of this game you are playing with people's livelihoods and the bullying displayed in this debate, that is it. We should be saying that the time for this debate is insufficient. Most of us would agree on that. The nature of the debate means that it is not one we will decide in this Chamber. We should—

The Presiding Officer: Order. This is supposed to be an intervention. You were not called to speak because the time allocated ran out.

Mick Bates: Can I ask the First Secretary's opinion on providing a mechanism that would allow a Royal Commission to be formed to examine all these matters rationally?

The First Secretary: The mechanisms for the formation of a Royal Commission are a matter for central Government. I said earlier that I thought that this Assembly would wish to take a view and make that view known when it sees the nature of the legislation brought forward. That will require a more considered debate than one on an expression of the type that we are involved in today.

In response to your point, we need to

Mick Bates: A wnewch chi ildio?

Y Prif Ysgrifennydd: Mr Llywydd, yr wyf yn meddwl y byddai o gymorth, gan fy mod yn ceisio ildio i bobl bob amser, petai pobl o leiaf yn gallu aros tan ddiwedd cymal neu frawddeg cyn ymyrryd.

Wrth geisio gwneud y penderfyniadau pwysig hyn ac ysgogi newid, dylem eu hystyried yn iawn wrth drafod y goblygiadau. Roedd rhai o'r goblygiadau'n destun trafodaeth gyda'r rheini a ddaeth i'm gweld yn y Sioe Frenhinol ddoe. Byddaf yn parhau i wrando arnynt.

Mick Bates: Fel rhywun nad yw'n genedlaetholwr nac yn eithafwr, rhaid imi ddatgan fy mod i ymhlith y rhai hynny a ofynnwyd i siarad yn y ddadl. Yr wyf wedi'm tristáu na chawsom ein galw, ar ôl cael ein henwi i siarad. Os bu adlewyrchiad erioed ar bolitics y gêm yma yr ydych chi'n ei chwarae gyda bywoliaeth pobl a'r bwlio a welwyd yn y ddadl hon, dyna fe. Dylem fod yn dweud fod yr amser ar gyfer y ddadl hon yn annigonol. Byddai'r rhan fwyaf ohonom yn cytuno ar hynny. Mae natur y ddadl yn golygu nad yw'n un y byddwn yn ei phenderfynu yn y Siambr hon. Fe ddylem—

Y Llywydd: Trefn. Ymyriad yw hwn i fod. Ni chawsoch eich galw i siarad am fod yr amser a glustnodwyd wedi dirwyn i ben.

Mick Bates: A gaf i ofyn barn y Prif Ysgrifennydd ar ddarparu peirianwaith a fyddai'n caniatáu ffurfio Comisiwn Brenhinol i archwilio'r materion hyn yn rhesymegol?

Y Prif Ysgrifennydd: Mater i'r Llywodraeth ganolog yw'r peirianweithiau ar gyfer ffurfio Comisiwn Brenhinol. Dywedais yn gynharach fy mod yn meddwl y byddai'r Cynulliad hwn yn dymuno ffurfio barn a lleisio'r farn honno pan wêl natur y ddeddfwriaeth a gyflwynir. Bydd hynny'n gofyn am drafodaeth fwy ystyriol nag un o'r math yr ydym ynddi yma heddiw.

I ymateb i'ch pwynt, mae angen inni ystyried

consider how we use short debates. The original intention was to allow someone to make a statement of opinion—

sut y byddwn yn defnyddio dadleuon byr. Y bwriad gwreiddiol oedd caniatáu i rywun wneud datganiad o farn—

Glyn Davies *rose—*

Glyn Davies *yn codi—*

The Presiding Officer: Order. Is the First Secretary giving way?

Y Llywydd: Trefn. A ydyw'r Prif Ysgrifennydd yn ildio?

The First Secretary: Not until the end of the sentence, Mr Llywydd.

Y Prif Ysgrifennydd: Ddim tan ddiwedd y frawddeg, Mr Llywydd.

The Presiding Officer: Order. It is clear that Members are not entirely familiar with the Protocol on Conduct in the Chamber. It is not in order to stand when another person is speaking.

Y Llywydd: Trefn. Mae'n amlwg nad yw Aelodau'n gwbl gyfarwydd â'r Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr. Nid yw mewn trefn sefyll pan fydd rhywun arall yn siarad.

Glyn Davies: The end of the clause was so far away.

Glyn Davies: Yr oedd diwedd y cymal mor bell i ffwrdd.

The First Secretary: I think you have made your presence felt. The idea behind a short debate was to allow someone to express an opinion, for one or two others to come in, and then to have a response from an Assembly Secretary. I am trying to respond to the points made in a responsible way to help the Assembly look at how to deal with these debates in the future. We need, and this has been reflected in other debates, to think again about these debates. It is not just a question of the rules but of how all of us seek to use them constructively. I hope, Mr Llywydd, that my response is constructive about a matter on which I have a strong opinion, as do others throughout this Chamber.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn meddwl eich bod wedi cyhoeddi'ch presenoldeb. Y syniad y tu ôl i ddadl fer oedd caniatáu i rywun fynegi barn, i un neu ddau o bobl eraill gyfrannu, ac wedyn cael ymateb gan un o Ysgrifenyddion y Cynulliad. Yr wyf yn ceisio ymateb i'r pwyntiau a wnaed mewn ffordd gyfrifol er mwyn helpu'r Cynulliad i edrych ar sut i ddelio â'r dadleuon hyn yn y dyfodol. Mae angen, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu mewn dadleuon eraill, inni feddwl eto am y dadleuon hyn. Nid dim ond cwestiwn o'r rheolau ydyw, ond sut y bydd pob un ohonom yn ceisio'u defnyddio'n adeiladol. Gobeithio, Mr Llywydd, fod fy ymateb yn adeiladol ar fater y mae gennyf farn gryf arno, fel sydd gan eraill drwy'r Siambr hon.

Glyn Davies: Does Alun understand exactly what is happening here? Does he understand how divisive this is? Does he understand that a large minority, perhaps a majority, of people living in rural Wales think of this as a war on the countryside? That is what it is. Does he understand what it will do to this Chamber? I entered the Assembly with a view to joining in the inclusive politics that Alun talks about. However, this issue will make this Chamber as adversarial as any in the land. After we come back in September, if this issue is still around, debates will be

Glyn Davies: A ydyw Alun yn deall yn union beth sy'n digwydd yn y fan hyn? A ydyw'n deall mor gynhennus yw hyn? A ydyw'n deall fod lleiafrif mawr, efallai fwyafrif, o bobl sy'n byw yn y Gymru wledig yn gweld hyn fel rhyfel yn erbyn cefn gwlad? Dyna beth ydyw. A ydyw'n deall beth wnaiff hyn i'r Siambr hon? Deuthum i i'r Cynulliad gyda'r bwriad o ymuno yn y wleidyddiaeth gynhwysol y bydd Alun yn sôn amdani. Fodd bynnag, bydd y mater hwn yn gwneud i'r Siambr hon fod mor wrthdrawiadol ag unrhyw un yn y wlad. Wedi inni ddod yn ôl

red in tooth and claw.

ym mis Medi, os yw'r mater hwn yn dal i fod o gwmpas, bydd y dadlau'n ymladdfa goch dant ac ewin.

The First Secretary: I hope that was descriptive and not a statement of intent. Any issue about which there are strong feelings will be divisive. People can either approach the topic in an adversarial way or they can try to debate it calmly and reasonably. I would appeal for the second approach, however divisive and strong emotions are on issues that come before this Chamber. The time for detailed debate will be when the shape of the legislation promised becomes apparent.

Y Prif Ysgrifennydd: Gobeithio mai siarad disgrifiadol oedd hynny ac nid datganiad o fwriad. Bydd unrhyw gwestiwn sy'n codi teimladau cryf yn gynhennus. Gall pobl naill ai ddod at y pwnc mewn ffordd wrthdrawiadol neu gallant geisio ei drafod yn bwyllog a rhesymol. Fe fyddwn i'n apelio am yr ail ymagwedd, pa mor gynhennus a chryf bynnag y bo'r teimladau ar faterion a ddaw gerbron y Siambr hon. Yr amser i ddadlau manwl fydd pan fydd ffurf y ddeddfwriaeth a addewir yn dod i'r amlwg.

The overwhelming majority of the UK's population, including those living in rural areas is in favour of a ban on fox hunting and hunting with dogs in general. Opinion in Parliament has reflected that and it is no secret that I share the view that hunting with dogs has no place in a civilised society. When the time comes for us to comment on the Government's proposal, I hope this Assembly will endorse that view and do so in a constructive and positive manner.

Mae mwyafrif llethol poblogaeth y DU, gan gynnwys y rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, o blaid gwahardd hela llwynogod a hela â chŵn yn gyffredinol. Mae'r farn yn y Senedd wedi adlewyrchu hynny ac nid yw'n gyfrinach fy mod i'n rhannu'r farn nad oes lle i hela â chŵn mewn cymdeithas wâr. Pan ddaw'r amser inni roi sylwadau ar gynnig y Llywodraeth, gobeithiaf y gwnaiff y Cynulliad hwn gymeradwyo'r farn honno, a hynny mewn modd adeiladol a chadarnhaol.

Y Llywydd: Dyna ddiwedd y sesiwn am heddiw. Diolch yn fawr iawn.

The Presiding Officer: That is the end of the session for today. Thank you very much.

Daeth y sesiwn i ben am 5:31 p.m.
The session ended at 5:31 p.m.

Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn
Answers to Questions not Reached in Plenary

A-levels

Q6 Jonathan Morgan: Will the First Secretary make a statement on the future of A-levels and their role in enhancing the economic development of Wales? (OAQ486AG)

The First Secretary: A-levels and their vocational equivalents will continue to play a central role in education for learners over the age of 16. The reforms to the post 16 qualifications framework we announced earlier this year are designed to maintain high standards, encourage young people to follow a broader programme of study and promote lifelong learning. Our proposals for reforming post 16 education and training in Wales will enhance the opportunities available to gain qualifications for the benefit of individual learners, employers and the Welsh economy.

Arholiadau Safon Uwch

C6 Jonathan Morgan: A fydd y Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ar ddyfodol arholiadau safon Uwch a'u swyddogaeth o safbwynt gwella datblygiad economaidd Cymru? (OAQ486AG)

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd arholiadau safon Uwch a'r cymwysterau galwedigaethol sy'n cyfateb iddynt yn parhau i chwarae rhan ganolog mewn addysg ar gyfer dysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r newidiadau i'r fframwaith cymwysterau ôl 16 a gyhoeddwyd gennym yn gynharach eleni wedi'u llunio er mwyn cynnal safonau uchel, annog pobl ifanc i ddilyn rhaglen astudio ehangach a hyrwyddo addysg am oes. Bydd ein cynigion ar gyfer diwygio addysg a hyfforddiant ôl 16 yng Nghymru yn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i ennill cymwysterau, er lles dysgwyr unigol, cyflogwyr a'r economi Cymreig.

NHS Service

Q7 Kirsty Williams: Does the First Secretary intend to make the NHS service in Wales more open, accountable and democratic? (OAQ496JS)

The First Secretary: Effectiveness, openness and accountability have been the key principles on which I approached the NHS since I became Secretary of State for Wales and in preparing the way for engagement by the National Assembly for Wales. I am pleased to see these principles being driven forward by Jane Hutt as Health Secretary and by the Health and Social Services Committee.

We are committed to ensuring that the public are involved in decisions concerning their health services and in the development of policy. This includes:

making sure that community representatives and the voluntary sector contribute to Health Improvement Programmes via their Local Health Groups;

providing the public with more and better information about the performance of NHS bodies;

asking users and carers about their experiences of NHS services;

ensuring openness and transparency in the process of appointing chairs and non-executive directors through open advertisement;

strengthening the voice of Community Health Councils through the federation structure.

Gwasanaeth yr NHS

C7 Kirsty Williams: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu gwneud gwasanaeth yr NHS yng Nghymru yn fwy agored, atebol a democrataidd? (OAQ496JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Effeithiolrwydd, bod yn agored ac atebolrwydd yw'r prif egwyddorion y seiliais fy ngwaith gyda'r NHS arnynt ers imi ddod yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac wrth baratoi'r ffordd ar gyfer trosglwyddo'r gwaith i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr wyf yn falch o weld yr egwyddorion yma yn cael eu gyrru yn eu blaenau gan Jane Hutt yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd Iechyd a chan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch eu gwasanaethau iechyd ac â datblygu polisi. Mae hyn yn cynnwys:

sicrhau bod cynrychiolwyr y gymuned a'r sector gwirfoddol yn cyfrannu i Raglenni Gwella Iechyd drwy gyfrwng eu Grwpiau Iechyd Lleol;

rhoi mwy a gwell gwybodaeth i'r cyhoedd am berfformiad cyrff yn yr NHS;

gofyn i ddefnyddwyr a chynhalwyr am eu profiad o wasanaethau'r NHS;

sicrhau eu bod yn agored a thryloyw yn y broses o benodi cadeiryddion a chyfarwyddwyr anweithredol trwy hysbysebu agored;

cryfhau llais Cynghorau Iechyd Cymuned trwy'r strwythur ffederasiwn.

Immigration and Asylum Bill

Q8 Peter Black: What consultations has the First Secretary had with Welsh local councils about the implications of the Immigration and Asylum Bill in Wales? (OAQ478JS)

The First Secretary: The Home Office have taken a lead on this issue and is providing advice and guidance to interested parties in Wales (including the Welsh Local Councils) via a Home Office co-ordinator.

From the outset of the passage of the Immigration and Asylum Bill, my officials together with officials from the Welsh Local Government Association, Welsh Refugee Council and Cardiff County Council have met to consider the policy implications of the Immigration and Asylum Bill and its operational impact in Wales. These meetings have been superseded by meetings of a strategic steering group organised by the Welsh Local Government Association attended by the Home Office co-ordinator, which is looking specifically at implementing support to Asylum seekers via the proposed 'Consortia Arrangements'. Assembly officials are involved in these meetings and are actively supporting the process to ensure that Welsh issues are addressed and that relevant information is disseminated to all agencies in Wales who have an interest in this matter.

Mesur Mewnfudo a Lloches

C8 Peter Black: Pa ymgynghoriadau a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd a chynghorau lleol Cymru ynghylch goblygiadau'r Mesur Mewnfudo a Lloches yng Nghymru? (OAQ478JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r Swyddfa Gartref wedi cymryd yr awenau mewn perthynas â'r mater hwn ac mae'n rhoi cyngor a chanllawiau i'r rheini yng Nghymru sydd â diddordeb (gan gynnwys y Cynghorau Lleol Cymreig) drwy gyfrwng cydlynydd yn y Swyddfa Gartref.

Ers i'r Mesur Mewnfudo a Lloches gychwyn ar ei hynt, mae fy swyddogion innau ynghyd â swyddogion o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Chyngor Sir Caerdydd wedi cyfarfod er mwyn ystyried goblygiadau polisi'r Mesur Mewnfudo a Lloches a'i effaith weithredol yng Nghymru. Mae'r cyfarfodydd yma wedi'u disodli gan gyfarfodydd o grŵp llywio strategol a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr oedd cydlynydd y Swyddfa Gartref yn bresennol ynddynt, ac sy'n edrych yn benodol ar roi cefnogaeth i'r rheini sy'n ceisio Lloches drwy gyfrwng y 'Trefniadau Consortia' arfaethedig. Mae swyddogion y Cynulliad yn gysylltiedig â'r cyfarfodydd yma ac maent wedi mynd ati'n frwd i gefnogi'r broses er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ystyriaethau Cymreig a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei lledaenu i bob asiantaeth yng Nghymru sydd â diddordeb yn y mater hwn.

Adequate Care for Rough Sleepers

Q9 Val Feld: As part of his programme of social inclusion what plans does the First Secretary have to ensure that there is adequate day and night care for rough sleepers in Wales during the forthcoming winter of 1999-2000? (OAQ484JS)

The First Secretary: Twenty six schemes aimed at tackling rooflessness in Wales will be funded during 1999-2000 under Section 180 of the Housing Act 1996. These include nine nightshelters/direct access projects for rough sleepers and six schemes providing outreach/support services. In addition, the Supported Housing Revenue Grants funding (to Registered Social Landlords) makes provision of 737 bedspaces targeted to the single homeless. Of these, 350 are direct access. The remainder are resettlement projects, floating support and the provision of outreach services.

In addition, every year local authorities in Wales are invited to make specific bids for S180 revenue funding for winter projects for rough sleepers. In 1998-99, 10 schemes for this purpose were funded totalling £77,819.

Gofal Digonol i'r rhai a fydd yn Cysgu ar y Stryd

C9 Val Feld: Fel rhan o'i raglen i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i sicrhau bod yna ofal digonol ddydd a nos i'r rhai a fydd yn cysgu ar y stryd yng Nghymru yn ystod gaeaf 1999-2000? (OAQ484JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd 26 o gynlluniau sydd â'r nod o fynd i'r afael â mater pobl ddi-do yng Nghymru yn cael eu hariannu yn ystod 1999-2000 dan Adran 180 Deddf Tai 1996. Mae'r rhain yn cynnwys naw lloches nos/prosiect mynediad uniongyrchol i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd a chwe chynllun yn darparu gwasanaethau maes/cefnogi. Yn ogystal, mae'r arian a geir trwy'r Grantiau Refeniw Tai â Chefnogaeth yn gwneud darpariaeth ar gyfer 737 gwely, sydd wedi'u targedu ar gyfer pobl sengl ddigartref. O'r rhain, mae 350 yn welyau mynediad uniongyrchol. Mae'r gweddill yn brosiectau adsefydlu, prosiectau cefnogaeth hyblyg a phrosiectau darparu gwasanaethau maes.

Yn ychwanegol, bob blwyddyn gwahoddir awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud bidiau penodol am arian refeniw Ad180 ar gyfer prosiectau gaeaf ar gyfer y rhai sy'n cysgu ar y stryd. Ym 1998-99, ariannwyd 10 cynllun, gwerth £77,819, i'r diben hwn.

Information Technology Equipment

Q10 David Davies: Will the First Secretary list the companies that tendered for the contract to supply IT equipment for the Assembly? (OAQ476VB)

The First Secretary: The majority of the IT equipment and services required to support the National Assembly were provided under the terms of an existing contract, between the Welsh Office and Siemens Business Services Ltd, awarded in June 1996 following an EU competition. Initially, 53 companies responded to the advert in the European Journal of which eight finally submitted proposals. They were:
Computacentar, IBM, Welsh Water, Siemens Nixdorf, Parity, ICL, EDS, MDIS. Of these, Siemens, ICL and Parity were selected for the detailed negotiation phase

Offer Technoleg Gwybodaeth

C10 David Davies: A fydd y Prif Ysgrifennydd yn rhestru'r cwmnïau a gyflwynodd dendr am y contract i gyflenwi offer TG ar gyfer y Cynulliad? (OAQ476VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Darparwyd y rhan fwyaf o offer a gwasanaethau TG y mae eu hangen i gefnogi'r Cynulliad Cenedlaethol o dan delerau contract a oedd yn bod eisoes rhwng y Swyddfa Gymreig a chwmni Siemens Business Services Ltd, a ddyfarnwyd ym mis Mehefin 1996 yn dilyn cystadleuaeth yn yr UE. I ddechrau, ymatebodd 53 o gwmnïau i'r hysbyseb yn yr European Journal, gydag wyth ohonynt yn cyflwyno cynigion yn y pen draw. Y rheini oedd: Computacentar, IBM, Dŵr Cymru, Siemens Nixdorf, Parity, ICL, EDS, MDIS. O'r rhain, dewiswyd cwmnïau Siemens, ICL a Parity ar gyfer y cam trafodaethau manwl.

Local Government Settlement

Q11 Carwyn Jones: What timetable will be followed in determining this year's local government settlement? (OAQ479JS)

The First Secretary: The timetable for determining the Assembly's budget and the tabling for approval of the local government finance reports is set out in Standing Order No.19. The budget planning round process began last month when the Finance Secretary wrote to Committee chairmen asking them for their views on baselines and indicative baselines for the period 2000-2001 to 2002-2003.

In the meantime, consultations are continuing with representatives of local government. Peter Law chaired a meeting last Wednesday of the Settlement Working Group which discussed the Welsh Local Government Association's assessment of need to spend in 2000-2001, both capital and revenue. We aim to reach consensus with local government about the formulae for distributing revenue and capital resources in the autumn. Copies of papers for these consultative meetings are available on the intranet.

Setliad Llywodraeth Leol

C11 Carwyn Jones: Pa amserlen a ddilynir wrth benderfynu ar setliad llywodraeth leol eleni? (OAQ479JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Rhoddir manylion yr amserlen ar gyfer penderfynu cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiadau cyllid llywodraeth leol i'w cymeradwyo yn Rheol Sefydlog Rhif 19. Dechreuodd broses cylch cynllunio'r gyllideb y mis diwethaf pan ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cyllid at gadeiryddion Pwyllgorau yn gofyn iddynt am eu sylwadau ar gyllidebau sylfaenol a chyllidebau sylfaenol amcanol ar gyfer y cyfnod 2000-2001 i 2002-2003.

Yn y cyfamser, mae ymgynghori yn parhau gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol. Cadeiriodd Peter Law gyfarfod o Weithgor y Setliad ddydd Mercher diwethaf, a drafododd asesiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r anghenion gwario yn 2000-2001, o ran cyfalaf a refeniw. Ein nod yw dod i gytundeb â llywodraeth leol ynghylch y fformiwlâu ar gyfer dosbarthu adnoddau refeniw a chyfalaf yn yr hydref. Mae copïau o bapurau ar gyfer y cyfarfodydd ymgynghori hyn ar gael ar y fewnrwyd.

Free Bus Travel for Pensioners

Q12 Lynne Neagle: What plans are being made to implement free bus travel for pensioners in Wales? (OAQ492JS)

The First Secretary: Within the next two to three years I want state pensioners to enjoy free concessionary travel on buses in Wales. A steering group is being established chaired by a senior official and including representatives from local government, bus operators and consumer interests. The group will investigate the practical and financial implications of this policy for local authorities and the National Assembly, and recommend options for its implementation

Teithio Di-dâl ar Fysiau i Bensiynwyr

C12 Lynne Neagle: Pa gynlluniau sydd ar y gweill o ran caniatáu i bensiynwyr yng Nghymru deithio'n ddi-dâl ar fysiau? (OAQ492JS)

Y Prif Ysgrifennydd: O fewn y ddwy i dair blynedd nesaf yr wyf eisiau i bensiynwyr gwladol gael teithio yn rhad ac am ddim ar fysiau yng Nghymru. Mae grŵp llywio yn cael ei sefydlu, a gaiff ei gadeirio gan uwch swyddog, ac a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, cwmnïau bysiau a buddiannau defnyddwyr. Bydd y grŵp yn ymchwilio i oblygiadau ymarferol ac ariannol y polisi hwn ar gyfer awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cymreig, ac yn argymell opsiynau ar gyfer ei weithredu.

Nuclear Waste (Trecŵn)

Q13 Richard Edwards: Is the First Secretary aware of the proposal to store nuclear waste at the former Royal Navy Armaments Depot site at Trecŵn and will he give an assurance that he will do everything he can to prevent this proposal proceeding? (OAQ494JS)

The First Secretary: I understand that no application has been submitted for consent to store radioactive waste at Trecŵn. If an application is made it will need to be considered on its merits and representations from interested parties would be fully considered at that stage.

I am aware of public discussion of such a proposal and the concern that this has raised locally over many months. Any such development requires both an appropriate planning consent from the local authority and an authorisation from the Environment Agency. The National Assembly has powers to call in applications for planning permission and authorisation

Gwastraff Niwclear (Trecŵn)

C13 Richard Edwards: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn gwybod am y cynnig i storio gwastraff niwclear yn hen Safle Arfau'r Llynges Frenhinol yn Nhrecŵn ac a fydd yn rhoi sicrwydd y gwna ei orau glas i atal y cynnig hwn rhag mynd yn ei flaen? (OAQ494JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Deallaf nad oes unrhyw gais wedi'i gyflwyno am ganiatâd i storio gwastraff ymbelydrol yn Nhrecŵn. Os gwneir cais yna bydd rhaid ei ystyried yn ôl ei haeddiant a rhoddid ystyriaeth lawn i sylwadau oddi wrth rai sydd â diddordeb yn y mater yr adeg honno.

Yr wyf yn ymwybodol o drafodaethau cyhoeddus ar gynnig o'r fath ac o'r pryder y mae hyn wedi'i godi yn lleol dros nifer o fisoedd. Mae angen i unrhyw ddatblygiad o'r fath gael caniatâd cynllunio priodol gan yr awdurdod lleol ac awdurdod i symud ymlaen gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i alw i mewn ceisiadau am ganiatâd cynllunio ac awdurdod.

Financial Problems (Hospitals)

Q14 David Melding: What action is the First Secretary taking to resolve the financial problems being experienced by half of all the hospitals in Wales? (OAQ485AG)

The First Secretary: I am very concerned at the level of cumulative deficit already incurred by health trusts and health authorities in NHS Wales and that, despite the unprecedented levels of increase in health authority allocations announced on 18 May, initial financial returns from NHS trusts and health authorities indicated that eight out of 16 trusts and one health authority are still forecasting a deficit this year. I shall be considering very carefully the findings of the NHS stocktake which the Health and Social Services Committee will be discussing on 21 July. Assembly officials will also be working closely with those trusts and health authorities which are in deficit to ensure that realistic and achievable recovery plans to restore financial balance are developed and implemented within the framework of the Health Improvement Programmes that the health authorities are currently developing

Problemau Ariannol (Ysbytai)

C14 David Melding: Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i ddatrys y problemau ariannol sydd gan hanner ysbytai Cymru? (OAQ485AG)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn bryderus iawn ynghylch lefel y diffyg cronnol a geir eisoes yng nghyllidebau ymddiriedolaethau iechyd ac awdurdodau iechyd yn NHS Cymru a'r ffaith bod adroddiadau ariannol cyntaf oddi wrth ymddiriedolaethau NHS ac awdurdodau iechyd yn dangos, er gwaethaf y cynnydd nas gwelwyd ei debyg o'r blaen yn lefelau dyraniadau awdurdodau iechyd, a gyhoeddwyd ar 18 Mai, bod wyth allan o 16 ymddiriedolaeth ac un awdurdod iechyd yn dal i ragweld diffyg eleni. Byddaf yn ystyried yn ofalus iawn ganfyddiadau ymarfer cymryd stoc yr NHS y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei drafod ar 21 Gorffennaf. Bydd swyddogion y Cynulliad hefyd yn gweithio'n agos iawn â'r ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd hynny sydd yn wynebu diffyg er mwyn sicrhau bod cynlluniau adfer realistig, y gellir eu gwireddu, i fantoli'r gyllideb yn cael eu datblygu a'u gweithredu o fewn fframwaith y Rhaglenni Gwella Iechyd y mae'r awdurdodau iechyd yn eu datblygu ar hyn o bryd

Average Growth Rates of the Welsh Economy

Q15 Phil Williams: What are the latest government estimates of the average growth rates of the Welsh economy over the period since May 1997? (OAQ495JS)

The First Secretary: There are no official estimates of growth rates of gross domestic product for any UK region. The Office of National Statistics provides estimates of nominal GDP. The Welsh figure for 1997 (the latest available one was published in January 1999) is £27.6 billion.

Cyfraddau Twf Cyfartalog Economi Cymru

C15 Phil Williams: Beth yw amcangyfrifon diweddaraf y Llywodraeth o gyfraddau twf cyfartalog economi Cymru yn ystod y cyfnod er Mai 1997? (OAQ495JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Nid oes unrhyw amcangyfrifon swyddogol o gyfraddau twf y cynnyrch mewnwladol crynswth ar gyfer unrhyw ranbarth yn y DU. Mae'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn darparu amcangyfrifon o gynnyrch mewnwladol crynswth amcanol. Y ffigwr Cymreig ar gyfer 1997 (cyhoeddwyd y ffigwr diweddaraf sydd ar gael ym mis Ionawr 1999) yw £27.6 biliwn.

CEDAW Meetings (Government Delegation)

Q16 Jenny Randerson: Will the First Secretary confirm that the government delegation to recent Convention to Eliminate All Forms of Discrimination Against Women meetings held in the UN contained no representation from Wales and will he explain how delegates were selected? (OAQ483VB)

The First Secretary: The Government delegation to the recent CEDAW meetings held in the United Nations Convention in New York did not include a specific Welsh representative. Delegates were selected to reflect the main themes of the United Kingdom's presentation. Welsh Office officials—as they were then—were invited to attend but were unable to do so as preparations for the Assembly were in full flow at the time. Full briefing was provided to the delegation and I understand that the UK presentation was very successful.

Cyfarfodydd CEDAW (Dirprwyaeth y Llywodraeth)

C16 Jenny Randerson: A fydd y Prif Ysgrifennydd yn cadarnhau nad oedd dirprwyaeth y llywodraeth i gyfarfodydd diweddar y Confensiwn i Ddiddymu pob Ffurf ar Wahaniaethu yn Erbyn Merched a gynhaliwyd yn y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys unrhyw gynrychiolaeth o Gymru ac a wna esbonio sut y dewiswyd y dirprwyon? (OAQ483VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Nid oedd dirprwyaeth y llywodraeth i'r cyfarfodydd CEDAW diweddar a gynhaliwyd yn y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd yn cynnwys cynrychiolydd penodol o Gymru. Dewiswyd dirprwyon er mwyn adlewyrchu prif themâu cyflwyniad y Deyrnas Unedig. Gwahoddwyd swyddogion o'r Swyddfa Gymreig—fel yr oeddent bryd hynny—i fod yn bresennol ond nid oedd modd iddynt fynd i'r cyfarfodydd gan fod y paratoadau ar gyfer y Cynulliad yn eu hanterth ar y pryd. Rhoddwyd cyfarwyddiadau llawn i'r ddirprwyaeth a deallaf y bu cyflwyniad y DU yn un llwyddiannus iawn.

The Image of Wales

Q17 John Griffiths: What strategy will be followed to heighten the image of Wales in Europe and across the world? (OAQ487VB)

The First Secretary: Developing the profile of Wales in Europe and internationally is one of my Cabinet's values and priorities, which I presented to the Assembly on 15 June. We aim to develop a coherent approach to optimise every opportunity that presents itself, create new ones and raise the profile of Wales on the international stage. The task will be led by a recently established International Relations Unit, supported by a Co-ordinating Group representing key public sector bodies in Wales

Delwedd Cymru

C17 John Griffiths: Pa strategaeth a ddefnyddir i hybu delwedd Cymru yn Ewrop a ledled y byd? (OAQ487VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae datblygu proffil Cymru yn Ewrop ac yn rhyngwladol yn un o werthoedd a blaenoriaethau fy Nghabinet, a gyflwynais i'r Cynulliad ar 15 Medi. Ein nod yw datblygu dull o weithredu cydlynol er mwyn gwneud y mwyaf o bob cyfle sy'n codi, creu cyfleoedd newydd a chodi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Caiff y dasg ei harwain gan Uned Cysylltiadau Rhyngwladol a sefydlwyd yn ddiweddar, gyda chefnogaeth Grŵp Cydlynu sy'n cynrychioli'r prif gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru.

Well-paid Jobs

Q18 Owen John Thomas: Is the First Secretary aware of any plans to increase the number of well-paid jobs in Wales, specifically in the Rhondda Cynon Taff area? (OAQ491JS)

The First Secretary: It is our policy to encourage the move away from a Welsh economy based on the notion of our being a 'low cost' nation with low pay bills. 'Pathway to Prosperity' (published by the Welsh Office in July 1998) presents a range of strategies designed to further this new economic agenda for Wales. We have taken on board that new agenda.

There are a host of services already available from the Assembly and its staff and agencies. Our exports branch and the WDA provide a number of important services to exporters and potential exporters. The Regional Innovation Grant scheme helps individuals and small businesses develop ideas into something that may be commercially viable. Regional Selective Assistance is the main instrument of government financial support for businesses in the Assisted Areas of Wales. And the WDA and the Wales Tourist Board are actively helping, supporting and encouraging businesses in a variety of ways.

'Know-how Wales' is a new and particularly important initiative. It is designed to help small and medium sized businesses gain easier access to the wealth of expertise and technology which exist in Welsh colleges and universities and, by commercialising it more fully and effectively, to gain a vital competitive advantage.

Improving labour market skills is a key part of our approach, as set out in 'Pathway to Prosperity' and the draft National Development Strategy. The 'Future Skills Wales' project has identified some of the most important skills that employers look for. In Rhondda Cynon Taff, as elsewhere in Wales, it will only be possible to sustain better paid jobs if a good supply of people with relevant skills is available. We have a number of programmes to help improve workforce skills, for example Modern Apprenticeships

Swyddi sy'n Talu'n Dda

C18 Owen John Thomas: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn gwybod am unrhyw gynlluniau i sicrhau mwy o swyddi sy'n talu'n dda yng Nghymru, yn enwedig yn ardal Rhondda Cynon Taf? (OAQ491JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Ein polisi yw hybu'r symudiad oddi wrth economi Cymreig sy'n seiliedig ar y syniad ein bod yn genedl 'gost isel' gyda biliau cyflog isel. Mae 'Ffordd i Ffyniant' (a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ym mis Gorffennaf 1998) yn cyflwyno amrywiaeth o strategaethau a luniwyd i hyrwyddo'r agenda economaidd newydd hon i Gymru. Yr ydym wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am yr agenda newydd hon.

Mae amryw o wasanaethau ar gael eisoes gan y Cynulliad a'i staff a'i asiantaethau. Mae ein cangen allforion ac Awdurdod Datblygu Cymru yn darparu nifer o wasanaethau pwysig i allforwyr ac allforwyr posibl. Mae'r cynllun Grant Arloesi Rhanbarthol yn helpu unigolion a busnesau bychain i droi syniadau yn rhywbeth a all fod yn fasnachol hyfyw. Cymorth Rhanbarthol Dewisol yw prif offeryn cefnogaeth ariannol y llywodraeth ar gyfer busnesau yn Rhanbarthau Cymorth Cymru. Ac mae Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru yn helpu, yn cefnogi ac yn annog busnesau mewn amryw o ffyrdd.

Mae 'Gwybod Sut yng Nghymru' yn gynllun newydd arbennig o bwysig. Mae wedi'i lunio er mwyn helpu busnesau bychain a chanolig eu maint i gael gafael yn haws ar y toreth o arbenigedd a thechnoleg sydd ar gael mewn colegau a phrifysgolion yng Nghymru a thrwy ei fasnacheiddio yn llawnach ac yn fwy effeithiol, sicrhau mantais gystadleuol hanfodol.

Mae gwella sgiliau'r farchnad waith yn rhan allweddol o'n dull o weithredu, fel a nodir yn 'Ffordd i Ffyniant' a'r Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol ddrafft. Mae'r prosiect 'Sgiliau Dyfodol Cymru' wedi nodi rhai o'r sgiliau pwysicaf y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Yn Rhondda Cynon Taf, fel mewn mannau eraill yng Nghymru, dim ond os oes digon o bobl ar gael, sydd â'r sgiliau perthnasol, y bydd modd cynnal swyddi sy'n talu'n well. Mae gennym nifer o raglenni i helpu i wella sgiliau'r gweithlu, er enghraifft Prentisiaethau Modern.

Arolwg Daearegol Prydeinig

C19 Cynog Dafis: Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu hyrwyddo gweithgarwch yr Arolwg Daearegol Prydeinig yng Nghymru? (OAQ480JS)

Y Prif Ysgrifennydd : Mae'r Cynulliad am weithio mewn partneriaeth ar draws pob sector a byddai'n croesawu gweld agor swyddfa newydd gan Arolwg Daearegol Prydain yng Nghymru. Fodd bynnag, mater iddynt hwy yw ble i agor swyddfa

British Geological Survey

Q19 Cynog Dafis: How does the First Secretary propose to promote the activities of the British Geological Survey in Wales? (OAQ480JS)

The First Secretary: The Assembly wishes to work in partnership across all sectors and would welcome the establishment of a new British Geological Survey office in Wales. However, it is a matter for them to consider where to locate their offices.

Weakest Members of Society (Disadvantage)

Q20 Geraint Davies: Can the First Secretary give an assurance that the weakest members of society, that is, those with severe disabilities, will not end up being the most heavily disadvantaged as a result of having to reduce the numbers of hours they work to attend therapy sessions? (OAQ497JS)

The First Secretary: I would hope that all employers would adopt a fair and reasonable approach towards meeting the needs of their employees who have disabilities. In doing so, employers need to take into account their statutory responsibilities, in particular those in the Disability Discrimination Act 1995 which makes it unlawful to discriminate against current or prospective employees for a reason related to a person's disability. This may include failure to make reasonable adjustments such as allowing a person to be absent from work for rehabilitation, assessment or treatment.

The Disability Rights Commission, which is due to be established next year, will have an important role to play in promoting good practice among employers and service providers, and will be a central source of information and advice about the Disability Discrimination Act. It will also undertake formal investigations and provide advice and support in taking cases forward.

Aelodau Gwannaf ein Cymdeithas (Anfantais)

C20 Geraint Davies: A all y Prif Ysgrifennydd roi sicrwydd na fydd yr aelodau gwannaf yn ein cymdeithas, h.y. y rhai sydd ag anableddau difrifol, o dan hyd yn oed mwy o anfantais, gan y bydd yn rhaid iddynt weithio llai o oriau er mwyn mynychu sesiynau therapi? (OAQ497JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Buaswn yn gobeithio y byddai pob cyflogwr yn mabwysiadu dull o weithredu teg a rhesymol o ran diwallu anghenion eu gweithwyr sydd ag anableddau. Wrth wneud hyn, byddai angen i gyflogwyr gymryd i ystyriaeth eu cyfrifoldebau statudol, yn arbennig y rheini yn Neddf Camwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 sydd yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon camwahaniaethu yn erbyn gweithwyr presennol neu ddarpar weithwyr am reswm yn ymwneud ag anabledd person. Gall hyn gynnwys peidio â gwneud newidiadau rhesymol megis caniatáu i berson fod yn absennol o'r gwaith ar gyfer gwaith adsefydlu, er mwyn cael ei asesu neu er mwyn cael triniaeth.

Bydd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd, sydd i fod i gael ei sefydlu y flwyddyn nesaf, rôl bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo ymarfer da ymysg cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau, a bydd yn ffynhonnell ganolog ar gyfer cael gwybodaeth a chyngor am y Ddeddf Camwahaniaethu ar Sail Anabledd. Bydd hefyd yn ymgymryd ag ymchwiliadau ffurfiol ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth o ran symud achosion yn eu blaenau.

Showcasing the Work of Welsh Artists

Q21 Lorraine Barrett: Are there any plans in place to use the spaces within the National Assembly building to showcase the work of Welsh artists? (OAQ493JS)

The First Secretary: Priority has been given to a smooth process of transition in establishing the Assembly but I strongly believe that the Assembly should provide a setting to promote the work of Welsh artists. I have asked officials to look at the issue during the recess and would welcome suggestions from Members.

Arddangos Gwaith Arlunwyr o Gymru

C21 Lorraine Barrett: A oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i ddefnyddio'r mannau yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn arddangos gwaith arlunwyr o Gymru? (OAQ493JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Rhoddwyd blaenoriaeth i broses drosglwyddo esmwyth wrth sefydlu'r Cynulliad ond credaf yn gryf y dylai'r Cynulliad ddarparu sefydliad i hyrwyddo gwaith arlunwyr o Gymru. Yr wyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar y mater yn ystod y gwyliau a buaswn yn croesawu awgrymiadau gan yr Aelodau.

Poverty in Rural Wales

Q22 Nick Bourne: What plans does the First Secretary have to alleviate poverty in rural Wales**?** (OAQ507VB)

The First Secretary: I am determined that all policies and programmes impacting on Wales's rural areas should help to combat poverty, minimise social exclusion and stem economic decline by developing a prosperous and sustainable rural economy, encouraging a greater range of employment opportunities offering higher incomes, promoting entrepreneurship and reducing inequalities in access to local services and recreational facilities.

The Social Inclusion Fund is providing £48 million over three years to tackle some of the most intractable problems faced by deprived communities across Wales. In addition, £1.75 million will be made available in 1999-2000 and in each of the following two years to continue and expand the People in Communities programme which is helping to combat deprivation in both rural and urban areas.

On 7 July, Members debated the Statement on rural issues prepared by the Rural Partnership. The document encompasses a broad range of economic, social, environmental and cultural issues of concern to rural Wales including the need to promote social inclusion and develop anti-poverty strategies. The Statement is being considered as part of the Agriculture and Rural Development Committee's forward work programme and its values will be promoted for the benefit of all rural communities in Wales.

Tlodi yng Nghefn Gwlad Cymru

C22 Nick Bourne: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i leddfu'r tlodi yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ507VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn benderfynol y dylai'r holl bolisïau a rhaglenni sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig Cymru helpu i ymladd tlodi, lleihau allgáu cymdeithasol ac atal dirywiad economaidd trwy ddatblygu economi gwledig ffyniannus a chynaladwy, annog amrywiaeth ehangach o gyfleoedd am waith yn cynnig incymau uwch, hyrwyddo mentergarwch a lleihau anghydraddoldebau o ran cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau adloniant lleol.

Mae'r Gronfa Cynhwyso Cymdeithasol yn darparu £48 miliwn dros dair blynedd er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf anodd eu trin a wynebir gan gymunedau difreintiedig ar draws Cymru. Yn ogystal, darperir £1.75 miliwn ym 1999-2000 ac ym mhob un o'r ddwy flynedd ganlynol er mwyn parhau ac ymestyn y rhaglen Pobl mewn Cymunedau sy'n helpu i ymladd diffyg braint mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd.

Ar 7 Gorffennaf, trafododd yr Aelodau y Datganiad ar faterion gwledig a baratowyd gan y Bartneriaeth Wledig. Mae'r ddogfen yn cwmpasu ystod eang o faterion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n peri pryder i'r Gymru wledig gan gynnwys yr angen i hybu cynhwyso cymdeithasol a datblygu strategaethau gwrth-dlodi. Mae'r Datganiad yn cael ei ystyried fel rhan o raglen waith y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig at y dyfodol a bydd ei werthoedd yn cael eu hybu er lles yr holl gymunedau gwledig yng Nghymru.

Countryside Council for Wales' Annual Grant-in-aid Budget

Q23 Janet Ryder: Will the First Secretary clarify the role of the Local Government, Environment, Planning, Housing and Transport Committee and the Agriculture and Rural Development Committee in determining the Countryside Council for Wales's annual grant-in-aid budget, in view of the fact that its remit comes under the remit of both Committees? (OAQ512JS)

The First Secretary: The Subject Committees may each submit advice on priorities for the Assembly's expenditure and on the allocation of resources within their areas of responsibility. The Subject Committees' advice will be taken into account in drawing up the detailed budget, including the Countryside Council for Wales's grant-in-aid, for ratification by the Assembly.

Cymhorthdal Grant Blynyddol Cyngor Cefn Gwlad Cymru

C23 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd egluro rôl y Pwyllgor Llywodraeth Leol, yr Amgylchedd, Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wrth bennu cymhorthdal grant blynyddol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yng ngoleuni'r ffaith fod ei gylch gwaith yn dod o dan gylch gwaith y ddau bwyllgor? (OAQ512JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Gall y ddau Bwyllgor Pwnc gyflwyno cyngor ar flaenoriaethau ar gyfer gwariant y Cynulliad ac ar ddyrannu adnoddau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Cymerir cyngor y Pwyllgorau Pwnc i ystyriaeth wrth lunio'r gyllideb fanwl, gan gynnwys cymhorthdal grant Cyngor Cefn Gwlad Cymru, i'w chadarnhau gan y Cynulliad.

Values for Work of the Assembly

Q24 Jocelyn Davies: Will the First Secretary consider bringing forward an amendment to the adopted values for work of the Assembly to include our obligations to the European convention of human rights? (OAQ544JS)

The First Secretary: I intend to update the initial statement in the light of responses to the consultation document 'A Better Wales', issued on 16 July. I shall reflect on this point and a number of others made in the debate on 15 June in bringing forward any revisions.

Gwerthoedd ar gyfer Gwaith y Cynulliad

C24 Jocelyn Davies: A fydd y Prif Ysgrifennydd yn ystyried cyflwyno gwelliant i werthoedd ar gyfer gwaith y Cynulliad a fabwysiadwyd, er mwyn cynnwys ein rhwymedigaethau i'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol? (OAQ544JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n fwriad gennyf ddiweddaru'r datganiad cychwynnol yng ngoleuni ymatebion i'r ddogfen ymgynghori 'Cymru Well' a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf. Byddaf yn ystyried y pwynt hwn a nifer o bwyntiau eraill a wnaed yn ystod y ddadl ar 15 Mehefin wrth gyflwyno unrhyw newidiadau.

Imported Chinese Anthracite

Q25 Gwenda Thomas: What action does the First Secretary propose against imported Chinese anthracite that has caused the loss of jobs in the south Wales valleys? (OAQ646VB)

The First Secretary: None since unfair imports of any commodity into Europe is a matter for the European Commission and it is the Department of Trade and Industry's role to make any relevant UK representations on such issues

Mewnforion o Lo Caled o China

C25 Gwenda Thomas: Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu eu cymryd yn erbyn mewnforion o lo caled o China sydd wedi achosi i swyddi gael eu colli yng nghymoedd y De? (OAQ646VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Dim, gan mai mater i'r Comisiwn Ewropeaidd yw unrhyw nwyddau sy'n cael eu mewnforio i Ewrop yn annheg a rôl yr Adran Masnach a Diwydiant yw cyflwyno unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i'r DU ar faterion o'r fath.

Imported Anthracite (Ex-British Coal Miners)

Q26 Gwenda Thomas: What assurances can the First Secretary give that ex-British Coal miners or their dependants will not be supplied with imported anthracite, either directly or as a component of manufactured fuels, when the new concessionary contract is let by the Department of Trade and Industry later this year? (OAQ647VB)

The First Secretary: None, since concessionary coal supply contracts are the responsibility of the Department of Trade and Industry

Glo Caled Tramor (Cyn Lowyr Glo Prydain)

C26 Gwenda Thomas: Pa sicrhad y gall y Prif Ysgrifennydd ei roi na fydd cyn lowyr Glo Prydain neu eu dibynyddion yn derbyn glo caled tramor, naill ai yn uniongyrchol neu fel rhan o danwyddau gwneuthuredig, pan fydd y contract consesiwn newydd yn cael ei roi allan ar dendr gan yr Adran Masnach a Diwydiant yn ddiweddarach eleni? (OAQ647VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Dim, gan mai cyfrifoldeb yr Adran Masnach a Diwydiant yw contractau consesiwn ar gyfer cyflenwi glo.

UK Wide Committees (Representation from Wales)

Q27 Janet Ryder: Are there UK wide committees that deal with issues having a direct effect on Wales and what measures has the First Secretary taken to ensure adequate representation from Wales? (OAQ648VB)

The First Secretary: Many ministerial working groups and task forces chaired by various Government Ministers, deal with subjects that are part of the Assembly's functions. The Welsh Office ministerial team has been represented on a number of these groups, and I and the rest of the Cabinet are pleased to have the opportunity to take part in their work whenever the Assembly's interests suggest that this would be useful. Such participation can make a positive contribution to the Cabinet's task of communicating the Assembly's point of view to the development of policies that affect Wales. To give a couple of examples, Jane Hutt has already attended a meeting of the Children's Safeguards group, which is driving the Government's response to the Children's Safeguards Review—otherwise known as the Utting report—and which is chaired by the Secretary of State for Health. Kim Howells has extended an invitation to the Assembly to be represented on the DTI-led Ministerial Group on consumer affairs.

Pwyllgorau Ledled y DU (Cynrychiolaeth o Gymru)

C27 Janet Ryder: A oes pwyllgorau ledled y DU sy'n ymdrin â materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Gymru a pha gamau a gymerwyd gan y Prif Ysgrifennydd i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol o Gymru? (OAQ648VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae llawer o weithgorau a thasgluoedd y gweinidogion, sy'n cael eu cadeirio gan wahanol Weinidogion yn y Llywodraeth, yn ymdrin â phynciau sy'n rhan o swyddogaethau'r Cynulliad. Mae tîm gweinidogion y Swyddfa Gymreig wedi cael ei gynrychioli ar nifer o'r grwpiau hyn, ac yr wyf innau a gweddill y Cabinet yn falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn eu gwaith pa bryd bynnag y mae buddiannau'r Cynulliad yn awgrymu y byddai hyn yn ddefnyddiol. Gall cyfranogiad o'r fath wneud cyfraniad positif i dasg y Cabinet o adlewyrchu safbwynt y Cynulliad yn y broses o ddatblygu polisïau sy'n effeithio ar Gymru. Er enghraifft, mae Jane Hutt eisoes wedi mynychu cyfarfod o'r grŵp Amddiffynfeydd Plant, sy'n gyrru ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Amddiffynfeydd Plant—neu adroddiad Utting, fel y'i gelwir—ac sy'n cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd. Mae Kim Howells wedi estyn gwahoddiad i'r Cynulliad gael ei gynrychioli ar Grŵp y Gweinidogion ar faterion defnyddwyr a arweinir gan yr Adran Masnach a Diwydiant.